



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 13 Mehefin 2006  
Tuesday, 13 June 2006**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 4 Cwestiynau i'r Prif Weinidog  
Questions to the First Minister
- 33 Cwestiwn Brys  
Urgent Question
- 39 Datganiad Busnes  
Business Statement
- 43 Datganiad gan Jane Hutt, y Gweinidog â Chyfrifoldeb dros Gyfle Cyfartal—Iaith  
Arwyddion Prydain  
Statement by Jane Hutt, Minister with Responsibility for Equal Opportunities—British  
Sign Language
- 58 Atal Rheolau Sefydlog  
Suspension of Standing Orders
- 59 Diwygio Rheolau Sefydlog  
Revision of Standing Orders
- 60 Cymeradwyo Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog Rhif 24.25  
Approval of Legislation under Standing Order No. 24.25
- 62 Cymeradwyo Rheoliadau Salmonela mewn Heidiau o Frwyliaid (Pwerau Arolygu)  
(Cymru) 2006  
Approval of the Salmonella in Broiler Flocks (Survey Powers) (Wales) Regulations  
2006
- 65 Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau  
Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006  
Approval of the Housing Act 2004 (Commencement No. 3 and Transitional Provisions  
and Savings) (Wales) Order 2006
- 74 Cymeradwyo Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac  
Allforio) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog Rhif 24.27(iv)  
Approval of the Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales)  
Regulations 2006 under Standing Order No. 24.27(iv)
- 77 Cymeradwyo Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru)  
2006 a Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) Defaid  
a Geifr (Cymru) 2006  
Approval of the Bovine Spongiform Encephalopathies (BSE) Compensation (Wales)  
Regulations 2006 and the Sheep and Goats Transmissible Spongiform  
Encephalopathies (TSE) Compensation (Wales) Regulations 2006
- 90 Cymeradwyo Cod Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen  
2006 o dan Reol Sefydlog Rhif 29  
Approval of the Code of Practice to Prevent and Control the Spread of Ragwort 2006  
under Standing Order No. 29

97 Dadl Fer: Mannau Gwyrdd Trefol a Thai Fforddiadwy  
Short Debate: Urban Green Space and Affordable Housing

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

### **Argaeledd Ambiwylansys (Gwynedd) Ambulance Availability (Gwynedd)**

**Q1 Lisa Francis:** Would the First Minister make a statement on ambulance availability in Gwynedd? OAQ1650(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** I was pleased to observe that, in Gwynedd, performance for first responses to category A calls arriving within eight minutes has improved over the last 12 months from 54.3 per cent to 57.6 per cent. That still needs to be improved upon to reach the 60 per cent target.

**Lisa Francis:** Ambulance services in Gwynedd are compromised by the nature of the terrain, along with the fact that the population and traffic increases hugely during the summer. However, has anyone made representations to you about holding an urgent review of ambulance services over the last bank holiday weekend? A constituent from Aberystwyth who was holidaying in Gwynedd had to call an ambulance after his seven-year-old son fell on a broken bottle. Twenty minutes elapsed, and when a police officer radioed to find out what had happened to the ambulance, he was informed that the delay was due to the fact that the two ambulances in service were already responding to other calls. The child then had to be driven to the accident-and-emergency department—

**The Presiding Officer:** Order. I am sure that this is an important matter, both to you and the person concerned, but this is questions to the First Minister. It is not appropriate to go into a long discussion of casework during questions.

**Lisa Francis:** Given what you have already said about the meeting of target times being improved, First Minister, there is still the

**C1 Lisa Francis:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr ambiwlansys sydd ar gael yng Ngwynedd? OAQ1650(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr oedd yn dda gennyf sylwi bod y perfformiad o ran yr ymatebion cyntaf i alwadau categori A sy'n cyrraedd o fewn wyth munud wedi gwella yng Ngwynedd yn ystod y 12 mis diwethaf o 54.3 y cant i 57.6 y cant. Mae angen gwneud yn well byth i gyrraedd y targed, sef 60 y cant.

**Lisa Francis:** Effeithir ar wasanaethau ambiwlans yng Ngwynedd gan natur y tir, ynghyd â'r ffaith bod y boblogaeth a'r traffig yn cynyddu'n ddirfawr yn ystod yr haf. Fodd bynnag, a oes rhywun wedi cyflwyno sylwadau ichi ynghylch cynnal adolygiad brys o'r gwasanaethau ambiwlans yn ystod penwythnos yr ŵyl banc sydd newydd fod? Bu raid i etholwr o Aberystwyth a oedd ar ei wyliau yng Ngwynedd alw am ambiwlans wedi i'w fab saith mlwydd oed syrthio ar botel a oedd wedi torri. Aeth ugain munud heibio, a phan alwodd heddwys ar ei radio i gael gwybod beth oedd wedi digwydd i'r ambiwlans, dywedwyd wrtho mai'r rheswm am yr oedi oedd bod y ddau ambiwlans a oedd ar waith eisoes yn ymateb i alwadau eraill. Wedyn bu'n rhaid gyrru'r plentyn i'r adran damweiniau ac achosion brys—

**Y Llywydd:** Trefn. Yr wyf yn siŵr bod hyn yn fater pwysig, i chi ac i'r unigolyn dan sylw, ond cwestiynau i'r Prif Weinidog yw hyn. Nid yw'n briodol dechrau cynnal trafodaeth hir ynglŷn â gwaith achosion yn ystod y cwestiynau.

**Lisa Francis:** O gofio'r hyn a ddywedasocho eisoes am wella'r ymateb i amserau targed, Brif Weinidog, mae gennym broblem o hyd o

issue of ambulance availability, which is what I was driving at. Has anyone made urgent representations to you on that matter?

**The First Minister:** Not to me, personally, as far as I am aware, although representation may have been made to Brian Gibbons or the chief executive of the Welsh Ambulance Services NHS Trust. I would be interested to hear the remaining details of what happened. The problem with all emergency services is that you go from feast to famine and back again. That also applies to fire and police services. You do not get an even demand for emergency services. Therefore, almost with justification, this kind of thing will happen. However, you do not want it to happen often, and the service still has to reach the 60 per cent target.

**Alun Ffred Jones:** Gan dderbyn y sylwadau a wnaed o ran yr anawsterau, mae cyfyngiadau ar rotas yn ardal Pwllheli yn ystod y nos yn golygu os yw un ambiwlans yn ymateb i alwad, yn aml nad oes ambiwlans arall ar gael ym Mhen Llŷn i'r gorllewin o Gaernarfon neu ymhellach draw. A ydych yn credu bod hynny'n dderbyniol?

**Y Prif Weinidog:** Heb wybod y manylion, nid oes modd i mi farnu. Mae'n dibynnu ar ba mor aml y mae angen mwy nag un ambiwlans yn ystod y nos. Mewn rhai ardaloedd gwledig gydag ychydig o boblogaeth, hyd yn oed yn ystod yr haf, un ambiwlans sydd ei angen. Bydd ambell argyfwng pan fydd angen dau neu dri, gan fod damweiniau yn digwydd ar yr un pryd weithiau. Os ydych yn gwybod am achos yn debyg i'r hyn a ddisgrifiwyd gan Lisa Francis, byddai diddordeb gennyf glywed amdano, a chewch ateb gennyf fi neu Brian Gibbons ar y mater.

ran yr ambiwlansys sydd ar gael, sef yr hyn a oedd gennyf dan sylw. A oes rhywun wedi cyflwyno sylwadau brys ichi ynglŷn â'r mater hwnnw?

**Y Prif Weinidog:** Nid i mi'n bersonol, hyd y gwn, er y gall fod sylwadau wedi'u cyflwyno i Brian Gibbons neu i brif weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru. Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed gweddill y manylion ynghylch yr hyn a ddigwyddodd. Y broblem gyda'r gwasanaethau brys i gyd yw bod y galw'n anwadal iawn. Mae hynny'n wir am y gwasanaethau tân a gwasanaethau'r heddlu hefyd. Ni cheir galw cyson am wasanaethau brys. Felly, bron na ellir cyfiawnhau bod y math hwn o beth yn sicr o ddigwydd. Fodd bynnag, nid ydych am iddo ddigwydd yn aml, ac mae'n rhaid i'r gwasanaeth gyrraedd y targed o 60 y cant o hyd.

**Alun Ffred Jones:** While accepting the comments made about the difficulties, the limitations on rotas in the Pwllheli area at night mean that if one ambulance is responding to a call, often there is not another ambulance available in the Llŷn peninsula to the west of Caernarfon or further over. Do you think that that is acceptable?

**The First Minister:** Without knowing the details, I cannot judge. It depends on how often more than one ambulance is needed at night. In some rural areas that are sparsely populated, even during the summer, only one ambulance is needed. There will be the occasional crisis when you need two or three, as accidents can happen at the same time sometimes. If you know of a case similar to that which Lisa Francis described, I would be interested to hear of it, and you will get an answer from me or Brian Gibbons on the matter.

### **Defnyddio Llafur Lleol ar gyfer Cynlluniau Adfywio Trefol Using Local Labour for Urban Regeneration Schemes**

**Q2 Rosemary Butler:** What is the Welsh Assembly Government doing to ensure that contractors involved in major urban regeneration schemes in Wales use local labour as much as possible? OAQ1645(FM)

**C2 Rosemary Butler:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod contractwyr sy'n ymgymryd â chynlluniau adfywio trefol sylweddol yng Nghymru yn defnyddio cymaint o lafur lleol

â phosibl? OAQ1645(FM)

**The First Minister:** Specifically requiring the selection of locally based contractors or local labour is contrary to European Union rules. However, there are ways of encouraging social objectives through a creative use of the procurement process, and you will be only too well aware of Rowecord Engineering in your constituency, which was awarded a £5 million contract for the Usk footbridge in central Newport, which will open shortly.

**Rosemary Butler:** Rowecord is an excellent local firm. The Newport construction employment charter, which has been drawn up by Newport City Council and others, encourages employers in Newport and surrounding areas to do everything possible to maintain a highly skilled and motivated local workforce. The charter is geared to the current regeneration of Newport city centre, which will provide more than 1,500 construction jobs. The regeneration project will cost more than £1 billion, with much of the public investment coming through the Welsh Assembly Government. One of the managers of the Newport construction initiative told me only today—

**The Presiding Officer:** Order. This seems to be catching. I would like a question.

**Rosemary Butler:** I am trying to be concise.

**The Presiding Officer:** May I suggest that you ask the question and then e-mail the First Minister with the rest of the evidence?

**Rosemary Butler:** Very well. How is the Welsh Assembly Government ensuring that local people have the opportunity to gain skills and take advantage of the fantastic opportunities that are available in Newport?

**The First Minister:** We have good examples of local labour being used in urban regeneration schemes, not only in Newport, which is the example that I mentioned, but by the Heads of the Valleys team, and the Swansea waterfront development in the implementation of the Welsh housing quality

**Y Prif Weinidog:** Mae mynnu bod contractwyr lleol neu lafur lleol yn cael eu dewis yn groes i reolau'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae ffyrdd o annog amcanion cymdeithasol drwy ddefnydd creadigol o'r broses gaffael, a byddwch yn gyfarwydd iawn â Rowecord Engineering yn eich etholaeth chi, a enillodd contract £5 miliwn ar gyfer pont droed Afon Wysg yng nghanol Casnewydd, a agorir cyn bo hir.

**Rosemary Butler:** Mae Rowecord yn gwmni lleol ardderchog. Mae siarter cyflogaeth adeiladu Casnewydd, a luniwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd ac eraill, yn annog cyflogwyr yng Nghasnewydd a'r ardaloedd o'i hamgylch i wneud popeth posibl i gynnal gweithlu lleol sy'n hyfedr ac wedi ei symbylu'n dda. Mae'r siarter wedi'i lunio ar gyfer yr adfywio sy'n digwydd ar ganol dinas Casnewydd ar hyn o bryd, a fydd yn darparu dros 1,500 o swyddi adeiladu. Bydd y prosiect adfywio'n costio mwy nag £1 biliwn, a daw llawer o'r buddsoddiad cyhoeddus drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedodd un o reolwyr menter adeiladu Casnewydd wrthyf heddiw—

**Y Llywydd:** Trefn. Mae hyn fel pe bai'n heintus. Hoffwn gael cwestiwn.

**Rosemary Butler:** Yr wyf yn ceisio bod yn gryno.

**Y Llywydd:** A gaf awgrymu eich bod yn gofyn y cwestiwn ac yna'n anfon gweddill y dystiolaeth at y Prif Weinidog mewn e-bost?

**Rosemary Butler:** Iawn. Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sicrhau bod pobl leol yn cael cyfle i ennill sgiliau a manteisio ar y cyfleoedd gwych sydd ar gael yng Nghasnewydd?

**Y Prif Weinidog:** Mae gennym enghreifftiau da o ddefnyddio llafur lleol mewn cynlluniau adfywio trefol, nid yn unig yng Nghasnewydd, sef yr enghraifft a grybwyllais, ond gan ddim Blaenau'r Cymoedd, a datblygiad y glannau yn Abertawe wrth weithredu safon ansawdd tai

standard. Recently, at least 30 of those working on the Porth and Lower Rhondda Fach relief road, which has received a £70 million contract, were training for the highest national vocational qualification possible, through the pathfinder project. Therefore, it can be done, but it means detailed creative use of the procurement process to avoid falling foul of European Union rules.

**Owen John Thomas:** When it comes to using local contractors for regeneration schemes, First Minister, you would think that the Government would lead by example. This is certainly not the case in Llandudno, where the Assembly Government's new office is being built, as local workers have been overlooked in favour of a firm from Liverpool. Do you not agree that this is another example of Labour hypocrisy, in that it says one thing and does another?

**The First Minister:** We are trying to build a reputation for Wales as a can-do country. However, more contributions of that sort from that quarter will lead Plaid Cymru to be labelled a can-whinge party. We should be celebrating the fact that the Merthyr Tydfil office is being developed by a north Wales company. I do not know whether you knew that and chose to ignore it, or whether you are so ignorant about this subject that you like sounding off, but you do not do your research. You tell me. Did you know that David McLean Ltd from north Wales is the main contractor on the building of the Merthyr Tydfil office? You can tell me later. It is appalling that you pick out the fact that a company from Liverpool is building the north Wales office but do not say that a north Wales company is building—

**The Presiding Officer:** Order. I am glad that the First Minister turned it into a rhetorical question, because he should be answering questions and not asking them—*[Interruption.]* Rhodri Glyn Thomas is taking no part at all.

**Janice Gregory:** I had the pleasure of attending the opening of a new construction

Cymru. Yn ddiweddar, yr oedd o leiaf 30 o'r rhai a oedd yn gweithio ar ffordd liniaru'r Porth a Rhondda Fach Isaf, sydd wedi cael contract £70 miliwn, yn cael hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster galwedigaethol cenedlaethol uchaf posibl, drwy'r prosiect braenaru. Felly, mae modd ei wneud, ond mae'n golygu defnyddio'r broses gaffael yn greadigol ac yn fanwl i osgoi tramgwyddo rheolau'r Undeb Ewropeaidd.

**Owen John Thomas:** O ran defnyddio contractwyr lleol ar gyfer cynlluniau adfywio, Brif Weinidog, fe feddyliech y byddai'r Llywodraeth yn arwain drwy esiampl. Yn sicr nid yw hyn yn wir yn Llandudno, lle y mae swyddfa newydd Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei hadeiladu, gan fod gweithwyr lleol wedi'u hanwybyddu wrth roi'r contract i gwmni o Lerpwl. Oni chytunwch fod hyn yn enghraifft arall o ragrith y Blaid Lafur, wrth iddi ddweud un peth a gwneud rhywbeth arall?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn ceisio creu enw i Gymru fel gwlad sy'n gallu cyflawni. Fodd bynnag, bydd mwy o gyfraniadau o'r math hwnnw o'r cyfeiriad hwnnw'n arwain at alw Plaid Cymru'n blaid sy'n gallu cwyno. Dylem fod yn dathlu'r ffaith bod swyddfa Merthyr Tudful yn cael ei datblygu gan gwmni o'r gogledd. Ni wn a oeddech yn gwybod hynny ac yn dewis ei anwybyddu, ynteu a ydych mor anwybodus am y pwnc hwn fel eich bod yn hoff o ddweud y drefn, ond nad ydych yn gwneud eich ymchwil. Dywedwch chi wrthyf. A wydddech mai David McLean Cyf o'r gogledd yw'r prif gontractwr ar waith adeiladu swyddfa Merthyr Tudful? Cewch ddweud wrthyf yn nes ymlaen. Mae'n warthus eich bod yn dewis y ffaith bod cwmni o Lerpwl yn adeiladu swyddfa'r gogledd ond nad ydych yn dweud bod cwmni o'r gogledd yn adeiladu—

**Y Llywydd:** Trefn. Yr wyf yn falch i'r Prif Weinidog ei droi'n gwestiwn rhethregol, oherwydd dylai fod yn ateb cwestiynau yn hytrach na'u gofyn—*[Torri ar draws.]* Nid yw Rhodri Glyn Thomas yn cymryd rhan o gwbl.

**Janice Gregory:** Yr oedd yn bleser i mi gael bod yn bresennol wrth agor canolfan

training centre in my constituency last Thursday. The centre in Caerau, which is part-funded by the Welsh Assembly Government and was opened by the Minister for Social Justice and Regeneration, will help to meet the construction skills needs of the Valleys to Coast Housing Association, which has a policy of employing local labour at its heart. Will you join me in welcoming this facility? Do you agree that there will be a number of benefits from this investment in training in Ogmore?

**The First Minister:** I do. That is a good example of the can-do spirit, rather than the can-whinge attitude that we have seen already today. I understand that up to 45 local people per year will be taken on as trainees in plumbing, electrical skills and carpentry, because there is a shortage of people working in those building-trade professions and there will be a major modernisation and refurbishment programme following stock transfer to the Valleys to Coast Housing Association. That is a good example of how to use the procurement process so that you bring unemployed people through and give them trades and skills while you are refurbishing housing stock in the area.

**Brynle Williams:** On the issue of Llandudno Junction, I am well aware that a north Wales company has won the contract to build the Merthyr Tydfil office. However, I received a letter from the Minister saying that no company in Wales could achieve the Building Research Establishment Environmental Assessment Method standards and, therefore, be on the tendering list. I emphasise again the importance of local companies and local procurement.

**The First Minister:** Two long-term-unemployed people were employed on the groundwork contract by Edward Nuttal Ltd through creative procurement.

2.10 p.m.

As regards the main building work to be done by HBG UK Ltd, it has agreed to establish a supply chain of locally based construction small and medium-sized enterprises, and, under the Considerate Constructors scheme, HBG will recruit local apprentices to

hyfforddi gwaith adeiladu newydd yn fy etholaeth ddydd Iau diwethaf. Bydd y ganolfan yn y Caerau, a ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a agorwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, yn helpu i ateb anghenion sgiliau adeiladu cymdeithas dai Valleys to Coast, sydd â pholisi creiddiol o gyflogi llafur lleol. A wnewch ymuno â mi i groesawu'r cyfleuster hwn? A ydych yn cytuno y daw sawl budd o'r buddsoddiad hwn mewn hyfforddiant yn Ogwr?

**Y Prif Weinidog:** Ydwyf. Mae hynny'n enghraifft dda o'r ysbryd gallwn gyflawni, yn hytrach na'r agwedd gallwn gwyno yr ydym wedi'i gweld eisoes heddiw. Deallaf y derbynnir hyd at 45 o bobl leol y flwyddyn fel hyfforddeion gwaith plymar, sgiliau trydanol a gwaith saer, oherwydd y mae prinder pobl sy'n gweithio yn y proffesiynau hynny yn y fasnach adeiladu a bydd rhaglen fawr o foderneiddio ac adnewyddu wedi i'r stoc gael ei throsglwyddo i gymdeithas dai Valleys to Coast. Mae hynny'n enghraifft dda o sut i ddefnyddio'r broses gaffael fel eich bod yn rhoi hwb i bobl ddi-waith a rhoi crefftau a sgiliau iddynt tra byddwch yn adnewyddu'r stoc dai yn yr ardal.

**Brynle Williams:** Ynglŷn â Chyffordd Llandudno, gwn yn iawn fod cwmni o'r gogledd wedi ennill y contract i adeiladu swyddfa Merthyr Tudful. Fodd bynnag, cefais lythyr oddi wrth y Gweinidog yn dweud na allai'r un cwmni yng Nghymru gyrraedd safonau Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu a chael ei gynnwys, felly, ar y rhestr dendro. Pwysleisiaf eto mor bwysig yw cwmnïau lleol a chaffael lleol.

**Y Prif Weinidog:** Cyflogwyd dau unigolyn a fu'n ddi-waith ers amser maith ar contract y sylfaen gan Edward Nuttall Cyf drwy broses gaffael greadigol.

O ran y prif waith adeiladu sydd i'w wneud gan HBG UK Cyf, mae wedi cytuno i sefydlu cadwyn gyflenwi o gwmnïau adeiladu bach a chanolig lleol, ac, o dan y cynllun Adeiladwyr Ystyriol, bydd HBG yn recriwtio prentisiaid lleol i adeiladu swyddfa Cyffordd



construct the Llandudno Junction office. In any competitive economy, Welsh companies will not win all of these contracts, but I am glad to say that they win some of them. We congratulate David McLean Ltd on having won the contract for the Merthyr Tydfil office, but we will have to see what happens when the contract for the Aberystwyth office is let soon. What has happened in Merthyr Tydfil disproves the allegation made, as that has the BREEAM 'excellent' standard as well.

**Laura Anne Jones:** First Minister, I just want to press you further on how you are looking to promote the use of local labour in the regeneration of the Ebbw Vale steelworks, particularly at a time when job creation in that area is absolutely essential.

**The First Minister:** We are spending vast sums of money in the Gwent valleys and the Heads of the Valleys, on the Gilwern to Abergavenny Heads of the Valleys section. I think that £29 million has been invested in the Ebbw valley railway. I was told only yesterday that, although Amey, the main contractor, does not have a brass-plate head office in Wales, it is sub-contracting a great deal of the work to Welsh companies and to those that employ highly skilled Welsh experts in track laying and station construction.

As regards the Ebbw Vale steelworks clearing project, ready for the community hospital to be built, I do not know the specifics of that contract, or whether it involved any local labour or local contractors. As I said, you cannot win them all, but, where public money is used, we encourage the creative use of the procurement process to encourage as many local companies to apply as possible. If you do not bid, you will not win; if you do bid, you may win one in three or one in four contracts, or whatever. You will then have the maximum chance of building up a local supply chain.

Llandudno. Mewn unrhyw economi gystadleuol, ni fydd cwmnïau o Gymru'n ennill pob un o'r contractau hyn, ond mae'n dda gennyf ddweud eu bod yn ennill rhai ohonynt. Llongyfarchwn David McLean Cyf ar ennill y contract ar gyfer swyddfa Merthyr Tudful, ond bydd yn rhaid inni weld beth a ddigwydd pan osodir y contract ar gyfer swyddfa Aberystwyth cyn bo hir. Mae'r hyn a ddigwyddodd ym Merthyr Tudful yn gwrthbrofi'r honiad a wnaethpwyd, gan fod hwnnw o safon 'ragorol' Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu hefyd.

**Laura Anne Jones:** Brif Weinidog, hoffwn bwysu ymhellach arnoch i ddweud sut y bwriadwch hyrwyddo defnyddio llafur lleol wrth adfywio gwaith dur Glynebwy, yn enwedig ar adeg pan fo creu swyddi yn yr ardal honno'n gwbl hanfodol.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwario symiau aruthrol o arian yng nghymoedd Gwent a Blaenau'r Cymoedd, ar y darn ym Mlaenau'r Cymoedd rhwng Gilwern a'r Fenni. Credaf fod £29 miliwn wedi'i fuddsoddi yn rheilffordd glyn Ebwy. Cefais wybod ddoe ddiwethaf fod Amey, y prif gontractwr, er nad oes ganddo brif swyddfa â phlac pres yng Nghymru, yn is-gontractio llawer iawn o'r gwaith i gwmnïau o Gymru ac i rai sy'n cyflogi arbenigwyr Cymreig medrus iawn mewn gosod traciau ac adeiladu gorsafoddd.

O ran prosiect clirio gwaith dur Glynebwy, yn barod ar gyfer adeiladu'r ysbyty cymuned, ni wn beth yw manylion penodol y contract hwnnw, nac a ddefnyddiwyd unrhyw lafur lleol neu gontractwyr lleol. Fel y dywedais, ni allwch ennill pob un, ond, lle y defnyddir arian cyhoeddus, anogwn ddefnyddio'r broses gaffael yn greadigol i annog cynifer o gwmnïau lleol i ymgeisio ag sy'n bosibl. Os na wnewch gais, ni wnewch ennill; os gwnewch gais, gallech ennill un contract o bob tri neu un o bob pedwar, neu beth bynnag y bo. Wedyn bydd gennych y siawns fwyaf i ddatblygu cadwyn gyflenwi leol.

## Tlodi Tanwydd Fuel Poverty

**Q3 Mark Isherwood:** What action is the Welsh Assembly Government taking to tackle fuel poverty? OAQ1625(FM)

**The First Minister:** The home energy efficiency scheme is our main mechanism for tackling fuel poverty. It has a budget of £19 million this year, which is around double its budget some five years ago; I think that it was £9 million in 2001-02. That offers heating and insulation measures to qualifying households.

**Mark Isherwood:** Although more older people die during the winter months than at any other time, the Older People and Ageing Research and Development Network, OPAN Cymru, has highlighted the lack of any research undertaken in Wales to investigate reasons for excess winter deaths. It states that it would be interested in undertaking that vital research if the Welsh Assembly Government could provide the funding for it. What action will you take to support that?

**The First Minister:** I have not seen any particular proposal to do research into this field, and it is a well-researched field in general. The principal mystery—if it is a mystery to people—of why there are virtually no excess winter deaths in countries far colder than Wales is because places such as Scandinavia and Finland have dry cold, but we have wet and intermittent cold in Britain. That tends to cause a higher level of winter deaths, because you do not prepare for it with categories of vulnerable people, particularly the elderly, in mind. However, you cannot change the British weather, and you cannot change the fact that, if you are not certain that you will get four months of really hard weather from December to March, as is the case in Scandinavia, people will tend to pretend that they can slide through until the spring without preparing their houses in the proper way. However, with HEES reducing fuel poverty and combating the recent increased problems caused by increased fuel

**C3 Mark Isherwood:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd? OAQ1625(FM)

**Y Prif Weinidog:** Y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yw ein prif fecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae ganddo gyllideb o £19 miliwn eleni, sydd tua chymaint ddwywaith â'r cyllid a oedd ganddo bum mlynedd yn ôl; credaf mai £9 miliwn ydoedd yn 2001-02. Mae hynny'n cynnig mesurau gwresogi ac insiwleiddio i dai sy'n gymwys.

**Mark Isherwood:** Er bod mwy o bobl hŷn yn marw yn ystod misoedd y gaeaf nag ar ddim un adeg arall, mae'r Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu ym maes Pobl Hŷn a Heneiddio, OPAN Cymru, wedi tynnu sylw at y diffyg ymchwil yng Nghymru i ymchwilio i'r rhesymau dros y marwolaethau ychwanegol yn y gaeaf. Dywed y byddai ganddo ddiddordeb mewn ymgymryd â'r ymchwil hanfodol hwnnw pe gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu'r cyllid ar ei gyfer. Pa gamau a gymerwch i gefnogi hynny?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi gweld dim un cynnig penodol i ymchwilio i'r maes hwn, ac mae'n faes y mae cryn ymchwil wedi bod iddo yn gyffredinol. Y dirgelwch pennaf—os ydyw'n ddirgelwch i bobl—ynghylch pam na cheir nemor ddim marwolaethau ychwanegol yn y gaeaf mewn gwledydd llawer oerach na Chymru yw am mai tywydd oer sych sydd mewn lleoedd fel Llychlyn a'r Ffindir, ond mai tywydd oer a gwlyb yn ysbeidiol a gawn ni ym Mhrydain. Tuedda hynny i achosi lefel uwch o farwolaethau yn y gaeaf, oherwydd na pharatoir ar ei gyfer gan ystyried categorïau o bobl fregus, a'r henoed yn arbennig. Fodd bynnag, ni ellir newid tywydd Prydain, ac ni ellir newid y ffaith, os nad ydych yn sicr y cewch bedwar mis o dywydd gwirioneddol galed o Ragfyr hyd Fawrth, fel sy'n digwydd yn Llychlyn, y bydd pobl yn tueddu i gymryd arnynt y gallant ddal ati tan y gwanwyn heb baratoi eu tai yn y ffordd briodol. Fodd bynnag, wrth i'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref leihau tlodi

prices, I believe that we are doing a great deal to combat the problem of excess winter deaths.

**Ann Jones:** Recently, gas was installed in houses in Bodelwyddan that had been left off the mains gas supply, and that was down to a hugely successful partnership between residents and local businesses, led by Crispin Jones of the Wales Eaga Partnership Ltd. These residents will now enjoy reduced fuel bills over the coming months. In addition, as we look to install gas in houses in Diserth, would you join me in congratulating the partnership, and also to value its work in getting gas to places? Will you also continue, as a Government, to ensure that eradicating fuel poverty remains high on the agenda?

**The First Minister:** Given the current high price of oil and gas, that last point is bound to remain a very high priority, because the level of the affordability of basic commodities—oil, gas, electricity, coal and so on—is sky high at the moment. Therefore, it is obligatory for us to continue to try to combat fuel poverty.

As regards the scores of villages in Wales that do not currently have mains gas because of the dispersed pattern of population, including the hamlet in which I live—and so I declare an interest in that regard—I am pleased to say that progress is being made in knocking them off one by one. Bodelwyddan has been done already and Dyserth is next. That is just in your area, Ann; I am sure that others could quote other examples. However, that process needs to be accelerated because gas remains a very attractive fuel, despite the fact that it is much more expensive than it was two years ago.

**Ieuan Wyn Jones:** Brif Weinidog, onid yw'n gywilyddus bod un o bob tri theulu yng Nghymru yn dioddef o dlodi tanwydd?

**Y Prif Weinidog:** Gan fod pris tanwydd cartref wedi dyblu bron â bod yn ystod y

tanwydd ac ymladd yn erbyn y problemau cynyddol diweddar a achoswyd gan y cynnydd ym mhrisiau tanwydd, credaf ein bod yn gwneud llawer iawn i ymladd yn erbyn problem y marwolaethau ychwanegol yn y gaeaf.

**Ann Jones:** Yn ddiweddar, gosodwyd nwy mewn tai ym Modelwyddan nad oeddent wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy, ac yr oedd hynny'n ffrwyth partneriaeth hynod o lwyddiannus rhwng trigolion a busnesau lleol, dan arweiniad Crispin Jones o Bartneriaeth Eaga Cymru Cyf. Bellach bydd y trigolion hyn yn cael biliau tanwydd is yn y misoedd a ddaw. At hynny, wrth inni ystyried gosod nwy mewn tai yn Nyserth, a ymunwch â mi i longyfarch y bartneriaeth, a hefyd i werthfawrogi ei gwaith wrth ddod â nwy i leoedd? A wnewch barhau hefyd, fel Llywodraeth, i sicrhau bod dileu tlodi tanwydd yn aros yn uchel ar yr agenda?

**Y Prif Weinidog:** O gofio pris uchel olew a nwy ar hyn o bryd, mae'r pwynt olaf hwnnw'n siŵr o aros yn flaenoriaeth uchel iawn, oherwydd y mae lefel fforddiadwyedd y nwyddau sylfaenol—olew, nwy, trydan, glo ac yn y blaen—yn eithriadol o uchel ar hyn o bryd. Felly, mae'n rheidrwydd arnom barhau i geisio ymladd yn erbyn tlodi tanwydd.

O ran yr ugeiniau o bentrefi yng Nghymru nad ydynt ar hyn o bryd wedi eu cysylltu â'r prif gyflenwad nwy oherwydd patrwm gwasgaredig y boblogaeth, gan gynnwys y pentrefan lle'r wyf fi'n byw—ac felly yr wyf yn datgan buddiant yn hynny o beth—yr wyf yn falch o ddweud bod y gwaith yn mynd rhagddo i'w cysylltu fesul un. Gwnaed Bodelwyddan eisoes a Dyserth fydd nesaf. Dim ond yn eich ardal chi y mae hynny, Ann; yr wyf yn sicr y gallai eraill gyfeirio at esiamplau eraill. Serch hynny, rhaid cyflymu'r broses hon oherwydd bod nwy yn danwydd atyniadol iawn o hyd, er gwaethaf y ffaith ei fod yn llawer iawn drutach nag a oedd ddwy flynedd yn ôl.

**Ieuan Wyn Jones:** First Minister, is it not shameful that one in three families in Wales suffers from fuel poverty?

**The First Minister:** Given that domestic fuel prices have almost doubled over the last two

ddwy flynedd ddiwethaf, credaf ein bod ni'n gorfod ymateb i'r nerthoedd yn y farchnad. Mae'r farchnad yn hollol rydd ac yn gallu bod yn eithaf ffyrnig yn ei heffeithiau pan mae pris tanwydd yn disgyn, fel yn 1986, neu yn saethu i fyny, fel sydd wedi digwydd yn ddiweddar. Golyga hyn fod llawer mwy o straen ar gyllidebau teuluoedd a phobl dlawd yng Nghymru. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud drwy'r rhaglen, fel y dywedais yn gynharach, yw dyblu'r hyn yr ydym yn ei wario ar y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref. Credaf ein bod yn ymateb yn dda iawn i'r argyfwng ymhlith teuluoedd tlawd o achos y dyblu mewn pris trydan, nwy neu lo, a thanwyddau cartref eraill.

**Ieuan Wyn Jones:** Yr oeddwn i'n cyfeirio, Brif Weinidog, at ffigurau cyn y codiad mewn pris tanwydd. Onid methiant llwyr yw polisi eich Llywodraeth chi i leihau tlodi tanwydd? Mae canran y teuluoedd yng Nghymru sydd yn dioddef o dlodi tanwydd yn uwch o lawer yng Nghymru nag yn Lloegr, gyda dros 70,000 o gartrefi yng Nghymru yn dioddef o dlodi tanwydd difrifol, ac yn gwario dros 20 y cant o'u hincwm ar danwydd. Onid methiant eich Llywodraeth chi sydd yn gyfrifol am ffigurau mor echrudus â hyn?

**Y Prif Weinidog:** Dim o gwbl. Yr ydym wedi helpu 60,000 o deuluoedd tlawd yng Nghymru—sef y bobl ar ryw fath o raglen budd-dal—drwy'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, ac wedi codi'r gyllideb flynyddol ar gyfer y cynllun o £8.9 miliwn yn 2001–02, i ychydig yn is na £20 miliwn yn y flwyddyn bresennol. Felly, yr ydym yn cymryd y mater hwn o ddifrif. Yr ydym wedi dyblu'r gyllideb at ymateb i'r broblem o dlodi tanwydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Dengys hyn ein bod yn cymryd y rhaglen o ddifrif, ac y mae'n gwneud daioni, ac mae 60,000 o deuluoedd yng Nghymru yn medru cadarnhau hynny.

**Ieuan Wyn Jones:** The evidence, First Minister, does not bear out your confidence. The Centre for Sustainable Energy, funded by your Government, funded research that shows substantially higher levels of fuel poverty in Wales than in England, and the two main reasons given for that were low incomes and poor energy efficiency. Not only

years, I believe that we have to respond to the strengths in the market. The market is totally free and can be quite fierce in its effects when fuel price falls, as in 1986, or shoots up, as has happened recently. That means that there is much more strain on the budgets of families and poor people in Wales. What we are trying to do through the programme is to double expenditure on the home energy efficiency scheme. I believe that we are responding very well to the crisis that exists among poorer families because of the doubling in the price of electricity, gas and coal, and other domestic fuels.

**Ieuan Wyn Jones:** I was referring, First Minister, to the figures before the increase in the cost of fuel. Has your Government's policy to reduce fuel poverty not been a complete failure? The percentage of families in Wales suffering from fuel poverty is significantly higher in Wales than in England, with over 70,000 homes in Wales suffering serious fuel poverty, and spending over 20 per cent of their income on fuel. Is it not your Government's failure that is responsible for such appalling figures?

**The First Minister:** Not at all. We have helped 60,000 poor families in Wales—that is, those on some form of benefits—through HEES, and we have increased the annual budget for the scheme from £8.9 million in 2001–02, to a little under £20 million in the current year. Therefore, we are taking this issue seriously. We have doubled the budget for responding to the problem of fuel poverty over the last five years. That shows that we are taking this programme seriously, and it is making a difference, and 60,000 families in Wales can testify to that.

**Ieuan Wyn Jones:** Nid yw'r dystiolaeth, Brif Weinidog, yn cadarnhau eich hyder. Bu i'r Ganolfan dros Ynni Cynaliadwy, dan nawdd eich Llywodraeth, ariannu ymchwil sy'n dangos lefelau sylweddol uwch o dlodi tanwydd yng Nghymru nag yn Lloegr, a'r ddau brif reswm a roddwyd oedd incwm isel ac effeithlonrwydd ynni gwael. Yr oedd y

were those figures published before the recent increases in the cost of gas and electricity, which is adding another 30,000 at least, according to your figures, to those figures, but that shows that despite your investment, this is not being given a high enough priority. There are twice as many families in severe fuel poverty in Wales than in England, and that shows that your Government is failing people in this category. Do they not deserve better from your Government?

**The First Minister:** I think that 60,000 households would definitely be shouting ‘no’ around you at this very minute if they were here in the Assembly Chamber, and they would say that you were talking complete and utter nonsense. It is certainly true that a higher proportion of households in Wales live in older stock, because of the concentration of house building in Wales between 1870 and 1914. Therefore, you will have a high proportion of people living in non-fuel efficient homes, built before the days of damp-proof courses, cavity wall insulation and many of the other benefits of modern house construction. Improving houses so that they are not so leaky and draughty, is a very high priority for us, because they are frequently occupied by pensioner householders, and that is why we have concentrated the HEES grants on pensioners, those with children and those receiving benefits. It is a well-targeted programme, which has been doing a great deal of work and building up a lot of expertise. It will continue into the future in terms of providing cavity wall insulation and draught-proofing, which is what that old housing stock needs.

2.20 p.m.

**Denise Idris Jones:** I heard your response to the first question, which was very interesting. A company is now building houses for people who will move into the junction. Thirty per cent of those houses are under £70,000, which gives young people an excellent start. The work will also bring quality jobs to the area.

**The First Minister:** That is absolutely right.

fffigurau hynny nid yn unig wedi eu cyhoeddi cyn y cynnydd diweddar ym mhrisiau nwy a thrydan, cynnydd sy'n ychwanegu 30,000 arall o leiaf, yn ôl eich ffigurau chi, at y ffigurau hynny, ond dengys hynny hefyd, er gwaethaf eich buddsoddiad, na roddir blaenoriaeth ddigon uchel i hyn. Mae cymaint ddwywaith o deuluoedd mewn tlodi tanwydd difrifol yng Nghymru ag sydd yn Lloegr, a dengys hyn fod eich Llywodraeth yn esgeuluso pobl yn y categori hwn. Onid ydynt yn haeddu gwell oddi wrth eich Llywodraeth?

**Y Prif Weinidog:** Credaf y byddai 60,000 o aelwydydd yn bendant yn gweiddi ‘na’ o’ch amgylch y funud hon pe baent yma yn Siambr y Cynulliad, ac y byddent yn dweud eich bod yn siarad nonsens llwyr. Mae’n sicr yn wir bod cyfran uwch o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn stoc hŷn, oherwydd bod cymaint o adeiladu tai wedi bod yng Nghymru rhwng 1870 a 1914. O’r herwydd, bydd gennych gyfran uwch o bobl yn byw mewn tai nad ydynt yn effeithlon o ran ynni a adeiladwyd cyn dyddiau cyrsiau atal tamprwydd, insiwleiddio waliau ceudod a llawer o’r manteision eraill wrth adeiladu tai modern. Mae gwella tai fel nad ydynt yn gollwng cymaint o ddŵr nac mor ddrafftig yn flaenoriaeth uchel iawn inni, oherwydd mai pensiynwyr sy’n byw ynddynt yn aml, a dyna pam yr ydym wedi canolbwyntio grantiau’r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref ar bensiywyr, y rhai sydd â phlant a’r rhai sy’n cael budd-daliadau. Mae’n rhaglen sydd wedi’i thargedu’n ofalus, sydd wedi bod yn gwneud llawer iawn o waith ac yn meithrin llawer o arbenigedd. Bydd yn parhau i’r dyfodol o ran insiwleiddio waliau ceudod ac atal drafftiau, sef yr hyn sydd ei angen ar yr hen stoc dai.

**Denise Idris Jones:** Clywais eich ateb i’r cwestiwn cyntaf; yr oedd yn ddiddorol iawn. Mae cwmni wrthi’n adeiladu tai yn awr i bobl a fydd yn symud i’r gyffordd. Mae 30 y cant o’r tai hyn o dan £70,000, ac mae hyn yn rhoi dechrau ardderchog i bobl ifanc. Bydd y gwaith hefyd yn dwyn yn ei sgîl swyddi o safon i’r ardal.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny’n gwbl gywir.

Quality jobs can come from concentration on this issue of draught-proofing, cavity wall insulation, roof insulation and other problems. That is why we intend to implement the full fuel poverty commitment for vulnerable groups by 2010, for non-vulnerable groups in social housing by 2012 and for all households in Wales by 2018. There are an awful lot of jobs in this industry.

**The Presiding Officer:** Order. Members are aware that this is questions to the First Minister. I know that we will have a question now from Janice Gregory.

**Janice Gregory:** Thank you, Presiding Officer. You will have a question, First Minister. Do you agree that in the fight against fuel poverty, affordable warmth action plans offer a real opportunity to engage with the relevant stakeholders? Do you also agree that local authorities and other stakeholders need to be encouraged as far as possible to develop these action plans and to ultimately offer the people of Wales a warmer and healthier future?

**The First Minister:** That is right. As I mentioned earlier, we have concentrated initially on those who are living in cold, damp homes, which tend to be 1870 to 1914 homes in the Valleys, in large areas of north Wales, inner Cardiff, Swansea, Newport, Merthyr and so on, although they can be badly-constructed 1960s social housing. They have very poor standards of draught-proofing, cavity wall insulation, roof insulation and they need to be brought up to a modern standard.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Michael German):** One hundred and thirty thousand families in Wales were in fuel poverty in 2004, and an answer to a written Assembly question from me by Edwina Hart shows that your Government now estimates that there were 160,000 such families in 2005. Given the leap that we have just seen in fuel prices, that figure is likely to reach 200,000 by this winter. You promised in your 2003 manifesto to eradicate fuel poverty by the end of the decade. Will you deliver that aim?

Gall swyddi o safon ddod yn sgîl canolbwyntio ar atal drafftiau, insiwleiddio waliau ceudod, insiwleiddio toeau a phroblemau eraill. Dyna pam y bwriadwn weithredu'r ymrwymiad llawn o ran tlodi tanwydd i grwpiau agored i niwed erbyn 2010, i grwpiau heb fod yn agored i niwed mewn tai cymdeithasol erbyn 2012 ac i bob aelwyd yng Nghymru erbyn 2018. Mae llawer iawn o swyddi yn y diwydiant hwn.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'r Aelodau'n ymwybodol mai cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r rhain. Gwn y cawn gwestiwn yn awr gan Janice Gregory.

**Janice Gregory:** Diolch ichi, Lywydd. Cewch gwestiwn, Brif Weinidog. A gytunwch, yn y frwydr yn erbyn tlodi tanwydd, fod cynlluniau gweithredu ar gynhesrwydd fforddiadwy yn cynnig gwir gyfle i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol? A gytunwch hefyd fod yn rhaid annog awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill hyd y bo modd i ddatblygu'r cynlluniau gweithredu hyn ac yn y pen draw cynnig i bobl Cymru ddyfodol cynhesach ac iachach?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn iawn. Fel y soniais yn gynharach, yr ydym wedi canolbwyntio i ddechrau ar y rhai sy'n byw mewn cartrefi oer, tamp, tai sy'n tueddu i fod yn gartrefi a adeiladwyd rhwng 1870 ac 1914 yn y Cymoedd, mewn ardaloedd mawr o ogledd Cymru, ardaloedd canol Caerdydd, Abertawe, Casnewydd, Merthyr ac yn y blaen, er y gallant fod yn dai cymdeithasol o'r 1960au a adeiladwyd yn wael. Mae eu safonau'n wael o ran atal drafftiau, insiwleiddio waliau ceudod, insiwleiddio toeau a rhaid eu codi hyd at y safon fodern.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Yr 130,000 o deuluoedd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd yn 2004, ac mae ateb i gwestiwn Cynulliad ysgrifenedig o'm heiddo i gan Edwina Hart yn dangos bod eich Llywodraeth yn amcangyfrif bod 160,000 o deuluoedd o'r fath yn 2005. O ystyried y naid sydd newydd ddigwydd mewn prisiau tanwydd, mae'r ffigur hwn yn debygol o gyrraedd 200,000 erbyn y gaeaf hwn. Addawsoch yn eich maniffesto yn 2003 y byddech yn dileu tlodi tanwydd erbyn diwedd

y degawd. A wnewch gyflawni'r nod hwnnw?

**The First Minister:** I point out to you that the number of families in Wales in fuel poverty was 220,000 in 1998, so enormous progress has been made in getting that figure down from 220,000 in the last year before the Assembly was set up to the 130,000 that it was believed to be in 2004; I do not have any figures after that. The aim is to deliver the fuel poverty commitment by 2010 for vulnerable groups, as I mentioned earlier, by 2012 for non-vulnerable groups in social housing and by 2018 for all households.

**Michael German:** I will just probe your promise and remind you of the words written in your manifesto:

'we aim to eradicate fuel poverty in Wales by the end of the decade'.

The question is a simple one, given that the figures are rising from 130,000 to 150,000 to 200,000. Are you going to meet that aim? The answer is either going to be 'yes' or 'no'.

**The First Minister:** Let us be clear that it is not rising. It has fallen massively, from 220,000 in 1998 to 130,000 in 2004. That is not a rise, but a very big fall of about a third, and we all need to say that that has been a major achievement. Clearly, there are increased fuel costs, and new problems have followed the almost doubling of electricity prices. In terms of the manifesto commitment, I see no reason why this target of reaching the vulnerable groups in Wales by 2010 should not be achievable. I do not know whether you are trying to make some hair-splitting point here about the difference between what I have said about vulnerable groups in 2010 and the wording in the manifesto, but they bear the same meaning to me.

**Michael German:** Poverty is not a hair-splitting issue, First Minister; this about what you have written. I remind you that this manifesto, which has your picture on the front, was written in 2003. We are not talking about 1999. In 2003, you said that you were

**Y Prif Weinidog:** Tynnaf eich sylw at y ffaith mai 220,000 oedd nifer y teuluoedd yng Nghymru a oedd mewn tlodi tanwydd yn 1998, felly cymerwyd camau breision wrth ostwng y ffigur hwnnw o 220,000 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cyn sefydlu'r Cynulliad i 130,000, fe gredid, yn 2004; nid oes gennyf ffigurau ar ôl hynny. Y nod yw cyflawni'r addewid ynghylch tlodi tanwydd erbyn 2010 i grwpiau agored i niwed, fel y soniais yn gynharach, erbyn 2012 i grwpiau heb fod yn agored i niwed mewn tai cymdeithasol ac erbyn 2018 i bob aelwyd.

**Michael German:** Fe'ch holaf ynghylch eich addewid a'ch atgoffa o'r geiriau a ysgrifennwyd yn eich maniffesto:

ein nod yw dileu tlodi tanwydd yng Nghymru erbyn diwedd y degawd.

Mae'r cwestiwn yn un syml, o ystyried bod y ffigurau'n codi o 130,000 i 150,000 i 200,000. A ydych yn mynd i gyrraedd y nod hwnnw? 'Ydym' neu 'nac ydym' fydd yr ateb.

**Y Prif Weinidog:** Gadewch inni fod yn glir nad yw'n codi. Mae wedi gostwng yn aruthrol, o 220,000 yn 1998 i 130,000 yn 2004. Nid cynnydd yw hynny, ond cwmp mawr iawn o tua un rhan o dair, a rhaid i bob un ohonom ddweud bod hynny wedi bod yn gryn gamp. Yn amlwg, ceir costau tanwydd uwch, a daeth problemau newydd yn sgîl dyblu prisiau trydan. O ran yr addewid yn y maniffesto, ni welaf ddim rheswm pam na ddylai'r targed hwn i gyrraedd grwpiau agored i niwed yng Nghymru erbyn 2010 fod yn gyraeddadwy. Ni wn a ydych yn ceisio hollti blew yma ynghylch y gwahaniaeth rhwng yr hyn a ddywedais am grwpiau agored i niwed yn 2010 a'r geiriad yn y maniffesto, ond maent yn cyfleu'r un ystyr i mi.

**Michael German:** Nid mater i hollti blew yn ei gylch yw tlodi, Brif Weinidog; mae hyn yn ymwneud â'r hyn yr ydych wedi ei ysgrifennu. Fe'ch atgoffaf fod y maniffesto hwn, sydd â'ch llun chi ar y clawr, wedi ei ysgrifennu yn 2003. Nid ydym yn sôn am

going to eradicate all fuel poverty in Wales by 2010. We have had a string of promises, such as on personal care for the disabled and bringing school buildings up to scratch by 2010. Will this render this document almost as unreliable as that which Neville Chamberlain brought back from Germany?

**The First Minister:** Oh, a historical reference to lighten the afternoon—though its relevance may take some working out for many of those watching. As I said earlier, our proposal is to meet all vulnerable groups' fuel poverty requirements by 2010. That remains the aim.

1999. Yn 2003, dywedasoch eich bod yn mynd i ddileu tlodi tanwydd yn llwyr yng Nghymru erbyn 2010. Cawsom res o addewidion, megis y rhai ynghylch gofal personol i bobl anabl a chodi safonau adeiladau ysgolion erbyn 2010. A fydd hyn yn peri i'r ddogfen hon fod bron mor annibynadwy â'r ddogfen y daeth Neville Chamberlain â hi yn ei hôl gydag ef o'r Almaen?

**Y Prif Weinidog:** O, cyfeiriad hanesyddol i ysgafnu'r prynhawn—er ei bod yn bosibl y bydd yn cymryd tipyn i lawer o'r rhai sy'n gwyllo ddeall sut y mae'n berthnasol. Fel y dywedais yn gynharach, ein bwriad yw bodloni gofynion tlodi tanwydd yr holl grwpiau agored i niwed erbyn 2010. Hynny yw'r nod o hyd.

#### **Datblygu Economaidd (De-ddwyrain Cymru) Economic Development (South-east Wales)**

**Q4 Jocelyn Davies:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policies for economic development in south-east Wales? OAQ1640(FM)

**C4 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygiad economaidd yn y de-ddwyrain? OAQ1640(FM)

**The First Minister:** They are based on creating a balance between meeting the needs of the M4 belt, the mid-Valleys area and, through the Heads of the Valleys strategy, the Heads of the Valleys area, linked by the £29 million investment in the Ebbw valley railway.

**Y Prif Weinidog:** Maent yn seiliedig ar greu cydbwysedd rhwng bodloni anghenion ardal yr M4, ardal canol y Cymoedd a, thrwy gyfrwng strategaeth Blaenau'r Cymoedd, ardal Blaenau'r Cymoedd, wedi eu cyplysu gan y buddsoddiad o £29 miliwn yn rheilffordd Glynebwy.

**Jocelyn Davies:** As we have lost 14,000 manufacturing jobs across the south-east region in recent years, but gained 14,000 public sector jobs, are we becoming over-reliant on the public purse?

**Jocelyn Davies:** Gan ein bod wedi colli 14,000 o swyddi gweithgynhyrchu ar draws ardal y de-ddwyrain yn y blynyddoedd diwethaf, ond wedi sicrhau 14,000 o swyddi yn y sector cyhoeddus, a ydym yn mynd yn orddibynnol ar y pwrs cyhoeddus?

**The First Minister:** Not at all. Look at what has happened in Newport with the Quinn Barlo investment of, I think, £140 million, to create 460 jobs in Europe's largest radiator plant, or the Norhaven investment, which will create or safeguard 130 jobs. There is General Dynamics in the mid-Valleys area, which is certainly not funded by the public purse, although it is not in the manufacturing sector. There is a wide range of companies and a balance between high-tech and mid-

**Y Prif Weinidog:** Ddim o gwbl. Edrychwch ar yr hyn sydd wedi digwydd yng Nghasnewydd gyda buddsoddiad Quinn Barlo o £140 miliwn, yr wyf yn credu, i greu 460 o swyddi yn ffatri rheiddiaduron fwyaf Ewrop, neu fuddsoddiad Norhaven a fydd yn creu neu'n diogelu 130 o swyddi. Mae cwmni General Dynamics yn ardal canol y Cymoedd, nad yw'n cael ei ariannu gan y pwrs cyhoeddus yn sicr, er nad yw yn y sector gweithgynhyrchu. Ceir amrywiaeth



technology, between services and manufacturing, between the public sector and private sector, linked together by the big investment in the Ebbw valley railway.

**Jeff Cuthbert:** Do you agree that major infrastructure projects such as the dualling of the Heads of the Valleys road, the Cwm bypass and the Ebbw Vale rail link, together with important initiatives such as the money committed through Objective 1—£87 million in Blaenau Gwent—and the 3,700 jobs that have been created or safeguarded in Blaenau Gwent shows that the Assembly Government is serious about economic development in south-east Wales?

**The First Minister:** Let us look at developments in Blaenau Gwent, such as the Ebbw vale community hospital. That is a major investment of £38 million, I understand, which will be going ahead fairly soon. Again, although it is not in Blaenau Gwent, but serves the area, there is the dualling of the Gilwern to Abergavenny section—about a five-mile section—of the Heads of the Valleys road. I mentioned a lot of other examples in the mid-Valleys area, such as General Dynamics and the ones in Newport, such as Quinn Barlo, because you must have a healthy Gwent and an infrastructure that links the top, middle and the M4 belt of the Gwent valleys.

**William Graham:** You will know of the many similarities between Northern Ireland and Wales, particularly in respect of the lower costs in comparison to the rest of the United Kingdom, and the great tradition of innovation. In Northern Ireland, particular emphasis has been placed on the emerging high-tech industries. Can you suggest any way in which we could do that in Wales?

**The First Minister:** I mentioned General Dynamics earlier, and you can hardly get a better example of an innovative high-tech company. What is remarkable about it is that a centre for the development of digitised communication for military purposes, which employs about 1,000 people in software design, was built on the site of an old coal

eang o gwmnïau a chydbwysedd rhwng uwch-dechnoleg a thechnoleg ganol, rhwng gwasanaethau a gweithgynhyrchu, rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, oll wedi eu cyplysu gan y buddsoddiad mawr yn rheilffordd Glynebwy.

**Jeff Cuthbert:** A gredwch fod prosiectau seilwaith mawr megis deuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd, ffordd osgoi Cwm a rheilffordd Glynebwy, ynghyd â mentrau pwysig megis yr arian sydd wedi'i glustnodi drwy Amcan 1—£87 miliwn ym Mlaenau Gwent—a'r 3,700 o swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd ym Mlaenau Gwent yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad o ddifrif ynghylch datblygu economaidd yn y de-ddwyrain?

**Y Prif Weinidog:** Gadewch inni edrych ar y datblygiadau ym Mlaenau Gwent, megis ysbyty cymuned Glynebwy. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol o £38 miliwn, yr wyf yn deall, buddsoddiad a fydd yn mynd rhagddo yn eithaf buan. Unwaith eto, er nad yw ym Mlaenau Gwent, ond ei fod yn gwasanaethu'r ardal, ceir deuoli'r rhan o Gilwern i'r Fenni—rhan o tua phum milltir—o ffordd Blaenau'r Cymoedd. Crybwyllais lawer o esiamplau eraill yn ardal canol y Cymoedd, megis General Dynamics a'r rhai yng Nghasnewydd, megis Quinn Barlo, oherwydd bod yn rhaid ichi gael Gwent iach a seilwaith sy'n cysylltu'r rhan uchaf, y rhan ganol a'r rhan sy'n perthyn i ardal yr M4 o gymoedd Gwent.

**William Graham:** Byddwch yn gwybod bod sawl peth yn debyg rhwng Gogledd Iwerddon a Chymru, yn enwedig o safbwynt y costau is o'u cymharu â gweddill y Deyrnas Unedig, a'r traddodiad mawr o arloesi. Yng Ngogledd Iwerddon, mae cryn bwyslais wedi cael ei roi ar yr egin-ddiwydiannau uwch-dechnolegol. A allwch awgrymu unrhyw ffordd y gallem wneud hynny yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Soniais am General Dynamics yn gynharach, a phrin y gallech gael esiampl well o gwmni uwch-dechnolegol arloesol. Yr hyn sy'n hynod amdano yw bod canolfan i ddatblygu cyfarpar cyfathrebu digidol at ddibenion milwrol, sy'n cyflogi tua 1,000 o bobl ym maes cynllunio meddalwedd, wedi ei

mine. It takes a lot of imagination to do that and it would probably never have happened had it not been for a very innovative Canadian-based company. There are other examples: Cogent EADS in Newport is another good example of an innovative company, and there are the small high-tech companies of which we have to grow our own, and more of them. The greater Newport area is remarkable in that regard.

**John Griffiths:** Do you agree that the steel industry remains an important player in the economy of south-east Wales, offering highly skilled high-tech and well-paid jobs? Indeed, we have seen recent growth and investment in that sector. As well as the large firms, there is a host of suppliers and contractors. Therefore, would you agree that we must maintain a close dialogue with the steel industry and the trade unions involved and offer full support and assistance to maintain this great strength in the south-east Wales economy?

**The First Minister:** The steel industry has always been a backbone of the economy, not just of south-east Wales, but of the Newport area. Companies such as Corus in Llanwern, Cogent Power Ltd—Orb Works as it used to be—and Alpha Steel are major employers in the Newport area. We need to see a healthy steel industry continue, despite the worldwide turbulence that is buffeting that industry now, with new owners popping up here and there and new transnational mergers being formed.

hadeiladu ar safle hen bwll glo. Mae angen llawer iawn o ddychymyg i wneud hynny ac mae'n bosibl na fyddai fyth wedi digwydd oni bai am gwmni cwbl arloesol o Ganada. Ceir esiamplau eraill; mae Cogent EADS yng Nghasnewydd yn esiampl dda arall o gwmni arloesol, ac mae'r cwmnïau uwch-dechnolegol bach, y mae'n rhaid inni ddatblygu rhai ohonynt ein hunain, a rhagor ohonynt. Mae ardal Casnewydd fwyaf yn hynod yn hynny o beth.

**John Griffiths:** A ydych yn cytuno bod y diwydiant dur yn parhau'n elfen bwysig yn economi'r de-ddwyrain, sy'n cynnig swyddi uwch-dechnolegol, medrus iawn, sydd â chyflog da? Yn wir, gwelsom fuddsoddiad a thwf yn y sector hwn yn ddiweddar. Yn ychwanegol at y cwmnïau mawr, ceir lluo o gyflenwyr a chontractwyr. O'r herwydd, a fyddech yn cytuno bod yn rhaid inni gynnal deialog agos gyda'r diwydiant dur a'r undebau llafur cysylltiedig, a chynnig cymorth a chefnogaeth lawn i gynnal y cryfder mawr hwn yn economi'r de-ddwyrain?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r diwydiant dur wedi bod yn asgwrn cefn i'r economi drwy'r amser, nid yn unig i economi'r de-ddwyrain, ond i economi ardal Casnewydd. Mae cwmnïau megis Corus yn Llan-wern, Cogent Power Ltd—Orb Works gynt—ac Alpha Steel yn gyflogwyr pwysig yn ardal Casnewydd. Rhaid inni weld diwydiant dur iach yn parhau, er gwaethaf y cythrwfl bydeang sy'n ysgytian y diwydiant hwn yn awr, gyda pherchenogion newydd yn ymddangos yma ac acw a chwmnïau cyfunedig rhyngwladol newydd yn cael eu ffurfio.

2.30 p.m.

### **Mastiau Trosglwyddo Ffonau Symudol Mobile Phone Transmitter Masts**

**Q5 Janet Davies:** Will the First Minister make a statement on planning guidance for mobile phone transmitter masts? OAQ1624(FM)

**The First Minister:** It is public knowledge that we are committed to reviewing and updating the guidance that is currently based in chapter 12 of 'Planning Policy Wales',

**C5 Janet Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ganllawiau cynllunio ar gyfer mastiau trosglwyddo ffonau symudol? OAQ1624(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'n wybodaeth gyhoeddus ein bod wedi ymrwmo i adolygu a diweddarau'r canllawiau sydd i'w canfod ar hyn o bryd ym mhennod 12 'Polisi Cynllunio

which was set out in March 2002, as supplemented by the revised Technical Advice Note (Wales) 19, 'Telecommunications' (August 2002)—if you are still with me.

**Janet Davies:** I did stay with you, because I put forward a motion, under Standing Order No. 31 proceedings at the beginning of February, to tighten up planning requirements for mobile phone masts. As you will remember, the proposal was voted down at the time, but the relevant Minister said that the Government would pursue the matter, as it has been doing. What reaction has there been from mobile phone operators to the proposals that you have been putting forward, which I am sure will contain more rigorous planning requirements?

**The First Minister:** I do not have any information on that, and, therefore, I will write to you on that matter or make sure that Carwyn and/or Andrew Davies write to you on it.

**Leighton Andrews:** Constituents of mine in Ynyshir were understandably cynical when they were consulted by Vodaphone on a proposed mast over a two-week period over Christmas. Do you agree that proper measures for consultation with local communities should be very much part of any review of the guidance that is undertaken by the Assembly Government?

**The First Minister:** It is always wise to undertake a consultation exercise in such a way that the general public will not have any reason to suspect that your company is trying to get away with something. Conducting a consultation during a period when people do not have their full attention focused on matters relating to the strange notices that go up on telegraph poles, telling you that such and such a proposal can be viewed at the local town hall, is not wise because it leads to suspicion. I do not know the details of the case in Ynyshir, but it is always best to try to take people with you when you are consulting with them.

**Glyn Davies:** The siting of mobile phone transmitter masts is a hugely contentious issue, and I am sure that we would all agree

Cymru', a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2002, fel yr ychwanegwyd atynt gan Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 19, 'Telathrebu' (mis Awst 2002)—os ydych yn dal gyda mi.

**Janet Davies:** Yr oeddwn yn dal gyda chi, oherwydd cyflwynais cynnig, o dan drefn Rheol Sefydlog Rhif 31 ddechrau mis Chwefror, i dynhau'r gofynion cynllunio ar gyfer mastiau ffonau symudol. Fel y byddwch yn cofio, collwyd y bleidlais ar y cynnig ar y pryd, ond dywedodd y Gweinidog perthnasol y byddai'r Llywodraeth yn mynd ar ôl y mater, fel y mae wedi bod yn gwneud. Beth fu'r ymateb o du cwmnïau ffonau symudol i'r cynigion yr ydych yn eu cyflwyno, a fydd, yr wyf yn siŵr, yn cynnwys gofynion cynllunio llymach?

**Y Prif Weinidog:** Nid oes gennyf ddim gwybodaeth am hynny, ac, felly, ysgrifennaf atoch ar y mater hwnnw neu gwnaf yn siŵr fod Carwyn a/neu Andrew Davies yn ysgrifennu atoch yn ei gylch.

**Leighton Andrews:** Yr oedd etholwyr yn fy etholaeth i yn Ynys-hir yn sinigaidd, yn gwbl ddealladwy, pan ymgynghorodd Vodaphone â hwy ynghylch mast arfaethedig dros gyfnod o bythefnos dros y Nadolig. A ydych yn cytuno y dylai mesurau priodol i ymgynghori â chymunedau lleol fod yn rhan bendant o unrhyw adolygiad o'r canllawiau a gynhelir gan Lywodraeth y Cynulliad?

**Y Prif Weinidog:** Mae bob amser yn beth doeth cynnal ymgynghoriad yn y fath fodd fel na fydd gan y cyhoedd ddim rheswm dros amau bod eich cwmni yn ceisio gwneud fel y mynno. Nid yw'n beth doeth cynnal ymgynghoriad dros gyfnod pan nad yw sylw pobl wedi cael ei hoelio'n llawn ar faterion yn ymwneud â hysbysiadau rhyfedd sy'n ymddangos ar bolion telegraff, yn dweud wrthyich fod modd gweld rhyw gynnig neu'i gilydd yn neuadd y dref yn lleol, gan ei fod yn arwain at ddrwgdybiaeth. Ni wn am fanylion yr achos yn Ynys-hir, ond mae bob amser yn well ceisio cael cefnogaeth pobl pan fyddwch yn ymgynghori â hwy.

**Glyn Davies:** Mae lleoli mastiau trosglwyddo ffonau symudol yn fater eithriadol o gynhennus, ac yr wyf yn siŵr y byddem i gyd

that the developers from mobile phone companies should follow the established code of practice in every case. However, that is not always the case, and I know of examples where that has not happened. What discussions have you had with mobile phone mast operators to ensure that they are properly committed, not only to the TAN and the guidance, but to the code of practice that should be in operation? What steps are you taking to ensure that your commitment to that guidance is also strong?

**The First Minister:** I mentioned earlier that we are committed to reviewing and updating this guidance. It is not up to me to tell subject committees what they should be doing, but I think that the suggestion has been made that the Environment, Planning and Countryside Committee could look at this issue as a useful subject for considerable work. The report was only published by the Office of the Deputy Prime Minister, which covered England and Wales, in March 2006, and it is now being considered by Carwyn and his team.

yn cytuno y dylai datblygwyr cwmnïau ffonau symudol ddilyn y cod ymarfer sydd wedi cael ei sefydlu ym mhob achos. Fodd bynnag, nid yw hynny'n digwydd bob amser, a gwn am enghreifftiau lle nad yw wedi digwydd. Pa drafodaethau yr ydych wedi eu cynnal gyda chwmnïau mastiau ffonau symudol i sicrhau eu bod yn ymrwymo'n briodol, nid yn unig i'r TAN ac i'r canllawiau, ond i'r cod ymarfer a ddylai fod ar waith? Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod eich ymrwymiad chithau i'r canllawiau hynny'n gryf?

**Y Prif Weinidog:** Soniais yn gynharach ein bod wedi ymrwymo i adolygu a diweddarau'r canllawiau hyn. Nid fy lle i yw dweud wrth bwyllgorau pwnc beth y dylent fod yn ei wneud, ond credaf fod yr awgrym wedi cael ei wneud y dylai Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad edrych ar y mater hwn fel pwnc defnyddiol ar gyfer gwaith sylweddol. Ni chyhoeddwyd yr adroddiad, a oedd yn cwmpasu Cymru a Lloegr, tan fis Mawrth 2006 gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, ac erbyn hyn mae'n cael ei ystyried gan Carwyn a'i dîm.

### **Dyfodol Gwasanaethau Heddlu The Future of Police Services**

**Q6 Leanne Wood:** What recent discussions has the First Minister held with UK Government Ministers regarding the future of police services in Wales? OAQ1634(FM)

**The First Minister:** This subject did arise in the discussions that I had with the Secretary of State for Wales yesterday. You will probably be aware that Edwina Hart, the Minister for Social Justice and Regeneration, with portfolio responsibilities in this area, met the new Home Office policing Minister, Tony McNulty, on 1 June.

**Leanne Wood:** You will be aware of the opposition to the Home Office's plans for police restructuring in Wales. I am sure that you have heard the many calls—some of which came from the social justice committee—for the devolution of police services so that we can decide in Wales on the best structure for our police services. You have refused to take a position on this

**C6 Leanne Wood:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â dyfodol gwasanaethau heddlu yng Nghymru? OAQ1634(FM)

**Y Prif Weinidog:** Cododd y mater hwn yn y trafodaethau a gefais gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddoe. Byddwch yn ymwybodol, mae'n debyg, fod Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, sydd â chyfrifoldebau portffolio yn y maes hwn, wedi cwrdd â Gweinidog plismona'r Swyddfa Gartref, Tony McNulty, ar 1 Mehefin.

**Leanne Wood:** Byddwch yn ymwybodol o'r gwrthwynebiad i gynlluniau'r Swyddfa Gartref i ad-drefnu heddluoedd Cymru. Yr wyf yn siŵr eich bod wedi clywed y llu o alwadau—rhai ohonynt wedi dod o du'r pwyllgor cyfiawnder cymdeithasol—am ddatganoli gwasanaethau'r heddlu er mwyn inni allu penderfynu yng Nghymru beth yw'r strwythur gorau i'n gwasanaethau heddlu ni.

question because the matter is not devolved, which is also what you said about the war in Iraq. However, the people in Wales want to know your view. Do you think that we could do a better job of restructuring the police service in Wales, or do you have every confidence in the dysfunctional Home Office?

**The First Minister:** It is always a populist point of view to try to take a particularly unpopular Government initiative and change something and say, 'It would be better if we dealt with it and then we would not have to change it'. However, the challenges would remain the same. I take my leave from the four chief constables, who are saying that they believe that there are advantages, in theory, at least, to merging the four police forces, provided that you can solve all the vexing issues regarding the protection of neighbourhood policing and the council tax precept equalisation. Those are far more serious issues for the person in the street than a little bit of Plaid Cymru grubbing for votes by believing that this would be better dealt with on a devolved basis.

**Brynle Williams:** You know that there is considerable opposition to the merger, especially in north Wales, where it could undermine community policing in rural areas and the quality of service for people for whom Welsh is their first language. What are you doing to ensure that the consensus against the merger of the police forces that has grown in Wales will be acted on by the Home Office?

**The First Minister:** The Home Office has the right to bring this in if that is what it believes is the right way to meet the recommendations of Her Majesty's Inspectorate of Constabulary. It persuaded the four chief constables in Wales—the opposition outside Wales is just as strong as that inside Wales—that this is a good idea, provided that there is a financial settlement that protects neighbourhood policing and does not divert funds from neighbourhood policing to so-called level 2 policing, namely new anti-terrorism drives.

At this moment, there is no satisfactory

Yr ydych wedi gwrthod mynegi safbwynt ar y cwestiwn hwn gan nad yw'r mater wedi cael ei ddatganoli, a dyna a ddywedasocho am y rhyfel yn Irac hefyd. Fodd bynnag, mae pobl Gymru am gael gwybod eich barn. A ydych yn credu y gallem ailstrwythuro'r heddlu yn well yma yng Nghymru, neu a oes gennych bob ffydd yn y Swyddfa Gartref gamweithredol?

**Y Prif Weinidog:** Mae bob amser yn safbwynt poblyddol ceisio edrych ar gynllun neilltuol o amhoblogaidd gan y Llywodraeth a newid rhywbeth a dweud, 'Byddai'n well pe baem ni'n delio ag ef ac yna ni fyddai'n rhaid inni ei newid'. Fodd bynnag, yr un fyddai'r sialensiau. Yr wyf yn derbyn arweiniad gan y pedwar prif gwnstabl, sy'n dweud eu bod yn credu bod manteision, yn ddamcaniaethol, o leiaf, wrth uno'r pedwar heddlu, cyhyd â bod modd datrys yr holl faterion anodd yn ymwneud â diogelu plismona cymdogaeth a chyfartalu praesept y dreth gyngor. Mae'r rheini'n faterion llawer mwy difrifol i rywun yn y stryd na Phlaid Cymru'n ymdrechu i gael pleidleisiau drwy gredu y byddai'n well delio â hyn ar sail ddatganoledig.

**Brynle Williams:** Gwyddoch fod gwrthwynebiad sylweddol i'r uno, yn enwedig yng ngogledd Cymru, lle y gallai danseilio plismona cymunedol mewn ardaloedd gwledig ac ansawdd y gwasanaeth i bobl y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau y bydd y Swyddfa Gartref yn gweithredu ar sail y consensws yn erbyn uno'r heddluoedd sydd wedi datblygu yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Mae gan y Swyddfa Gartref yr hawl i gyflwyno hyn os yw'n credu mai dyna'r ffordd iawn o gyflawni argymhellion Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi. Perswadiodd y pedwar prif gwnstabl yng Nghymru—mae'r gwrthwynebiad y tu allan i Gymru cyn gryfed â hwnnw yng Nghymru—fod hyn yn syniad da, cyhyd ag y ceir setliad ariannol sy'n diogelu plismona cymdogaeth ac nad yw'n peri bod arian yn mynd oddi wrth blismona cymdogaeth i blismona lefel 2 fel y'i gelwir, sef ymgyrchoedd gwrth-derfysgaeth newydd.

Ar hyn o bryd, nid oes canlyniad boddhaol i

outcome to get financial guarantees to say that neighbourhood policing will be protected as well as any initiatives on level 2 policing.

**Mick Bates:** I was pleased to hear you say in one of your replies on this matter that you believe in reason and in taking your lead from the chief constables. How do you relate that view with the views of the North Wales Police Authority, which says that this is not a fair process and that,

‘The scoring formula devised by the Home Office...was geared to reaching one conclusion, while undermining other viable options’?

Are you convinced that the process undertaken by the Home Office has taken into account policing structures in Wales, and that it will be a democratic process, by which we can choose the structure that we wish to keep in Wales?

**The First Minister:** You jumped from talking about four chief constables to talking about police authorities there, which are not quite the same thing, as you know, Mick—that was a subtle sidestep. The views of the chief constables are fairly clear, and they are, at the moment, not satisfied that the financial deal will enable them to protect neighbourhood policing. From the public’s point of view, that is the No. 1 priority. Level 2 policing is a big issue for the Government, if you like, because, understandably, it has the responsibility to protect us against terrorist incidents and so forth. However, the important thing for most people is the council tax precept equalisation issue and the protection of the neighbourhood policing budget. For the moment, therefore, the whole process is stymied because the financial settlement on offer does not enable the police to have that kind of offer from the Home Office that enables them to protect neighbourhood policing.

gael gwarantau ariannol i ddweud y bydd plismona cymdogaeth yn cael ei ddiogelu cystal ag unrhyw gynlluniau plismona lefel 2.

**Mick Bates:** Yr oeddwn yn falch o’ch clywed yn dweud yn un o’ch atebion ar y mater hwn eich bod yn credu mewn rheswm ac mewn derbyn arweiniad gan y prif gwnstabliaid. Pa gysylltiad sydd rhwng y farn honno a barn Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, sy’n dweud nad yw hon yn broses deg a bod

Y fformiwla sgorio a ddyfeisiwyd gan y Swyddfa Gartref...wedi’i bwriadu i gyrraedd un canlyniad, gan danseilio opsiynau dichonadwy eraill?

A ydych wedi eich argyhoeddi bod y broses a roddwyd ar waith gan y Swyddfa Gartref wedi cymryd y strwythurau plismona yng Nghymru i ystyriaeth, ac y bydd yn broses ddemocrataidd, a fydd yn golygu y gallwn ddewis y strwythur yr ydym am ei gadw yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Neidiasoch o sôn am bedwar prif gwnstabl i sôn am awdurdodau heddlu, ac nid ydynt yr un peth yn union, fel y gwyddoch, Mick—yr oedd hynny’n ochrgamu cyfrwys. Mae barn y prif gwnstabliaid yn weddol glir, ac, ar hyn o bryd, nid ydynt wedi’u hargyhoeddi y bydd y ddêl ariannol yn eu galluogi i ddiogelu plismona cymdogaeth. O safbwynt y cyhoedd, hynny yw blaenoriaeth Rhif 1. Mae plismona lefel 2 yn fater mawr i’r Llywodraeth, os mynnwch, oherwydd, yn ddealladwy, mae ganddi gyfrifoldeb i’n hamddiffyn rhag digwyddiadau terfysgol ac yn y blaen. Fodd bynnag, y peth pwysig i’r rhan fwyaf o bobl yw cyfartalu praesept y dreth gyngor a diogelu’r gyllideb plismona cymdogaeth. Ar hyn o bryd, felly, mae’r holl broses yn cael ei rhwystro gan nad yw’r setliad ariannol sy’n cael ei gynnig yn galluogi’r heddlu i gael y math o gynnig gan y Swyddfa Gartref sy’n eu galluogi i ddiogelu plismona cymdogaeth.

#### Diffygion Ariannol y GIG NHS Deficits

**Q7 Michael German:** Will the First Minister

**C7 Michael German:** A wnaiff y Prif

make a statement on NHS deficits in Wales?  
OAQ1647(FM)

**The First Minister:** At the end of March 2006, the net deficit being reported by NHS organisations—that is, trusts and boards—for 2005-06 was just under £21 million. If you include Health Commission Wales, you need to add another £10 million to that.

**Michael German:** Gwent Healthcare NHS Trust, whose representatives made a presentation to us last week, told us that its current deficit means that it will have to close a whole ward at the Royal Gwent Hospital and a whole ward at Neville Hall Hospital. Surely, cutting wards and beds is not a way to provide better healthcare.

**The First Minister:** The trust must have regard for the fact that it has the highest deficit in Wales. I do not know why it has a deficit of £6.3 million this year, but it will have to look across to other bodies that are struggling with considerable financial problems, such as Cardiff and Vale NHS Trust, which had a tiny surplus of £0.2 million in the last financial year. If you are the health trust with the highest deficit in Wales, you have to look to your own systems to see whether you can provide the same services, or look to see why you have the highest deficit and what you will do about it, because it is not comfortable to be at the bottom of the list in terms of deficits in the financial year just gone by.

2.40 p.m.

### **Pwysau Ariannol y GIG Financial Pressures on the NHS**

**Q8 Helen Mary Jones:** What recent discussions has the First Minister held with the NHS regarding the financial pressures that they face? OAQ1635(FM)

**The First Minister:** I meet annually with the NHS Confederation and our discussions include financial matters. Brian Gibbons has

Weinidog ddatganiad am ddiffygion ariannol y GIG yng Nghymru? OAQ1647(FM)

**Y Prif Weinidog:** Ddiwedd mis Mawrth 2006, yr oedd y diffyg net a oedd yn cael ei gofnodi gan gyrff y GIG—hynny yw, ymddiriedolaethau a byrddau—ar gyfer 2005-06 fymryn yn llai na £21 miliwn. Os ydych yn cynnwys Comisiwn Iechyd Cymru, mae angen ichi ychwanegu £10 miliwn arall at hynny.

**Michael German:** Dywedodd Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent, y rhoddodd ei chynrychiolwyr gyflwyniad inni yr wythnos diwethaf, fod ei diffyg cyfredol yn golygu y bydd yn rhaid iddi gau ward gyfan yn Ysbyty Brenhinol Gwent a ward gyfan yn Ysbyty Neville Hall. Nid oes bosibl bod cau wardiau a gwelyau yn ffordd o ddarparu gwell gofal iechyd.

**Y Prif Weinidog:** Rhaid i'r ymddiriedolaeth ystyried y ffaith mai hi sydd â'r diffyg mwyaf yng Nghymru. Ni wn pam mae ganddi ddiffyg o £6.3 miliwn eleni, ond bydd yn rhaid iddi edrych ar gyrff eraill sy'n ymgodymu â phroblemau ariannol sylweddol, fel Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, a oedd â gwaged bach iawn o £0.2 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Os mai chi yw'r ymddiriedolaeth iechyd sydd â'r diffyg mwyaf yng Nghymru, rhaid ichi edrych ar eich systemau eich hun i weld a oes modd ichi ddarparu'r un gwasanaethau, neu edrych i weld pam mai chi sydd â'r diffyg mwyaf a beth a wnewch ynghylch hynny, oherwydd nid yw'n beth braf bod ar waelod y rhestr wrth sôn am ddiffygion yn y flwyddyn ariannol sydd newydd fynd heibio.

**C8 Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal gyda'r GIG ynglŷn â'r pwysau ariannol a wynebant? OAQ1635(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cwrdd yn flynyddol â Chyddfederasiwn y GIG ac mae ein trafodaethau'n cynnwys materion

responsibility for health, and he and his officials regularly meet chairs and chief executives of NHS trusts, local health boards and Health Commission Wales.

**Helen Mary Jones:** Some of us would like you to take a rather more proactive stance on this issue than simply holding an annual meeting. Be that as it may, it seems as though the health Minister cannot get to grips with the two major questions on this issue. Is underfunding at the root of the deficit problem or is it mismanagement within trusts and local health boards? Whatever it is, what will the Assembly Government do to address it? As the health Minister seems unable to take responsibility for this, will you take a lead?

**The First Minister:** Your questions always fall into the pattern of pretending that there are only two possibilities, both of them absolutely dreadful, and both, unfortunately, wrong. The issue is that, in Wales, as in England, some authorities finish with a surplus, some finish dead level and some finish in deficit. I believe that Gwent Health Authority has finished at the bottom of the list, and it must do something about it. You cannot expect the authorities that have not handled their budget well to be cross-subsidised by those that have handled it more properly and are in surplus. That is not acceptable. However, authorities will always make the case that they could do with more money as they have not been fully funded for this, that and the other; they do make those points, and sometimes additional money is found from the budget.

On your point about an annual meeting, I mentioned that I have an annual meeting with the NHS Confederation, but I believe that I am a right pain to Brian and his staff in terms of my daily involvement in matters relating to the health service.

**Jonathan Morgan:** According to the

ariannol. Brian Gibbons sy'n gyfrifol am iechyd, ac mae ef a'i swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd â chadeiryddion a phrif weithredwyr ymddiriedolaethau GIG, byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru.

**Helen Mary Jones:** Byddai rhai ohonom am ichi fod dipyn yn fwy rhagweithiol ar y mater hwn yn hytrach na dim ond cynnal cyfarfod blynyddol. Bid a fo am hynny, mae'n ymddangos nad yw'r Gweinidog iechyd fel pe bai'n gallu mynd i'r afael â'r ddau gwestiwn mawr ynglŷn â'r mater hwn. Ai tangyllido sydd wrth wraidd y broblem o ran y diffyg ynteu ai camreoli o fewn ymddiriedolaethau a byrddau iechyd lleol sydd i gyfrif amdani? Beth bynnag ydyw, beth a wnaiff Llywodraeth y Cynulliad i ymdrin â hyn? Gan nad yw'r Gweinidog iechyd fel pe bai'n gallu ysgwyddo'r cyfrifoldeb am hyn, a wnewch chi gymryd yr awenau?

**Y Prif Weinidog:** Mae patrwm i'ch cwestiynau bob amser, sef cymryd arnoch nad oes ond dau bosibilrwydd, ill dau'n gwbl ofnadwy, a'r ddau, yn anffodus, yn anghywir. Y gwir yw, yng Nghymru, fel yn Lloegr, fod rhai awdurdodau'n gorffen gyda gwaged, mae rhai'n mantoli eu cyllideb yn union ac mae rhai'n gorffen gyda diffyg. Credaf fod Awdurdod Iechyd Gwent wedi gorffen ar waelod y rhestr, a rhaid iddo wneud rhywbeth ynghylch hynny. Ni allwch ddisgwyl i awdurdodau nad ydynt wedi ymdrin â'u cyllideb yn dda gael traws-gymhorthdal gan y rhai sydd wedi ymdrin â'u cyllideb yn well ac sydd â gwaged ganddynt. Nid yw hynny'n dderbyniol. Fodd bynnag, bydd awdurdodau bob amser yn dadlau y gallent wneud y tro â rhagor o arian gan nad ydynt wedi cael cyllid llawn ar gyfer rhywbeth neu'i gilydd; maent yn gwneud y pwyntiau hynny, ac weithiau canfyddir arian ychwanegol o'r gyllideb.

O ran eich pwynt ynghylch cyfarfod blynyddol, soniais fy mod yn cynnal cyfarfod blynyddol gyda Chydffederasiwn y GIG, ond credaf fy mod yn boendod gwirioneddol i Brian a'i staff yn fy ymwneud dyddiol â materion sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth iechyd.

**Jonathan Morgan:** Yn ôl gwefan



Assembly Government website, the new orthopaedic unit at Llandough Hospital will be open in the autumn to start treating patients. How on earth do you expect the Cardiff and Vale NHS Trust to start treating patients at the new unit if it does not have the money to open it?

**The First Minister:** It is not quite as simple as that. A budget bid has been made and is currently being negotiated. Although the gap looked pretty alarming at one time, it is being whittled down by good negotiating from both sides, and I do not think that the current position is anywhere near as bloodcurdling as you imply.

**Jenny Randerson:** Do you not think that it is a nonsensical position to be in if operating theatres are ready for use but cannot be used? Do you not think that it is stupid that the wonderful new facility has been built, but that the Cardiff and Vale NHS Trust has not been supplied with the finance from day 1 to staff the unit? Do you not think that it is counterproductive to have a situation like this, as it will inevitably mean that the orthopaedic waiting lists, which are among the highest in Europe for this area, will grow once again? Do you not agree that the NHS in Wales is showing symptoms of needing the urgent attention of a new Government rather than the sticking plasters that the health Minister continually tries to apply at the last minute, as he intends to do in this case, we hope?

**The First Minister:** No, I believe that most people would say that a deficit of £20.9 million—or some £30 million if you add Health Commission Wales's deficit of £9 million or £10 million—is not an unrespectable position to be in compared with our position a couple of years ago or the position across the border in England.

On the more narrow point that you made on the new day surgery—or the 23-hour, 59-minute surgery—at Cardiff and Vale orthopaedic centre, you must give credit to the superb improvement in the figures on long waiting lists for orthopaedics, which

Llywodraeth y Cynulliad, bydd yr uned orthopedig newydd yn Ysbyty Llandochau yn agor yn yr hydref i ddechrau trin cleifion. Sut yn y byd yr ydych yn disgwyl i Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ddechrau trin cleifion yn yr uned newydd os nad yw'r arian ganddi i'w hagar?

**Y Prif Weinidog:** Nid yw llawn mor syml â hynny. Mae cais am gyllid wedi cael ei wneud ac mae'n cael ei drafod ar hyn o bryd. Er bod y bwlch yn edrych yn bur frawychus ar un adeg, mae'n cael ei leihau drwy negodi da ar y naill ochr a'r llall, ac ni chredaf fod y sefyllfa ar hyn o bryd mor erchyll o'r hanner ag yr ydych chi'n awgrymu.

**Jenny Randerson:** Onid ydych yn meddwl ei bod yn sefyllfa ynydd i fod ynddi os oes theatrau llawdriniaeth yn barod i gael eu defnyddio ond nad oes modd eu defnyddio? Onid ydych yn meddwl ei bod yn hurt bod y cyfleuster newydd rhagorol hwn wedi cael ei godi, ond nad yw'r cyllid wedi cael ei ddarparu i Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro o'r diwrnod cyntaf i staffio'r uned? Onid ydych yn meddwl ei bod yn wrthgynhyrchiol cael sefyllfa fel hyn, gan y bydd yn anochel yn golygu bod y rhestrau aros orthopedig, sydd ymysg yr uchaf yn Ewrop yn y maes hwn, yn tyfu unwaith yn rhagor? Onid ydych yn cytuno bod y GIG yng Nghymru yn dangos symptomau bod angen sylw brys arno gan Lywodraeth newydd yn hytrach na'r plasteri glynu y mae'r Gweinidog iechyd yn ceisio eu rhoi arno ar y funud olaf dro ar ôl tro, fel y mae'n bwriadu gwneud yn yr achos hwn, yr ydym yn gobeithio?

**Y Prif Weinidog:** Nac ydwyf, yr wyf yn credu y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn dweud bod diffygion o £20.9 miliwn—neu ryw £30 miliwn os ychwanegwch ddiffyg Comisiwn Iechyd Cymru o £9 miliwn neu £10 miliwn—yn sefyllfa gymharol barchus i fod ynddi o'i chymharu â'n sefyllfa ryw ddwy flynedd yn ôl neu'r sefyllfa dros y ffin yn Lloegr.

O ran y pwynt mwy cyfyng a wnaethoch am y feddygfa ddydd newydd—neu'r feddygfa 23 awr, 59 munud—yng nghanolfan orthopedig Caerdydd a'r Fro, rhaid ichi roi clod i'r gwelliant gwych yn y ffigurau o ran y rhestrau aros hir am orthopedeg, a edrychai

looked incredibly long and almost intractable in Cardiff two years ago, but which have now come down to zero for people waiting more than 12 months for in-patient or out-patient treatment or consultation. We continue to negotiate. You cannot say, 'Here is the first bid from Cardiff and Vale NHS Trust; pay it and do not look at it'. We have said that we think that it could be done for a certain amount, but the trust has said that, no, it needs this much more money. Gradually, you negotiate the figure until you meet in the middle. We are not quite there yet, but we hope that it will happen soon.

yn anhygoel o hir a bron iawn fel pe na bai modd mynd i'r afael â hwy yng Nghaerdydd ddwy flynedd yn ôl, ond sydd erbyn hyn wedi dod i lawr i ddim o ran pobl sy'n aros mwy na 12 mis am driniaeth fel claf mewnol neu glaf allanol neu ymgynghoriad. Yr ydym yn dal i negodi. Ni allwch ddweud, 'Dyma gais cyntaf Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro; talwch ef a pheidiwch ag edrych arno'. Yr ydym wedi dweud ein bod o'r farn y byddai modd gwneud hyn am swm penodol, ond mae'r ymddiriedolaeth wedi dweud bod angen hyn a hyn yn rhagor o arian. Yn raddol, yr ydych yn negodi nes ichi gwrdd yn y canol. Nid ydym wedi cyrraedd y sefyllfa honno eto, ond yr ydym yn gobeithio y bydd yn digwydd yn fuan.

### Darpariaeth Cartrefi Gofal Care Home Provision

**Q9 Karen Sinclair:** Will the First Minister make a statement on care home provision in Wales? OAQ1629(FM)

**C9 Karen Sinclair:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth cartrefi gofal yng Nghymru? OAQ1629(FM)

**The First Minister:** It is our policy to support people to live independently at home for as long as possible. When that becomes impossible, residential care provides a vital contribution to the range of care services available, and we help to sustain and strengthen the provision of residential care and ensure a good standard.

**Y Prif Weinidog:** Ein polisi yw cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol gartref cyhyd â phosibl. Pan fydd hynny'n amhosibl, mae gofal preswyl yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r amrywiaeth o wasanaethau gofal sydd ar gael, ac yr ydym yn cynorthwyo i gynnal ac atgyfnerthu'r ddarpariaeth gofal preswyl a sicrhau safon uchel.

**Karen Sinclair:** Two council care homes in Wrexham, at Nant Silyn in Whitegate and Llys Madoc in Plas Madoc are currently being considered for closure by the Liberal Democrat-led council as part of a cost-cutting exercise in the area, despite an earlier promise to the people of Wrexham that they would be kept open. Do you agree that excellent, well respected and much-loved care homes such as these have an important role to play in our care structure in Wales, often helping elderly people to bridge the gap between leaving hospital and returning home, and relieving pressure on our hospitals?

**Karen Sinclair:** Ar hyn o bryd mae'r cyngor sy'n cael ei arwain gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn ystyried cau dau gartref gofal sydd gan y cyngor yn Wrecsam, Nant Silyn yn Whitegate a Llys Madog ym Mhlas Madog fel rhan o ymarferiad arbed arian yn yr ardal, er gwaethaf addewid cynharach i bobl Wrecsam y byddent yn eu cadw ar agor. A ydych yn cytuno bod gan gartrefi gofal rhagorol, uchel eu parch a phoblogaidd fel y rhain ran bwysig i'w chwarae yn ein strwythur gofal yng Nghymru, a'u bod yn aml yn cynorthwyo pobl hŷn i wneud pethau'n haws rhwng gadael yr ysbyty a dychwelyd adref, gan leddfu'r pwysau ar ein hysbytai?

**The First Minister:** That is certainly one of the functions of care homes, namely not only to be long-term care homes but also to provide rehabilitation for people who are not

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny yn sicr yn un o swyddogaethau cartrefi gofal, sef nid yn unig bod yn gartrefi gofal hirdymor ond hefyd darparu cyfleusterau adsefydlu i bobl na

able to live completely independently but who can prepare themselves for living independently once again by way of receiving a placement in a local authority care home, such as Nant Silyn or Llys Madoc. I know the names of those care homes, but I do not know how big they are or why the council has decided to close them. However, I understand the reason for the anxieties that you express on behalf of local users.

**Eleanor Burnham:** My understanding of the Wrexham issue is completely different, namely that it was the previous Labour administration that decided that these two homes should be shut.

First Minister, do you agree that the current eligibility criteria fail those with long-term degenerative diseases who need to be nursed in care homes, and that, in too many cases, the rules mean that people qualify for NHS funding for care home provision only when they are at death's door?

**The First Minister:** There are two questions there. I do not know how many years it is since Labour ran the council in Wrexham, and I regret that Labour is not running it now, but I do not think that you can say that decisions made by a council while it is under Liberal Democrat control are the responsibility of a Labour authority, otherwise the leader of the council would be looking for an irresponsibility allowance instead of a responsibility allowance.

As regards the issues about the distinction between what you go into a care home for and what you go into a nursing home for, I think that you want to rethink your words. There is a distinction: the NHS pays for one and the local authority pays for the other, and it is based on an assessment of how considerable your nursing needs are. You can have considerable nursing needs and live for a long time without being at death's door. I think that an apology from you to the many people in nursing homes and working in nursing homes is urgently due.

allant fyw'n gwbl annibynnol ond a all baratoi eu hunain i fyw'n annibynnol unwaith eto drwy gael eu lleoli yn un o gartrefi gofal yr awdurdod lleol, megis Nant Silyn neu Llys Madoc. Yr wyf yn gyfarwydd ag enwau'r cartrefi gofal hyn, ond ni wn pa mor fawr ydynt na pham mae'r cyngor wedi penderfynu eu cau. Fodd bynnag, deallaf y rheswm dros y pryderon yr ydych yn eu mynegi dros y defnyddwyr lleol.

**Eleanor Burnham:** Mae fy nealltwriaeth i ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn Wrecsam yn gwbl wahanol, sef mai'r weinyddiaeth Lafur flaenorol a benderfynodd y dylid cau'r ddau gartref dan sylw.

Brif Weinidog, a ydych yn cytuno bod y meini prawf presennol o ran cymhwysedd yn rhoi pobl sydd ag afiechydon dirywiol hirdymor sydd angen gofal nyrsio mewn cartrefi gofal o dan anfantais, a bod y rheolau, yn rhy aml o lawer, yn golygu nad yw pobl yn gymwys i dderbyn arian y GIG ar gyfer darpariaeth cartrefi gofal nes eu bod ar fin marw?

**Y Prif Weinidog:** Mae dau gwestiwn yma. Ni wn sawl blwyddyn sydd ers i Lafur redeg y cyngor yn Wrecsam, ac mae'n ofid i mi nad yw Llafur yn ei redeg yn awr, ond ni chredaf y gallwch ddweud bod awdurdod Llafur yn gyfrifol am benderfyniadau a wnaethpwyd gan gyngor sydd o dan reolaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, neu byddai arweinydd y cyngor yn chwilio am lwfans anghyfrifoldeb yn hytrach na lwfans cyfrifoldeb.

O ran y gwahaniaeth rhwng y rheswm pam yr ydych yn mynd i gartref gofal a pham yr ydych yn mynd i gartref nyrsio, credaf fod angen ichi ailfeddwl ynglŷn â'r hyn yr ydych wedi ei ddweud. Mae gwahaniaeth: mae'r GIG yn talu am un ac mae'r awdurdod lleol yn talu am y llall, ac mae'n seiliedig ar asesiad ynghylch pa mor sylweddol yw eich anghenion nyrsio. Gallwch fod ag anghenion nyrsio sylweddol a byw am amser maith heb fod ar fin marw. Credaf y dylech ymddiheuro ar unwaith i'r nifer fawr o bobl mewn cartrefi nyrsio ac i'r bobl sy'n gweithio mewn cartrefi nyrsio.

**Rhodri Glyn Thomas:** Fe'ch cyfeiriaf at benderfyniad Cyngor Sir Gâr, sydd ar hyn o bryd yn cael ei redeg gan y grŵp Llafur mewn clymblaid gyda'r grŵp annibynnol, i gau cartref preswyl Annedd yn Llanybydder cyn diwedd y flwyddyn ac i adeiladu cartref newydd. Bydd yn rhaid i'r preswylwyr symud o gartref Annedd i gartrefi eraill cyn symud yn ôl i'r cartref newydd. Mae safle Annedd yn hwylus, braf a mawr. A wnewch chi bwysu ar eich aelodau Llafur yn sir Gaerfyrddin i ailedrych ar y posibilrwydd o gadw'r cartref ar agor nes bod y cartref newydd yn barod, er mwyn i'r preswylwyr allu symud o'r hen gartref i'r cartref newydd heb symud i gartrefi eraill yn y cyfamser?

**Y Prif Weinidog:** Nid oes amheuaeth y gall symud fod yn drawmatig i bobl sydd yn hen ac sydd â phroblemau iechyd corfforol neu feddyliol, ond mae rhesymau, o ran safonau ac iechyd a diogelwch, dros ailadeiladu cartref preswyl fel ei fod yn cwrdd â safonau modern. Nid oeddwn yn gallu dilyn pob symudiad, cam a chymhlethdod yn eich stori, felly pe gallech ysgrifennu ataf gyda'r manylion, fe'ch atebaf, ac efallai ar hyd y llinellau yr ydych wedi'u cynnig.

**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** I welcome the First Minister's statement that two years is an outside period for blaming a previous administration for ills. I agree with that.

Does the First Minister believe that there is sufficient choice of care available for older people? We have heard about the two specific care home closures in Wrexham, but 185 care homes have closed in Wales in the last two years and more than 2,000 care home places have been lost. Does that concern the First Minister?

2.50 p.m.

**The First Minister:** During a period of housing boom, unfortunately, people look at the property and, if they see that they have been using a large, Victorian property as a nursing home, or as a care home for 30 years, they may be ready for retirement, and they may advance their retirement at a time when it is very profitable in property terms to sell up. That was certainly one reason why 2004-

**Rhodri Glyn Thomas:** I refer you to a decision taken by Carmarthenshire County Council, which is currently run by the Labour group in coalition with the independent group, to close the Annedd residential home at Llanybydder before the end of the year and to build a new home. The residents will have to move from Annedd to other homes before moving back to the new home. The Annedd site is convenient, pleasant and large. Will you urge your Labour members in Carmarthenshire to reconsider the possibility of keeping the home open until the new home is ready, so that residents can move from the old home to the new one without having to move to other homes in the meantime?

**The First Minister:** There is no doubt that moving can be traumatic for people who are elderly and who have physical or mental health problems, but there are reasons, in terms of standards and health and safety, for rebuilding a residential home to bring it into line with modern standards. I did not quite follow every twist, turn and complication in your tale, so if you could write to me with the details, I will reply, perhaps even along the lines that you have proposed.

**Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** Croesawaf ddatganiad y Prif Weinidog fod dwy flynedd y tu hwnt i'r cyfnod i feio gweinyddiaeth flaenorol am gamweddau. Cytunaf â hynny.

A yw'r Prif Weinidog yn credu bod digon o ddewis yn y gofal sydd ar gael i bobl hŷn? Clywsom am y ddau gartref gofal penodol sydd i gau yn Wrecsam, ond mae 185 o gartrefi gofal wedi cau yng Nghymru yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae dros 2,000 o leoedd wedi eu colli mewn cartrefi gofal. A yw hynny'n achosi pryder i'r Prif Weinidog?

**Y Prif Weinidog:** Yn ystod cyfnod o ymchwydd yn y farchnad dai, mae pobl, yn anffodus, yn dueddol o edrych ar eiddo ac, os gwelant eu bod wedi bod yn defnyddio adeilad Fictoriaidd mawr fel cartref nyrsio, neu gartref gofal ers 30 mlynedd, mae'n ddigon posibl eu bod yn barod i ymddeol, ac efallai y byddant am ymddeol yn gynharach ar adeg sy'n broffidiol iawn i werthu eiddo.

05 was a period when people were tending to close homes and convert the properties into flats and so on.

On the loss of choice, living at home is always the No. 1 choice; I think that we have to accept that. When that is not practical, you need a choice of different possibilities. The issue that I think you may be getting at is whether that should include a choice between local authority-owned care homes and privately owned care homes. I am not sure that that is the most relevant choice compared with the choice between being supported at home or going into the appropriate form of care, whether it is nursing-type care or home care.

**Nick Bourne:** I do not disagree with the First Minister about care at home where that is appropriate. However, different choices are made at different periods in people's lives. As you acknowledged earlier, sometimes, it is necessary for someone to have residential care. When you acknowledged that there is a problem with the loss of care-home beds, you did not mention that there are issues of overregulation and issues of fees levels. These are very real concerns, as local authorities throughout Wales would acknowledge. Are these matters being addressed? Is it right that people often have to dip into their savings to pay for their own care? As Age Concern has said, these people are sometimes classed as living in poverty, and should not be making any contribution to their care at all. Does that not concern the First Minister?

**The First Minister:** It certainly would if that was happening, because it should not be happening under the regulations. However, you cannot regulate everything and then say that you want less regulation and be certain that people are not slipping through the net in this way. I said earlier that there had been a reduction in the number of care-home places in 2004-05—I think that it was 2 per cent of the total—but we believe that outstanding applications for registration would have compensated by now for any loss in that peak year. The important thing is that we have funded the development of a fairer fees

Dyna'n sicr un rheswm pam yr oedd 2004-05 yn gyfnod pan oedd pobl yn dueddol o gau cartrefi a throi'r adeiladau'n fflatiau ac yn y blaen.

O ran colli dewis, byw gartref yw'r dewis cyntaf bob amser; credaf fod rhaid inni dderbyn hynny. Pan na fydd hynny'n ymarferol, rhaid cael dewis o wahanol bosibiliadau. Y peth pwysig yr ydych yn cyfeirio ato, o bosibl, yn fy marn i, yw a ddylai hynny gynnwys dewis rhwng cartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol a chartrefi gofal sy'n eiddo preifat. Nid wyf yn siŵr ai hynny yw'r dewis mwyaf perthnasol o'i gymharu â'r dewis rhwng cael cymorth yn y cartref a symud i'r math priodol o ofal, boed hynny'n ofal nyrsio neu ofal mewn cartref.

**Nick Bourne:** Nid wyf yn anghytuno â'r Prif Weinidog ynglŷn â gofal yn y cartref pan fo hynny'n briodol. Fodd bynnag, gwneir gwahanol ddewisiadau ar wahanol adegau ym mywyd rhywun. Fel y dywedasoeh yn gynharach, bydd angen, weithiau, i rywun dderbyn gofal preswyl. Pan ddywedasoeh fod problem gyda cholli gwelyau mewn cartrefi gofal, ni soniasoeh am broblemau gor-reoleiddio a'r problemau sy'n cael eu hachosi gan lefelau ffioedd. Mae'r rhain yn broblemau mawr, fel y byddai awdurdodau lleol ledled Cymru'n cydnabod. A yw'r problemau hyn yn cael sylw? A yw'n deg bod pobl yn aml yn gorfod gwario'u cynilion i dalu am eu gofal eu hunain? Fel y dywedodd Age Concern, mae'r bobl hyn weithiau'n cael eu cyfrif yn bobl sy'n byw mewn tlodi, ac ni ddylent fod yn gwneud cyfraniad o gwbl tuag at eu gofal. Onid yw hynny'n peri pryder i chi, Brif Weinidog?

**Y Prif Weinidog:** Byddai'n sicr yn achosi pryder pe bai hynny'n digwydd, oherwydd ni ddylai fod yn digwydd o dan y rheoliadau. Fodd bynnag, ni allwch reoleiddio popeth ac yna dweud eich bod am gael llai o reoleiddio a bod yn siŵr nad yw pobl yn llithro drwy'r rhwyd yn y modd hwn. Dywedais yn gynharach fod gostyngiad wedi bod yn nifer y lleoedd mewn cartrefi gofal yn 2004-05—credaf ei fod yn 2 y cant o'r cyfanswm—ond credwn y byddai'r ceisiadau a oedd yn aros i gael eu prosesu wedi gwneud iawn erbyn hyn am unrhyw golledion yn y flwyddyn honno pan oedd y ffigur ar ei uchaf. Y peth pwysig

assessment toolkit, which the Welsh Local Government Association has developed and we have funded, to facilitate informed and transparent local fee negotiations with the owners of homes. If there are people who find themselves having to make their own top-up contributions when they should not be, that is a matter that should be worked out through the political process.

**Nick Bourne:** I am glad that the First Minister came onto the question in that very last part of his answer, because that is what I want him to address. I want to look at that issue of people who cannot afford to pay fees and who are being asked to top up their fees, often in local authority-owned homes. That is a real issue, and I hope that the First Minister will address it, perhaps coming back with a fuller response later.

I would like to move on to a separate, but related, issue. You referred earlier to people being cared for at home, which is desirable where appropriate. I wonder whether you are supporting the Carers' Week aim that every carer should have a regular free health check. What are you doing as a Government to address that, taking any budgetary action that is necessary through the Minister for Health and Social Services to make sure that that can become a reality?

**The First Minister:** That was a two-part question. It is not acceptable for a top-up charge to be made for accommodation or services for the resident forming part of his or her assessed need by the local authority. A top-up should only be paid for higher quality accommodation or additional services beyond that which the authority would expect to pay for.

With regard to Carers' Week, I declare an interest as a part-time carer. I fully accept the principles that led Hywel Francis, MP for Aberavon, to put forward the Carers (Equal Opportunities) Act 2004 to ensure that carers, who are a hugely important resource to

yw ein bod wedi ariannu datblygu pecyn asesu ffioedd tecach, a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac a ariannwyd gennym ni, i hwyluso trefn dryloyw ac ystyrllon o negodi ffioedd lleol gyda pherchnogion cartrefi. Os oes pobl mewn sefyllfa lle y maent yn gorfod gwneud cyfraniadau ychwanegol eu hunain pan na ddylent fod yn gwneud hynny, mae hynny'n fater y dylid ei ddatrys drwy'r broses wleidyddol.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn falch bod y Prif Weinidog wedi rhoi sylw i'r cwestiwn yn rhan olaf un ei ateb, oherwydd dyna'r hyn yr wyf am iddo ganolbwyntio arno. Yr wyf am edrych ar y cwestiwn hwnnw ynghylch pobl na allant fforddio talu ffioedd ac sy'n gorfod cyfrannu at eu ffioedd, a hynny'n aml mewn cartrefi sy'n eiddo i awdurdodau lleol. Mae hynny'n broblem ddifrifol, a gobeithiaf y bydd y Prif Weinidog yn rhoi sylw iddo, ac efallai y daw yn ôl atom gydag ateb llawnach yn ddiweddarach.

Hoffwn symud ymlaen at fater gwahanol, ond sy'n gysylltiedig. Cyfeiriasoch yn gynharach at bobl sy'n derbyn gofal yn eu cartref, sy'n beth dymunol pan fo hynny'n briodol. Tybed a ydych yn cefnogi nod Wythnos y Gofalwyr, sef y dylai pob gofalwr gael archwiliad meddygol rheolaidd am ddim. Beth yr ydych yn ei wneud fel Llywodraeth i roi sylw i hynny, gan gymryd unrhyw gam cyllidebol sydd ei angen drwy'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod modd gwireddu hynny?

**Y Prif Weinidog:** Yr oedd dwy ran i'ch cwestiwn. Nid yw'n dderbyniol codi tâl ychwanegol ar y preswlydd am lety neu wasanaethau os yw'n rhan o'i anghenion ef neu hi fel y'u haseswyd gan yr awdurdod lleol. Dim ond ar gyfer llety o safon uwch neu wasanaethau ychwanegol, sy'n fwy na'r hyn y disgwyliad i'r awdurdod dalu amdanynt, y dylid talu ffioedd ychwanegol.

O ran Wythnos y Gofalwyr, hoffwn ddatgan buddiant fel gofalwr rhan-amser. Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'r egwyddorion a barodd i Hywel Francis, yr AS dros Aberafan, gyflwyno Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004 i sicrhau bod gofalwyr, sy'n adnodd

society, remain healthy enough to do the caring. They can be in their 70s or 80s; they can also be young children. It is important that they have an assessment, that they exercise that right to an assessment, and that they can then get whatever they need as a matter of right, following Hywel Francis's Act, whether that is respite care or other things.

hynod o bwysig mewn cymdeithas, yn cadw'n ddigon iach i wneud y gwaith gofalu. Gallant fod yn eu 70au neu eu 80au; gallant hefyd fod yn blant ifanc. Mae'n bwysig iddynt gael eu hasesu, eu bod yn defnyddio'r hawl honno i gael eu hasesu, a'u bod yn derbyn beth bynnag sydd ei angen arnynt fel hawl sylfaenol, yn dilyn Deddf Hywel Francis, boed hynny'n ofal seibiant neu'n bethau eraill.

### **Diogelwch ar Ffyrdd (Abertawe) Road Safety (Swansea)**

**C10 David Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad parthed diogelwch ar ffyrdd yn Abertawe? OAQ1623(FM)

**Q10 David Lloyd:** Will the First Minister make a statement on road safety in Swansea? OAQ1623(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi ymrwymo i wella popeth sy'n ymwneud â diogelwch ffyrdd yng Nghymru. Ers 2000, yr ydym wedi dyrannu mwy na £2 filiwn i Gyngor Dinas a Sir Abertawe i'w helpu i gyflwyno mentrau diogelwch ffyrdd lleol a bwrw ymlaen â chymau o'r strategaeth diogelwch ar y ffyrdd i Gymru.

**The First Minister:** We are committed to improving all areas of road safety in Wales. Since 2000, we have allocated more than £2 million to the City and County of Swansea Council to help it to deliver local road safety initiatives and to take forward action from the road safety strategy for Wales.

**David Lloyd:** Yr wyf yn siŵr bod y Prif Weinidog yn ymwybodol o achos Geraint Flynn, a gafodd ei daro i lawr a'i ladd ar y Kingsway yn Abertawe gan gar yn cael ei yrru gan yrrwr ifanc peryglus—un o nifer sylweddol o'r *boy racers* sy'n mynychu'r Kingsway y dyddiau hyn. Felly, yn ogystal ag addysgu gyrwyr ifanc am beryglon cyflymdra yn yr hirdymor, yn y tymor byr, a fyddai'r Prif Weinidog yn cefnogi'r alwad i gau'r Kingsway i draffig ar nosweithiau'r penwythnos?

**David Lloyd:** I am sure that the First Minister is aware of the case of Geraint Flynn, who was knocked down and killed on Kingsway in Swansea by a car driven by a dangerous young driver—one of a considerable number of boy racers on Kingsway these days. Therefore, in addition to teaching young drivers about the dangers of speed in the long term, in the short term, will the First Minister support the call to close the Kingsway to traffic on weekend evenings?

**Y Prif Weinidog:** Mater i'r awdurdod lleol yw hwnnw. Os yw'r heol yn beryglus i gerddwyr oherwydd nad yw gyrwyr yn ystyried anghenion cerddwyr, mater i lywodraeth leol a'r heddlu fyddai penderfynu ynghylch hynny. Yr wyf yn siŵr y byddem yn gallu ystyried unrhyw ran sydd gennym ni i'w chwarae yn y broses o gau'r heol.

**The First Minister:** That is a matter for the local authority. If the road has become dangerous to pedestrians because drivers do not take account of the needs of pedestrians, that is a matter for local government and the police to decide. I am sure that we could consider any part that we could play in the process of closing the road down.

**Peter Black:** One way in which we can help with road safety is to get people off the roads and onto public transport. Some proposals for the Kingsway include changing two of the road lanes into bus lanes as part of the introduction of a bendy-bus scheme, financed

**Peter Black:** Un ffordd y gallwn helpu gyda diogelwch ar y ffyrdd yw cael pobl oddi ar y ffyrdd ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae rhai o'r cynigion ar gyfer Kingsway'n cynnwys troi dwy o'r lonydd yn lonydd bysiau fel rhan o'r cynllun i gyflwyno'r

by a transport grant from the Assembly Government. Do you not regret the fact that, because the Assembly Government is underfunding the transport grant bid for that bendy-bus scheme, it will have to be delayed, along with those adjustments to the Kingsway?

**The First Minister:** As a supporter of the administration in Swansea, you always say that some initiative of ours is underfunded, but I am also aware of your lobbying position, and saying that certain initiatives are underfunded may or may not be true. I will think about it, but we would look at that very carefully in the light of where you are coming from—and it is not the first time that this has happened. We consider all of these schemes fairly and properly. I assure you of that. I am not aware of any evidence that this is underfunded.

**Alun Cairns:** I will press you further. This is a matter for the local authority and it is a matter of funding. Will you show a personal interest in this issue? If you can agree on cross-party or all-party support for the closure of this road, that is a starting point. We can then look at the funding issue and, if you show a personal interest in this, I am sure that we can be successful in winning.

**The First Minister:** The proper way to proceed is to allow it to be done by the local authority. It will communicate with the police and if it needs any assistance or permission from us, I am sure that it will make the application in the proper way. If it relates to the recent accident that Dai referred to—although I do not think that that happened on the Kingsway—or if there are issues relating to a recent accident there, I understand that the South Wales Police are in the process of investigating particular collision concerns, and more information will become available once the police investigations have been completed.

cynllun bws ystwyth, sy'n cael ei ariannu drwy grant trafndiaeth gan Lywodraeth y Cynulliad. Onid yw'n flin gennych, oherwydd bod Llywodraeth y Cynulliad yn tangyllido'r cais am grant trafndiaeth ar gyfer y cynllun bws ystwyth hwnnw, y bydd yn rhaid oedi cyn cyflwyno'r cynllun, ynghyd â'r addasiadau hynny i'r Kingsway?

**Y Prif Weinidog:** Fel un sy'n cefnogi'r weinyddiaeth yn Abertawe, yr ydych bob amser yn dweud nad yw rhyw fenter gennym yn derbyn arian digonol, ond yr wyf hefyd yn ymwybodol o'ch safbwynt fel lobiwr, a gall dweud nad yw rhai mentrau'n derbyn digon o arian fod yn wir neu beidio. Meddyliaf am y peth, ond byddem yn edrych ar hynny'n ofalus iawn yng ngoleuni eich bwriadau—ac nid hyn yw'r tro cyntaf y mae hyn wedi digwydd. Yr ydym yn ystyried yr holl gynlluniau hyn yn deg a phriodol. Gallaf eich sicrhau ynghylch hynny. Nid wyf yn ymwybodol o dystiolaeth bod hyn yn cael ei dangyllido.

**Alun Cairns:** Yr wyf am bwysu ymhellach arnoch. Mae hyn yn fater i'r awdurdod lleol ac mae'n fater o arian. A wnewch ddangos diddordeb personol yn y mater hwn? Os gallwch gytuno ar gefnogaeth drawsbleidiol neu hollbleidiol i gau'r ffordd hon, mae hynny'n fan cychwyn. Gallwn edrych wedyn ar y cwestiwn ynglŷn ag ariannu ac, os dangoswch ddiddordeb personol yn hyn, yr wyf yn siŵr y gallwn lwyddo i ennill.

**Y Prif Weinidog:** Y ffordd briodol o fwrw ymlaen yw drwy ganiatáu iddo gael ei wneud gan yr awdurdod lleol. Bydd yn cysylltu â'r heddlu ac os bydd angen unrhyw gymorth neu ganiatâd gennym, yr wyf yn siŵr y bydd yn gwneud y cais yn y ffordd briodol. Os yw'n ymwneud â'r ddamwain ddiweddar y cyfeiriodd Dai ati—er nad wyf yn credu ei bod wedi digwydd ar y Kingsway—neu os oes unrhyw beth yn ymwneud â damwain ddiweddar yno, deallaf fod Heddlu De Cymru wrthi'n ymchwilio i bryderon yn ymwneud â gwrthdrawiadau penodol, a bydd mwy o wybodaeth ar gael ar ôl i'r heddlu gwblhau eu hymchwiliadau.



**Cwestiwn Brys  
Urgent Question**

**DURA Automotive Cyf, Llanelli  
DURA Automotive Ltd, Llanelli**

**Catherine Thomas:** Will the Minister make a statement regarding the recent announcement in relation to DURA, Llanelli? EAQ0916(EIN)

**Catherine Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyhoeddiad diweddar ynghylch DURA, Llanelli? EAQ0916(EIN)

**The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies):** I issued a written statement to Members about the situation at DURA Automotive Ltd last Friday. This is extremely disappointing for the 270 workers, their families and the local communities. As a Government, we were not given advance warning of the announcement, but my officials met the company on Friday, and I also plan to meet senior managers at the earliest opportunity.

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig i'r Aelodau ynghylch y sefyllfa yn DURA Automotive Cyf ddydd Gwener diwethaf. Mae hyn yn siomedig dros ben i'r 270 o weithwyr, eu teuluoedd a'r cymunedau lleol. Fel Llywodraeth, ni chawsom rybudd ymlaen llaw o'r cyhoeddiad, ond cyfarfu fy swyddogion â'r cwmni ddydd Gwener, ac yr wyf finnau'n bwriadu cwrdd ag uwch reolwyr y cwmni cyn gynted â phosibl.

**Catherine Thomas:** Thank you for your response and the actions already taken by the Assembly Government. I know that you appreciate what a severe blow this announcement has been to such a highly skilled and loyal workforce. As you just said, it was indeed an extremely disappointing announcement for the 270 workers and their families. On Friday, I met with the trade union, plant manager and vice-president of DURA's European operations. It was emphasised at the meeting that this is a proposed closure, and every effort must be made to keep these 270 jobs in Llanelli. Do you agree that, while the long-term future of the workforce must be paramount and protected, that should not rule out the consideration of any proposals that will save the plant? Will you and your officials, working with the trade union and management, look at alternative proposals and explore all options? As you know, the Assembly Government has given support to DURA in the past, through regional selective assistance and the property development grant, but what DURA Llanelli desperately needs now is support in securing new orders, which would help to make the plant sustainable. Can I have your assurance that this will be high on your agenda when you

**Catherine Thomas:** Diolch i chi am eich ymateb a'r camau a gymerwyd eisoes gan Lywodraeth y Cynulliad. Gwn eich bod yn sylweddoli cymaint o ergyd yw'r cyhoeddiad hwn i weithlu mor fedrus a theymgar. Fel y dywedasoch, yr oedd yn wir yn gyhoeddiad eithriadol o siomedig i'r 270 o weithwyr a'u teuluoedd. Ddydd Gwener, cyfarfûm â'r undeb llafur, rheolwr y ffatri ac is-lywydd gweithrediadau Ewropeaidd DURA. Pwysleisiwyd yn y cyfarfod mai rhywbeth arfaethedig yw cau'r ffatri, a bydd rhaid gwneud pob ymdrech i gadw'r 277 o swyddi yn Llanelli. A ydych yn cytuno, er bod rhaid i ddyfodol hirdymor y gweithlu gael ei ddiogelu ac y dylai ddod o flaen popeth arall, na ddylai hynny olygu bod unrhyw gynigion a fydd yn arbed y ffatri'n cael eu diystyru? A wnewch chi a'ch swyddogion, drwy weithio gyda'r undeb llafur a'r rheolwyr, edrych ar gynigion eraill ac edrych ar bob posibilrwydd? Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi DURA yn y gorffennol, drwy gymorth rhanbarthol dewisol a'r grant datblygu eiddo, ond yr hyn sydd ei wir angen ar DURA Llanelli yn awr yw cymorth i sicrhau archebion newydd, a fyddai'n helpu i wneud y ffatri'n gynaliadwy. A gaf sicrwydd gennych y bydd hyn yn uchel ar eich agenda

meet with the trade unions and senior management? The management is eager to consider any positive proposals for this plant, and I hope that your talks will be constructive and ongoing.

3.00 p.m.

Finally, can you also assure me that the Assembly Government is continuing to look at ways to offset the difficulties faced by the automotive industry, which is such an important sector, especially in my constituency of Llanelli?

**Andrew Davies:** I am willing to say publicly what I said to you at our meeting earlier today: that we stand ready to help the company and the trade unions to keep the operation in Llanelli and to keep as many of those jobs as possible, either through working with the company directly or through the Welsh automotive forum, for example, and the Accelerate Wales programme, to help the company identify other customers. We undertook a comprehensive programme when MG Rover experienced difficulties around the turn of the century, and we were able to help many companies in the automotive sector to diversify their customer base so that when MG Rover, sadly, went out of business last summer, the impact on Welsh automotive companies was more limited.

You are right to say that we have helped DURA on many occasions. Some £1.9 million of regional selective assistance was offered in 2000 towards nearly a £10 million investment, and a property development grant of £400,000 was also paid to the company in 2001 and 2002, and there was ongoing help through the Accelerate Wales programme. The bottom line now, obviously, is to help the company and the workforce to identify ways in which we can keep the operation going in Llanelli. I certainly stand ready to do everything that we can to do that. My office is already in contact with the company about an early meeting.

**Alun Cairns:** The union has said that this is the fourth announcement of major job losses that we have received in as many weeks. It has been called another nail in the coffin of Welsh manufacturing. You have refuted such

pan fyddwch yn cwrdd â'r undebau llafur a'r uwch reolwyr? Mae'r rheolwyr yn awyddus i ystyried unrhyw gynigion positif ar gyfer y ffatri, a gobeithiaf y bydd eich trafodaethau'n rhai adeiladol ac y byddant yn parhau.

Yn olaf, a allwch hefyd fy sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn dal i ystyried dulliau o leddfu'r anawsterau a wynebhir gan y diwydiant modurol, sydd yn sector mor bwysig, yn enwedig yn fy etholaeth i, sef Llanelli?

**Andrew Davies:** Yr wyf yn barod i ddweud ar goedd yr hyn a ddywedais wrthy ch yn ein cyfarfod yn gynharach heddiw: ein bod yn barod i helpu'r cwmni a'r undebau llafur i gadw'r gwaith yn Llanelli a chadw cynifer ag y bo modd o'r swyddi hynny, un ai drwy weithio gyda'r cwmni'n uniongyrchol neu drwy fforwm modurol Cymru, er enghraifft, a rhaglen Accelerate Cymru, i helpu'r cwmni i ddod o hyd i gwsmeriaid eraill. Ymgyngherasom â rhaglen gynhwysfawr pan brofodd MG Rover anawsterau tua throad y ganrif, ac yr oeddem yn gallu helpu llawer o gwmnïau yn y sector modurol i arallgyfeirio eu sylfaen gwsmeriaid fel bod yr effaith ar gwmnïau modurol Cymru yn fwy cyfyngedig, pan roddodd MG Rover y gorau i fasnachu, gwaetha'r modd, yr haf diwethaf.

Yr ydych yn iawn wrth ddweud ein bod wedi helpu DURA ar lawer achlysur. Cynigiwyd tua £1.9 miliwn o gymorth rhanbarthol dewisol yn 2000 tuag at fuddsoddiad o bron £10 miliwn, a thalwyd grant datblygu eiddo o £400,000 i'r cwmni hefyd yn 2001 a 2002, ac yr oedd cymorth yn parhau drwy raglen Accelerate Cymru. Y peth pwysicaf yn awr, wrth gwrs, yw helpu'r cwmni a'r gweithlu i ganfod modd inni allu parhau â'r gwaith yn Llanelli. Yr wyf yn sicr yn barod i wneud popeth a allwn i wneud hynny. Mae fy swyddfa mewn cysylltiad â'r cwmni eisoes gyda golwg ar gynnal cyfarfod yn fuan.

**Alun Cairns:** Mae'r undeb wedi dweud mai hwn yw'r pedwerydd cyhoeddiad am golli nifer fawr o swyddi mewn pedair wythnos. Fe'i galwyd yn hoelen arall yn arch gweithgynhyrchu yng Nghymru. Yr ydych

comments in the past.

Only last week, when we called for an early warning system, you highlighted the Welsh automotive forum. What role did the Welsh automotive forum have in this case? Did it act as an early warning system and, if so, did you manage to discuss with the company, well ahead of any such announcement, any assistance that the Assembly may be able to give? If not, did your system fail, as I suspect it did?

**Andrew Davies:** I do not accept that it is a nail in the coffin. That presumes that there is no future for manufacturing, because the manufacturing sector is dead in Wales. That is certainly not the case. Some parts of the manufacturing industry are experiencing intense difficulties, particularly the automotive industry. I have said on many occasions, here and in committee, that the major reason for that is that there is huge overcapacity in the global automotive industry. When you have companies such as General Motors, and Ford Motor Company, to a lesser extent, experiencing financial difficulties due to overcapacity and intense competition, it is not surprising that that impact is felt throughout the industry. It is well attested that many other companies, such as Continental Teves recently, have had to slim down their operations as a result of intense global competition. DURA has taken the view globally that it has to restructure, but Llanelli is not the only part of its operation, globally, that is proposed to be taken out of production. I believe that there has been a recent announcement of a closure of part of its operation in Ontario, Canada.

In terms of an early warning, we did not have advance warning. We, as a Government, and the public sector, had been in close contact through the account management system with the company, but as I have said to you and to other Members previously, it is entirely a matter for a company whether it tells us if it is experiencing difficulties. We have access to information and intelligence from a whole range of other sources but if a company, the

wedi gwrthod derbyn sylwadau o'r fath yn y gorffennol.

Mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, pan alwasom am system rhybudd buan, tynasoch sylw at fforwm modurol Cymru. Pa rôl a fu gan fforwm modurol Cymru yn yr achos hwn? A weithredodd fel system rhybudd buan ac, os felly, a lwyddasoch i drafod gyda'r cwmni, ymhell cyn unrhyw gyhoeddiad o'r fath, unrhyw gymorth y gallai'r Cynulliad ei roi? Os na lwyddasoch i wneud hynny, a fethodd eich system, fel yr wyf yn amau ei bod wedi gwneud?

**Andrew Davies:** Nid wyf yn derbyn bod hyn yn hoelen yn yr arch. Mae hynny'n gyfystyr â rhagdybio nad oes dyfodol i weithgynhyrchu, gan fod y sector gweithgynhyrchu wedi darfod yng Nghymru. Mae'n sicr nad yw hynny'n wir. Mae rhai rhannau o'r diwydiant gweithgynhyrchu'n profi anawsterau mawr, yn enwedig y diwydiant modurol. Yr wyf wedi dweud ar lawer achlysur, yma ac yn y pwyllgor, mai'r prif reswm dros hynny yw bod gormod o gapasiti yn y diwydiant modurol rhyngwladol. Pan geir bod cwmnïau fel General Motors, a Ford Motor Company, i lai o raddau, yn profi anawsterau ariannol oherwydd capasiti gormodol a chystadlu dwys, nid yw'n syndod bod yr effaith honno'n cael ei themlo yn y diwydiant drwyddo draw. Mae digon o dystiolaeth bod llawer o gwmnïau eraill, fel Continental Teves yn ddiweddar, wedi gorfod tocio eu gweithrediadau o ganlyniad i gystadlu rhyngwladol dwys. Mae DURA wedi barnu bod rhaid iddo ad-drefnu'n rhyngwladol, ond nid gwaith Llanelli yw'r unig ran o'i weithrediadau rhyngwladol y bwriedir rhoi'r gorau i gynhyrchu ynddi. Yr wyf yn credu bod cyhoeddiad wedi bod yn ddiweddar ynghylch cau rhan o'i weithrediadau yn Ontario, Canada.

Gyda golwg ar gael rhybudd buan, ni chawsom rybudd ymlaen llaw. Yr oeddem ni, fel Llywodraeth, a'r sector cyhoeddus, wedi bod mewn cysylltiad agos drwy'r system rheoli cyfrifon â'r cwmni ond, fel yr wyf wedi dweud wrthy ch chi ac wrth Aelodau eraill o'r blaen, mater i'r cwmni'n unig yw a fydd yn dweud wrthym a yw'n profi anawsterau. Mae gwybodaeth a chuddwybodaeth ar gael i ni o amryw o ffynonellau

unions, or any other source of information is not indicating that the company is in difficulty and is proposing closures, there is little that we, as a Government, can do.

In terms of the specific question about Accelerate Wales, I believe that the company has been working with Accelerate Wales since 2002, and it has been assisting the company to identify a supply chain and looking at ways of improving its operation; indeed, the company won the 2005 most improved supply chain award. Therefore, considerable assistance has gone to the company, as I indicated in my answer to Catherine Thomas.

**Helen Mary Jones:** I am sure that you would agree, Minister, that it is sad that this workforce faces this situation; it has done all that it can to be as flexible as possible over the last five years in responding to the company's demands for increased productivity. In that context, I am slightly surprised to hear you say to Alun Cairns that you were not aware that there were problems. However, let us put that to one side for the moment, because the most important thing is to be positive about trying to keep the jobs, if at all possible.

I welcome the steps that you outlined in your responses to Catherine Thomas and Alun Cairns about the contacts that you have had, and will continue to have, with the company here. However, will you ensure that you also have dealings with the parent company in the USA, where the ultimate decision will be made? There is a concern that the voice of the workforce is perhaps not getting directly to where it needs to be heard, and you as Minister may be able to take steps with regard to that.

You are on record as saying that you would prefer the Westminster Government to sign up to some of the European regulations that would make it more difficult for international companies to make staff redundant here. Given the number of examples that we have had of international companies perhaps looking to close down manufacturing in Wales, rather than in continental Europe, where increased protection may be a factor,

eraill ond os nad yw'r cwmni, yr undebau, neu unrhyw ffynhonnell gwybodaeth arall yn dweud bod cwmni mewn trafferthion a'i fod yn bwriadu cau gweithfeydd, nid oes fawr y gallwn ni, fel Llywodraeth, ei wneud.

O ran y cwestiwn penodol am Accelerate Cymru, yr wyf yn credu bod y cwmni wedi bod yn gweithio gydag Accelerate Cymru ers 2002, ac mae wedi bod yn helpu'r cwmni i ganfod cadwyn gyflenwi ac ystyried dulliau o wella ei weithrediadau; yn wir, y cwmni hwn a enillodd y wobr am y gadwyn gyflenwi a oedd wedi gwella fwyaf yn 2005. Felly, rhoddwyd cymorth helaeth i'r cwmni, fel y nodais yn fy ateb i Catherine Thomas.

**Helen Mary Jones:** Yr wyf yn siŵr y cytunch, Weinidog, ei bod yn drist bod y gweithlu'n wynebu sefyllfa o'r fath; mae wedi gwneud hynny a all i fod mor hyblyg ag y bo modd dros y pum mlynedd diwethaf wrth ymateb i alwadau'r cwmni am fwy o gynhyrchiant. O ystyried hynny, yr wyf wedi synnu braidd o'ch clywed yn dweud wrth Alun Cairns nad oeddech yn ymwybodol bod problemau. Fodd bynnag, gadewch inni roi hynny o'r neilltu am y tro, gan mai'r peth pwysicaf yw bod yn gadarnhaol ynghylch ceisio cadw'r swyddi, os oes modd.

Yr wyf yn croesawu'r camau a amlinellwyd gennych yn eich atebion i Catherine Thomas ac Alun Cairns ynghylch y cysylltiadau yr ydych wedi eu cael, ac y byddwch yn dal i'w cael, gyda'r cwmni yma. Fodd bynnag, a wnewch sicrhau y byddwch hefyd yn trafod gyda'r rhiant-gwmni yn UDA, lle y gwneir y penderfyniad terfynol? Mae pryder nad yw llais y gweithlu, o bosibl, yn cyrraedd y man lle y mae angen ei glywed, ac efallai y byddwch chi fel Gweinidog yn gallu cymryd camau mewn cysylltiad â hynny.

Yr ydych wedi dweud ar goedd y byddai'n well gennych pe byddai Llywodraeth San Steffan yn derbyn rhai o'r rheoliadau Ewropeaidd a fyddai'n peri ei bod yn anos i gwmnïau rhyngwladol ddiswyddo staff yma. O gofio'r nifer o enghreifftiau a gawsom o gwmnïau rhyngwladol a oedd efallai'n ystyried cau gweithfeydd yng Nghymru, yn hytrach nag ar gyfandir Ewrop, lle y gallai mwy o amddiffyniad fod yn ffactor

and that you have told us again and again that you would like to see those European regulations implemented, what proactive steps have you taken in recent months, or do you propose to take, to try to make that happen?

Can you now outline what you propose to do to take a strategic and proactive approach to promote and protect manufacturing in west Wales, particularly in Llanelli? There is some concern that your Government's approach may be seen as too reactive. Therefore, what assurances can we have from you today that, from now on, you will take a more proactive approach to looking for this intelligence, so that, hopefully, you can intervene before a crisis point is reached?

**Andrew Davies:** On the first question about contacting the parent company, I have done that, as I have done when there have been previous announcements by other companies, such as Krupp Camford and Continental Teves. I have written to the chairman of the parent company in both cases—or to the senior manager and the executive at a senior executive level—about those issues. Therefore, it is not just a matter of dealing with local or UK management. One of the strengths of devolution is that we are able to have access to senior executives. For example, with regard to a company such as Sony we are able to access decision makers such as Sir Howard Stringer.

On support for manufacturing, we have given focused support for manufacturing in Wales. If you consider the automotive sector, our support and funding for the Wales automotive forum and the Accelerate Wales programme has helped many companies in the sector to improve their operations, and to diversify their customer base. As I said in my response to Catherine Thomas, had it not been for our proactive approach through the Accelerate Wales programme and that help in improving productivity or diversifying, many companies in Wales that supplied MG Rover would have been in a far worse position.

perthnasol, a'r ffaith eich bod wedi dweud wrthym dro ar ôl tro y carech weld rhoi'r rheoliadau Ewropeaidd hynny mewn grym, pa gamau rhagweithiol yr ydych wedi'u cymryd yn y misoedd diwethaf, neu y bwriadwch eu cymryd, i geisio peri i hynny ddigwydd?

A allwch ddisgrifio'n awr yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud i hyrwyddo a diogelu gweithgynhyrchu, mewn modd strategol a rhagweithiol, yn y gorllewin, ac yn Llanelli yn enwedig? Mae peth pryder y gallai agwedd eich Llywodraeth gael ei hystyried yn rhy adweithiol. Felly, pa sicrwydd y gallwch ei roi i ni heddiw y byddwch, o hyn allan, yn mynd ati'n fwy rhagweithiol i chwilio am gudd-wybodaeth o'r fath, fel y byddwch, gobeithio, yn gallu ymyrryd cyn i argyfwng godi?

**Andrew Davies:** O ran y cwestiwn cyntaf ynghylch cysylltu â'r rhiant-gwmni, yr wyf wedi gwneud hynny, fel y gwneuthum pan fu cyhoeddiadau o'r blaen gan gwmnïau eraill, fel Krupp Camford a Continental Teves. Ysgrifennais at gadeirydd y rhiant-gwmni yn y ddau achos—neu at yr uwch reolwr a'r adran weithredol ar lefel uwch swyddogion gweithredol—ynghylch y materion hynny. Felly, nid mater o ddelio â rheolwyr lleol neu rai yn y DU yn unig yw hyn. Un o fanteision datganoli yw y gallwn fynd at uwch swyddogion gweithredol. Er enghraifft, gyda golwg ar gwmni fel Sony, yr ydym yn gallu mynd at benderfynwyr fel Syr Howard Stringer.

Ynghylch cymorth ar gyfer gweithgynhyrchu, yr ydym wedi rhoi cymorth penodol ar gyfer gweithgynhyrchu yng Nghymru. Gyda golwg ar y sector modurol, mae'r cymorth a'r arian a roesom i fforwm modurol Cymru a rhaglen Accelerate Cymru wedi helpu llawer o gwmnïau yn y sector i wella eu gweithrediadau, ac i arallgyfeirio eu sylfaen gwsmeriaid. Fel y dywedais yn fy ateb i Catherine Thomas, oni bai am ein dull rhagweithiol o weithredu drwy raglen Accelerate Cymru a'r cymorth hwnnw i wella cynhyrchiant neu i arallgyfeirio, byddai llawer o gwmnïau yng Nghymru a gyflenwai MG Rover wedi bod mewn sefyllfa waeth o lawer.

We are taking a proactive stance in helping the manufacturing industry in particular sectors. I have already mentioned the automotive sector. Aerospace is another sector with which we work closely, on a dynamic public-private partnership basis. Similarly, there are the electronics and optoelectronics sectors, and many other key sectors in manufacturing and other key parts of the economy. Therefore, I do not accept for a moment that we are not proactive. Our approach is based on partnership, and on identifying the needs of not just individual companies but the whole sector, and tailoring our support to the needs of that industry and that company.

On rights for workers in Wales—in manufacturing or anywhere else—I have said on many occasions that workers in Wales should have the right of consultation that many other workers in Europe have; I have made that point in my discussions with UK Government Ministers.

3.10 p.m.

**Michael German:** May I confirm with you your response to this matter? You say that you made a response last Friday, and that this was a fairly out-of-the-blue announcement. You have already mentioned Continental Teves and there was a statement by the company, in advance of the prospective closure, which indicated a potential problem. The company itself, from its Michigan headquarters, announced in February this year that it was planning to close between five and 10 of its manufacturing plants worldwide. Had a responsive system been in place, you would have expected to have read about that matter and for your officials to have entered into some form of dialogue with the company, both here and in the United States, to ensure that whatever could be done in advance of an announcement was done. Once the announcement is made, it is much more difficult to offer the assistance and the tools that are at your disposal, which are somewhat limited, but which you could use. Will you tell us when you and your officials

Yr ydym yn mynd ati mewn modd rhagweithol wrth helpu'r diwydiant gweithgynhyrchu mewn sectorau penodol. Yr wyf eisoes wedi sôn am y sector modurol. Mae'r sector awyrfod yn un arall yr ydym yn cydweithio'n agos ag ef, ar sail partneriaeth ddeinamig rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Yn yr un modd, dyna'r sectorau electroneg ac optoelectroneg, a llawer o sectorau gweithgynhyrchu allweddol eraill a rhannau allweddol eraill o'r economi. Felly, nid wyf yn derbyn am eiliad nad ydym yn rhagweithiol. Mae ein dull o weithredu wedi'i seilio ar bartneriaeth, ac ar ganfod anghenion y sector cyfan, yn ogystal â chwmmiau unigol, ac ar addasu ein cymorth i ddiwallu anghenion y diwydiant hwnnw a'r cwmni hwnnw.

Ynghylch hawliau i'r gweithwyr yng Nghymru—ym maes gweithgynhyrchu neu mewn meysydd eraill—yr wyf wedi dweud ar lawer achlysur y dylai gweithwyr yng Nghymru gael yr hawl i ymgynghori sydd gan lawer o weithwyr eraill yn Ewrop; yr wyf wedi gwneud y pwynt hwnnw yn fy nhrafodaethau â Gweinidogion Llywodraeth y DU.

**Michael German:** A gaf gadarnhad gennych am eich ymateb i'r mater hwn? Dywedwch eich bod wedi ymateb ddydd Gwener diwethaf, a bod y cyhoeddiad hwn yn eithaf annisgwyl. Yr ydych eisoes wedi sôn am Continental Teves a chafwyd datganiad gan y cwmni, cyn nodi'r bwriad i gau, a oedd yn nodi y gallai problem godi. Cyhoeddodd y cwmni ei hun, o'i bencadlys ym Michigan, ym mis Chwefror eleni, ei fod yn bwriadu cau rhwng pump a 10 o'i weithfeydd gweithgynhyrchu drwy'r byd. Pe buasai system ymatebol ar waith, byddech wedi disgwyl y byddech wedi darllen am y mater hwnnw ac wedi disgwyl i'ch swyddogion ddechrau rhyw fath o ddeialog â'r cwmni, yma ac yn yr Unol Daleithiau, i sicrhau bod popeth a oedd yn bosibl wedi'i wneud cyn y cyhoeddiad. Ar ôl gwneud y cyhoeddiad, mae'n llawer anos cynnig y cymorth a'r pecynnau sydd ar gael i chi, sydd braidd yn gyfyngedig, ond y gallech eu defnyddio. A ddywedwch wrthym pa bryd y cawsoch chi a'ch swyddogion wybod gyntaf fod y gwaith

were first aware that that plant was under threat? These are jobs that we can ill-afford to lose in Llanelli, and ones that are another stage in the problem that we see in the manufacturing industry in Wales, particularly in the automotive sector, of which we were rightly proud to have made an advance in terms of technology.

**Andrew Davies:** We had no earlier indication than when the workforce was informed late last week. I responded with a statement to Members and made that point at the time. Companies may often say at a global level that they are experiencing difficulties and intend to restructure, but that does not necessarily mean that it will be indicated that there will be a proposal to close a particular plant. In some cases, that has been the case. Obviously, there has been a lot of speculation and discussion about Visteon UK Ltd in Swansea for example, and the First Minister, the Secretary of State and I have worked very closely with the company and had many meetings with it and the trade unions to identify support. That is clearly an example of where a company is experiencing difficulties globally and where a particular plant in Wales has been identified as having to improve performance. We will do everything that we can, as we have done in the past, to assist Visteon. In the case of DURA, we were not given any indication, and neither were officials through our account management system. At no time did the company indicate to us its intention to propose the closure of the Llanelli plant. Had we been aware of that intention or possibility, we would have intervened at an earlier stage.

hwnnw dan fygythiad? Prin y gallwn fforddio colli'r swyddi hyn yn Llanelli, ac maent yn arwydd arall o'r broblem a welwn yn y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru, yn enwedig yn y sector moduro, a oedd yn destun balchder i ni oherwydd y cynnydd o ran technoleg.

**Andrew Davies:** Ni chawsom ddim arwydd cyn hysbysu'r gweithlu ddiwedd yr wythnos diwethaf. Ymatebais drwy roi datganiad i'r Aelodau a gwneuthum y pwynt hwnnw bryd hynny. Gall cwmnïau ddweud yn aml ar lefel ryngwladol eu bod yn profi anawsterau a'u bod yn bwriadu ad-drefnu, ond nid yw hynny'n golygu o reidrwydd y nodir bod bwriad i gau gwaith penodol. Mewn rhai achosion, hynny sydd wedi digwydd. Wrth gwrs, bu llawer o ddyfalu a thrafod ynghylch Visteon UK Cyf yn Abertawe, er enghraifft, ac mae'r Prif Weinidog, yr Ysgrifennydd Gwladol a minnau wedi cydweithio'n agos â'r cwmni ac wedi cynnal llawer o gyfarfodydd gydag ef a chyda'r undebau llafur i ddod o hyd i gymorth. Mae'n amlwg bod hynny'n enghraifft o gwmni sydd yn profi anawsterau'n rhyngwladol a lle y canfuwyd bod rhaid i waith penodol yng Nghymru wella ei berfformiad. Gwnawn bopeth a allwn, fel y gwnaethom yn y gorffennol, i gynorthwyo Visteon. Yn achos DURA, ni chawsom ddim arwydd, na'r swyddogion ychwaith drwy ein system rheoli cyfrifon. Nid oedd y cwmni wedi rhoi gwybod inni o gwbl am ei fwriad i gynnig cau'r gwaith yn Llanelli. Pe buasem yn ymwybodol o'r bwriad neu'r posibilrwydd hwnnw, byddem wedi ymyrryd yn gynharach.

### **Datganiad Busnes Business Statement**

**The Business Minister (Jane Hutt):** There are two changes to report to this week's business. I will be proposing a procedural motion to bring forward the no named day motion tabled earlier today to allow substitutions to the Committee on Rail Infrastructure and Improved Passenger Services, and tomorrow the motion to amend Standing Orders in relation to the Shadow Commission will not take place, as a no

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae dau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Byddaf yn cynnig cynnig gweithdrefnol i ddwyn gerbron y cynnig heb ddyddiad trafod a gyflwynwyd yn gynharach heddiw i ganiatáu penodi dirprwyon i'r Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd a Gwella Gwasanaethau i Deithwyr, ac yfory ni chynigir y cynnig i newid y Rheolau Sefydlog mewn cysylltiad â'r Comisiwn Cysgodol, gan fod cynnig heb

named day motion was approved last week. Business for the next three weeks is as set out in the draft statement, which should be available to Members on the agenda, and following this morning's Business Committee meeting, it has been determined that the following items of subordinate legislation need not be referred to a subject committee for extended consideration: the National Health Service (Optical Charges and Payments) (Amendment) (Wales) Regulations 2006, the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2006, the Local Health Boards (Establishment) (Wales) (Amendment) Order 2006, the Home Loss Payments (Prescribed Amounts) (Wales) Regulations 2006, the Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) Regulations 2006, the Education (Fees and Awards) (Amendment) (Wales) Regulations 2006 and the Education (School Inspection) (Wales) Regulations 2006.

**Y Llywydd:** A oes gwrthwynebiadau i'r datganiad busnes? Gwelaf nad oes. A oes sylwadau?

**Helen Mary Jones:** I thank the Business Minister for agreeing to some of our requests. However, I press her further with regard to some other issues. She was asked about a Government statement on the future of the Institute of Grassland and Environmental Research, with regard to the liquid natural gas pipeline and the compulsory purchase issues. We would also still like to hear more from the Government on the issues that have already been raised in questions with regard to Llandough Hospital.

However, we are content to support the business statement today, and very much welcome the fact that the Government seems to be a little more flexible about being scrutinised on health and social care. We look forward to the Minister responding more positively to the other requests that I mentioned, to which she has not yet felt able to accede.

**Lisa Francis:** I reiterate the last speaker's

ddyddiad trafod wedi'i dderbyn yr wythnos diwethaf. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad drafft, a ddylai fod ar gael i'r Aelodau ar yr agenda, ac yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma, penderfynwyd nad oes angen cyfeirio'r eitemau a ganlyn o is-ddeddfwriaeth at bwyllgor pwnc i'w hystyried ymhellach: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2006, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006, Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) (Diwygio) 2006, Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2006, Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2006, Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Diwygio) (Cymru) 2006 a Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006.

**The Presiding Officer:** Are there any objections to the business statement? I see that there are none. Are there any comments?

**Helen Mary Jones:** Yr wyf yn diolch i'r Trefnydd am dderbyn rhai o'n ceisiadau. Fodd bynnag, pwysaf arni ymhellach mewn cysylltiad â rhai materion eraill. Fe'i holwyd ynghylch cael datganiad gan y Llywodraeth am ddyfodol Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd, mewn cysylltiad â'r biblinell ar gyfer nwy naturiol hylifedig a materion sydd yn ymwneud â phrynu gorfodol. Byddem yn dal i hoffi clywed rhagor gan y Llywodraeth hefyd am y materion sydd eisoes wedi'u codi mewn cwestiynau mewn cysylltiad ag Ysbyty Llandochau.

Fodd bynnag, yr ydym yn fodlon cefnogi'r datganiad busnes heddiw, ac yn croesawu o ddifrif y ffaith bod y Llywodraeth yn ymddangos fel petai ychydig yn fwy hyblyg ynglŷn â chraffu arni ynghylch iechyd a gofal cymdeithasol. Edrychwn ymlaen at weld y Gweinidog yn ymateb yn fwy cadarnhaol i'r ceisiadau eraill y soniais amdanynt, ac nad yw eto wedi teimlo hyd yma y gall gydsynio â hwy.

**Lisa Francis:** Hoffwn ategu sylwadau'r



comments about requiring a statement on IGER, as that is very important. We are grateful for the Government's recognition of the need to have debates on the ambulance service in Wales and on road safety in its own time. While appreciating the time constraints, it is disappointing that we will now have to wait for the next session for that to happen.

It is disappointing that there cannot be any further clarity regarding the action that the patients who were affected by the health worker who was infected with hepatitis C in Gwynedd need to take, other than the written statement that we received last week. One expert has been critical of the fact that patients have no trusted contact to turn to in this situation and that there is a lack of advice pertaining, for example, to what they need to do should they require emergency dental treatment.

An oral statement on the potential reopening of the A5 would not have hurt, Minister. North Wales Members in our group—and I am sure in other groups as well, including your own—have been inundated with inquiries from constituents who still appear to be receiving mixed messages on this important problem, especially as the summer tourism season is now well and truly upon us.

**Peter Black:** We also welcome the fact that the Minister has acceded to the request for a debate on the ambulance services, and we also welcome the debate to be scheduled on road safety; they are both valuable and useful debates for the Assembly to have. I am also particularly pleased that the Minister has agreed to schedule time for an oral statement on NHS funding deficits once the end-of-year outturn figures are confirmed. That is helpful and is one of the reasons why we are happy to support the business statement this time.

I reiterate the comments made in relation to IGER. It is important that the Assembly Government does not just wash its hands of this issue and pretend that it is a matter for the Department for Environment, Food and

siaradwr diwethaf ynghylch bod angen cael datganiad am IGER, gan fod hynny'n bwysig iawn. Yr ydym yn ddiolchgar i'r Llywodraeth am gydnabod bod angen cynnal dadleuon am y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru ac am ddiogelwch y ffyrdd yn ei hamser ei hun. Er fy mod yn sylweddoli bod amser yn brin, mae'n siomedig y bydd yn rhaid inni aros tan y sesiwn nesaf i hynny ddigwydd.

Mae'n siomedig na ellir cael mwy o eglurder ynghylch y camau y mae angen i'r cleifion yr effeithiwyd arnynt gan y gweithiwr iechyd o Wynedd a gafodd hepatitis C eu cymryd, ar wahân i'r datganiad ysgrifenedig a gawsom yr wythnos diwethaf. Mae un arbenigwr wedi beirniadu'r ffaith nad oes gan gleifion neb sy'n gyswllt y gallant ymddiried ynddo i droi ato yn y sefyllfa hon a bod diffyg cyngor, er enghraifft, am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud os bydd angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt.

Ni fyddai datganiad llafar am y posibilrwydd o ailagor yr A5 wedi bod yn ddrwg o beth, Weinidog. Mae Aelodau Gogledd Cymru yn ein grŵp ni—ac mewn grwpiau eraill hefyd yr wyf yn siŵr, gan gynnwys eich un chi—wedi derbyn llif o ymholiadau gan etholwyr sydd, i bob golwg, yn dal i gael negeseuon cymysg am y broblem bwysig hon, yn enwedig gan fod tymor twristiaeth yr haf ar ein gwarthaf erbyn hyn.

**Peter Black:** Yr ydym ninnau hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi cydsynio â'r cais am ddadl am y gwasanaethau ambiwlans, ac yn croesawu hefyd y ddadl sydd i'w chynnal am ddiogelwch y ffyrdd; mae'r ddwy yn ddadleuon gwerthfawr a defnyddiol i'r Cynulliad eu cael. Yr wyf hefyd yn arbennig o falch bod y Gweinidog wedi cytuno i drefnu amser ar gyfer datganiad llafar am ddiffygion cyllid y GIG wedi i'r ffigurau terfynol ar ddiwedd y flwyddyn gael eu cadarnhau. Bydd o fudd mawr ac mae'n un o'r rhesymau pam yr ydym yn fodlon cefnogi'r datganiad busnes y tro hwn.

Hoffwn ategu'r sylwadau a wnaed yng nghyswllt IGER. Mae'n bwysig nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn golchi ei dwylo o hyn ac yn cymryd arni mai mater i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Rural Affairs. There are clear ways in which the Assembly Government can work with DEFRA and with higher education institutions, for example, to try to secure the future funding of this institution. I hope that the Minister will take those concerns on board, and at least allow a statement in the Chamber, so that we can question the Minister and press the case on that issue.

I also ask again that we have an oral statement on fuel poverty, which was raised in the First Minister's questions earlier on. There is concern about whether the Assembly Government will meet its target to eradicate fuel poverty in Wales by 2010. It is important that we are able to question the Minister on this issue and get her take on those particular figures.

**Jane Hutt:** Thank you very much for supporting the business statement. Indeed, it was a pat on the back from Helen Mary this afternoon. I know that you have supported it because I have acceded to many of the requests, which are important, in terms of debates. I will handle the issues that you have all raised, IGER being the key one. This is a matter for DEFRA. The Minister for Environment, Planning and Countryside will update the committee on a regular basis on IGER's position, but the responsibility rests with the Department for Environment, Food and Rural Affairs.

In addition, in terms of updating and good news, the A5 will be reopened on Friday, and I am sure that you are pleased that the Minister has fully updated the Assembly on this position, and fully answered the points raised in questions last week. The Minister will issue a written statement tomorrow.

Another point that was raised by Helen Mary was about the important new orthopaedic unit at Llandough Hospital. This has been given capital investment of £5.93 million and a £2.5 million recurring revenue grant from the Welsh Assembly Government. The first patients were seen at the outpatient department on 30 May, and the trust intends that the building will be fully commissioned at the end of the year. Therefore, I have

ydwy. Mae ffyrdd amlwg y gall Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda DEFRA a chyda sefydliadau addysg uwch, er enghraifft, i geisio dod o hyd i gyllid ar gyfer y sefydliad hwn i'r dyfodol. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried y pryderon hynny, ac o leiaf yn caniatáu datganiad yn y Siambr, fel y gallwn holi'r Gweinidog a phwyso arni i ystyried y mater.

Gofynnaf eto am ddatganiad llafar ynghylch tloidi tanwydd, a godwyd yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog yn gynharach. Mae pryder ynghylch a fydd Llywodraeth y Cynulliad yn gallu cyrraedd ei tharged i ddileu tloidi tanwydd yng Nghymru erbyn 2010. Mae'n bwysig ein bod yn gallu holi'r Gweinidog ar y mater hwn a chael ei safbwynt hi ar y ffigurau arbennig hynny.

**Jane Hutt:** Diolch yn fawr iawn am gefnogi'r datganiad busnes. Yn wir, yr oedd yn gryn ganmoliaeth gan Helen Mary y prynhawn yma. Gwn eich bod wedi ei gefnogi oherwydd fy mod wedi derbyn llawer o'r ceisiadau, sy'n bwysig, o ran dadleuon. Ymdriniaf â'r materion y gwnaethoch eu codi, ac IGER oedd yr un mwyaf. Mater i DEFRA yw hyn. Bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor yn rheolaidd ar sefyllfa IGER, ond cyfrifoldeb yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ydyw.

Yn ogystal, o ran diweddarau a newyddion da, bydd yr A5 yn ailagor ddydd Gwener, ac yr wyf yn siŵr eich bod yn falch bod y Gweinidog wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad yn llawn ar y sefyllfa hon, ac wedi ateb y pwyntiau a godwyd mewn cwestiynau yr wythnos diwethaf yn llawn. Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yfory.

Pwynt arall a godwyd gan Helen Mary oedd yr un am yr uned orthopedig newydd a phwysig yn Ysbyty Llandochau. Mae wedi derbyn buddsoddiad cyfalaf o £5.93 miliwn a grant refeniw cylchol o £2.5 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad. Cafodd y cleifion cyntaf eu gweld yn yr adran cleifion allanol ar 30 Mai, ac mae'r ymddiriedolaeth yn disgwyl y bydd yr adeilad wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Felly, mae gennyf

added good news to my business statement, Llywydd, and I am glad that it is being supported today.

newyddion da ar ben fy natganiad busnes, Lywydd, ac yr wyf yn falch ei fod yn cael ei gefnogi heddiw.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.  
Business statement adopted.*

3.20 p.m.

**Datganiad gan Jane Hutt, y Gweinidog â Chyfrifoldeb dros Gyfle Cyfartal—  
Iaith Arwyddion Prydain  
Statement by Jane Hutt, Minister with Responsibility for Equal Opportunities—  
British Sign Language**

**The Business Minister (Jane Hutt):** Before I give my statement this afternoon, may I say how pleased I am to see BSL interpretation in our new Chamber for the first time? It is a welcome development on which you, the House Committee and your staff should be congratulated. I would also like to welcome those deaf people who have taken the opportunity to join us in the public gallery this afternoon.

British Sign Language is a visual, spatial language that uses movement of the hands, body, face and head; it has its own grammar, syntax, idioms and regional variations. As the first or preferred language of approximately 3,000 people in Wales, the Welsh Assembly Government recognises BSL as a language in its own right. Citizens who use BSL have varied degrees of access to the majority languages of our wider communities. Reading, writing or lip-reading a second, spoken language, such as Welsh or English, in which they may have limited literacy, often leaves those citizens with poor access to information.

Professional interpreters are essential in facilitating effective interaction and information exchange between those who use only spoken languages and BSL users. The availability of interpreters has a direct impact on social inclusion and access to services for citizens who use BSL. When interpreters are unavailable, serious problems are caused for individuals. There are recorded cases of where BSL users have faced severe difficulties in reporting crimes and have had to communicate with health staff in

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cyn imi wneud fy natganiad y prynhawn yma, a allaf ddweud pa mor falch yr wyf o weld dehongli drwy Iaith Arwyddion Prydain yn ein Siambr newydd am y tro cyntaf? Mae'n ddatblygiad i'w groesawu ac yn un y dylid eich llongyfarch chi, Pwyllgor y Tŷ a'ch staff arno. Hoffwn hefyd groesawu'r bobl fyddar hynny sydd wedi achub ar y cyfle i ymuno â ni yn yr oriel gyhoeddus y prynhawn yma.

Mae Iaith Arwyddion Prydain yn iaith weledol a gofodol sy'n defnyddio symudiadau'r dwylo, y corff, yr wyneb a'r pen; mae ganddi ei gramadeg, ei chystrawen, ei hidiomau a'i hamrywiadau rhanbarthol ei hun. Fel iaith gyntaf neu iaith ddewisol tua 3,000 o bobl yng Nghymru, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod BSL fel iaith ynddi ei hun. Mae gan ddinasyddion sy'n defnyddio BSL wahanol lefelau o fynediad at ieithoedd mwyafrifol ein cymunedau ehangach. Mae darllen, ysgrifennu neu ddarllen gwefusau ail iaith lafar, fel Cymraeg neu Saesneg, ac efallai fod eu llythrennedd yn y rhain yn gyfyngedig, yn aml yn golygu bod mynediad y dinasyddion hynny at wybodaeth yn wael.

Mae dehonglwyr proffesiynol yn hanfodol i hwyluso rhyngweithio a chyfnewid gwybodaeth yn effeithiol rhwng y rhai nad ydynt ond yn defnyddio ieithoedd llafar, a defnyddwyr BSL. Mae'r ffaith bod dehonglwyr wrth law yn cael effaith uniongyrchol ar gynhwysiant cymdeithasol a mynediad at wasanaethau i ddinasyddion sy'n defnyddio BSL. Pan na fydd dehonglwyr ar gael, achosir problemau difrifol i unigolion. Cofnodwyd achosion lle y mae defnyddwyr BSL wedi wynebu

inappropriate and undignified situations. Lack of availability often means that citizens who use BSL have to wait weeks to secure an interpreter to see their GP, to discuss their child's education with a teacher or to question a neighbour's planning application. In these situations, BSL users are often asked to bring a friend to interpret for them, to cope by lip-reading or to use pen and paper to communicate in a second language. Each of these leads to a poorer quality of information and, therefore, has the effect of disempowering the service user.

A Cabinet task and finish group, established by my colleague, the Minister for Social Justice and Regeneration, in June 2004 and chaired by Karen Sinclair AM, investigated BSL interpreter services in Wales. The group found that, compared with other European countries, the number of appropriately qualified BSL-to-spoken-language interpreters in Wales is poor, and it concluded that that has a detrimental effect on access to services and social inclusion for our BSL-using citizens. The group's report recommended that the Assembly Government take action to increase, from 12 to 64, the number of BSL-to-spoken-language interpreters available in Wales, so that access here would compare favourably with that in other European countries. As initial action to help to achieve that aim, the group recommended that the Assembly Government should establish a British Sign Language apprentice interpreter scheme that would take advantage of interpreter training models developed in Wales with Communities First and European social fund money. It recommended that the Government should issue guidance to promote good practice on the provision of BSL interpreters to public services in Wales and seek to become an exemplar organisation in the provision of BSL interpreter services. We stated in 'Making the Connections' that,

'All public bodies in Wales should...develop the capability to...communicate effectively in

anawsterau difrifol wrth roi gwybod am droseddau ac wedi gorfod cyfathrebu â staff iechyd mewn sefyllfaoedd amhriodol a diurddas. Mae prinder dehonglwyr yn golygu bod yn rhaid i ddinasyddion sy'n defnyddio BSL aros am wythnosau weithiau i gael dehonglydd i weld eu meddyg teulu, i drafod addysg eu plentyn gydag athro neu i gwestiynu cais cynllunio eu cymydog. Yn aml yn y sefyllfaoedd hyn, gofynnir i ddefnyddwyr BSL ddod â ffrind i ddehongli drostynt, ymdopi drwy ddarllen gwefusau neu ddefnyddio pin a phapur i gyfathrebu mewn ail iaith. Yn y pen draw, mae pob un o'r rhain yn golygu gwybodaeth o ansawdd gwaelach ac, felly, yn dadrymuso'r defnyddiwr gwasanaeth.

Ymchwiliodd grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd gan fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ym Mehefin 2004, ac a gadeiriwyd gan Karen Sinclair AS, i wasanaethau dehonglwyr BSL yng Nghymru. Un o ddarganfyddiadau'r grŵp oedd bod nifer y dehonglwyr BSL i iaith lafar sydd â'r cymhwyster priodol yng Nghymru yn bur isel, o gymharu'n sefyllfa â gwledydd eraill yn Ewrop, a daeth i'r casgliad bod hyn yn cael effaith andwyol ar fynediad at wasanaethau ac ar gynhwysiant cymdeithasol i ddinasyddion sy'n defnyddio BSL. Argymhellodd adroddiad y grŵp fod Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu i gynyddu, o 12 i 64, nifer y dehonglwyr BSL i iaith lafar cymwysedig sydd ar gael yng Nghymru, fel bod mynediad yma'n cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa mewn gwledydd Ewropeaidd eraill. Fel cam cyntaf i helpu i gyflawni hyn, argymhellodd y grŵp fod Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu cynllun prentisiaeth i ddehonglwyr BSL a fyddai'n manteisio ar y modelau hyfforddi dehonglwyr sydd wedi eu datblygu yng Nghymru gyda chyllid Cymunedau yn Gyntaf a chronfa gymdeithasol Ewrop. Argymhellodd y dylai'r Llywodraeth gyhoeddi canllawiau i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar hybu arferion da ynghylch darparu dehonglwyr BSL, ac arwain drwy esiampl gyda darparu gwasanaethau dehonglwyr BSL. Dywedasant yn 'Creu'r Cysylltiadau' y, Dylai pob corff cyhoeddus yng Nghymru...ddatblygu'r gallu i...gyfathrebu'n

English, Welsh and other languages of the communities they serve’.

To ensure that this commitment and our duties under the Government of Wales Act 1998 and the Disability Discrimination Act 1995 can be met in respect of citizens who use BSL, the Assembly Government has taken positive steps to implement the task and finish group’s recommendations.

In February, I announced an Assembly Government commitment of £1.6 million of funding for BSL Futures—the future British Sign Language apprentice interpreter scheme for Wales. Last year, I asked a wide range of stakeholder organisations to form a partnership to develop and run a scheme to train at least 30 BSL-to-spoken-language interpreters. That partnership, led by the Association of Sign Language Interpreters, Deaf Association Wales and RNID Cymru, has already secured over £1.1 million of match funding from the European social fund, against the Assembly Government commitment. The first 10 apprentices are already in post and have started their training. BSL Futures is the first scheme of its kind in the UK. It will provide each apprentice interpreter with an individually tailored training programme that will result in their registration as freelance professional interpreters. The scheme will also invest in Wales’s capacity to teach BSL by training more tutors to teach BSL at the highest levels, by developing BSL course provision in colleges across Wales and a postgraduate course in BSL-to-spoken-language interpreting, and by supporting public service providers in Wales to develop the capacity to deliver services in BSL.

On issuing guidance to promote good practice and providing BSL interpreters to public bodies, I can announce that we are publishing for consultation draft advice for public services on delivering services in BSL. This is the first consultation to be fully accessible to those citizens who use BSL, and it will be published in Welsh, English and

effeithiol yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ieithoedd eraill y gymuned y maent yn ei gwasanaethu.

I sicrhau y gellir cyflawni’r ymrwymiad hwn a’n dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 o ran dinasyddion sy’n defnyddio BSL, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd camau cadarnhaol i weithredu argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen.

Ym mis Chwefror, cyhoeddais ymrwymiad cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad o £1.6 miliwn ar gyfer cynllun BSL Futures—y cynllun prentisiaeth i ddehonglwywr BSL ar gyfer y dyfodol yng Nghymru. Y llynedd, gofynnais i ystod eang o sefydliadau sy’n rhanddeiliaid sefydlu partneriaeth i ddatblygu a chynnal cynllun i hyfforddi o leiaf 30 o ddehonglwywr BSL i iaith lafar. Mae’r bartneriaeth honno, sy’n cael ei harwain gan Gymdeithas Dehonglwywr Iaith Arwyddion, Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru ac RNID Cymru, eisoes wedi sicrhau dros £1.1 miliwn o gyllid cyfatebol gan gronfa gymdeithasol Ewrop, yn erbyn ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad. Mae’r 10 prentis cyntaf wrth eu gwaith eisoes ac wedi dechrau eu hyfforddiant. Cynllun BSL Futures yw’r cyntaf o’i fath yn y DU. Bydd yn darparu rhaglen hyfforddiant wedi’i haddasu’n bwrpasol i bob prentis o ddehonglydd a fydd o ganlyniad yn cofrestru fel dehonglwywr proffesiynol ar eu liwt eu hunain. Bydd y cynllun hefyd yn buddsoddi yng nghapasiti Cymru i ddysgu BSL drwy hyfforddi mwy o diwtoriaid i ddysgu BSL ar y lefelau uchaf, drwy ddatblygu darpariaeth cyrsiau BSL mewn colegau ar draws Cymru ynghyd â chwrs ôl-raddedig mewn dehongli BSL i iaith lafar a thrwy gefnogi darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu’r capasiti i ddarparu gwasanaethau mewn BSL.

Ynghylch cyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus ar hybu arferion da a darparu dehonglwywr BSL, gallaf ddweud ein bod yn cyhoeddi cyngor drafft, ar gyfer ymgynghori, i wasanaethau cyhoeddus ar ddarparu gwasanaethau mewn BSL. Hwn yw’r ymgynghoriad cyntaf y mae’r dinasyddion hynny sy’n defnyddio BSL yn gallu cael

BSL. The consultation will take place over an extended period, and we will accept responses submitted in BSL to ensure that we have the greatest possible response rate.

On becoming an exemplar in the provision of services through BSL interpreters, I can also announce that the Assembly Government has appointed an agency to supply interpreters. This follows an open tendering process and it will enable staff to make all aspects of interaction with the Assembly Government accessible to BSL users. Information on how to use the services associated with this has been made available to staff. Therefore, this is significant progress in implementing the recommendations of the task and finish group that will have tangible, positive effects on social inclusion and access to services for BSL-using citizens across Wales. My thanks go to my Cabinet colleagues for their recognition of the impact that this initiative has across portfolios and their support for BSL Futures. I also thank the stakeholder organisations and delivery partners for their commitment to making BSL Futures a success. Not least, I thank Karen Sinclair for chairing the group overseeing this work. Social inclusion and accessible services for BSL users are enormously important equality issues. This initiative will make a real difference. It is just one of the innovative ways in which the Welsh Assembly Government is tackling social inequality in Wales.

**Karen Sinclair:** I welcome the Minister's statement. The project to increase the number of British Sign Language interpreters in Wales has come a long way in the last two years. We look to significant increases in the number of qualified interpreters, from 12 to 64 by 2009, which will take us up to the European average, after we had been trailing at the back.

As the chair of the task and finish group that first looked at this issue, I was struck at the

mynediad llawn ato, ac fe'i cyhoeddir yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn Iaith Arwyddion Prydain. Cynhelir yr ymgynghoriad dros gyfnod estynedig, a byddwn yn derbyn ymatebion a gyflwynir mewn BSL i sicrhau ein bod yn denu'r nifer fwyaf posibl o ymatebion.

Ynghylch dangos esiampl gyda darparu gwasanaethau drwy ddehonglwyr BSL, gallaf hefyd gyhoeddi bod Llywodraeth y Cynulliad wedi penodi asiantaeth i gyflenwi dehonglwyr. Mae hyn yn dilyn proses dendro agored fel bod staff yn gallu sicrhau bod pob agwedd ar ryngweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad ar gael i ddefnyddwyr BSL. Mae gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â hyn wedi ei rhoi i staff. Felly, mae hwn yn gam mawr ymlaen gyda gweithredu argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen a bydd yn cael effaith weladwy a chadarnhaol ar gynhwysiant cymdeithasol a mynediad at wasanaethau i ddinasyddion sy'n defnyddio BSL ledled Cymru. Hoffwn ddiolch i'm cyd-Aelodau yn y Cabinet am gydnabod yr effaith y mae'r fenter hon yn ei chael ar draws y portffolios ac am gefnogi cynllun BSL Futures. Yr wyf yn diolch hefyd i'r sefydliadau sy'n rhanddeiliaid a'r partneriaid wrth weithredu hyn am eu hymrwymiad i sicrhau bod BSL Futures yn llwyddiant. Yn anad dim, hoffwn ddiolch i Karen Sinclair am gadeirio'r grŵp sy'n goruchwyllo'r gwaith hwn. Mae cynhwysiant cymdeithasol a gwasanaethau hygyrch i ddefnyddwyr BSL yn faterion eithriadol bwysig o ran cydraddoldeb. Bydd y fenter hon yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Dim ond un o'r ffyrdd arloesol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol yng Nghymru ydyw.

**Karen Sinclair:** Croesawaf ddatganiad y Gweinidog. Mae'r prosiect i gynyddu nifer y dehonglwyr BSL yng Nghymru wedi camu'n fras yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Ein nod yw gweld cynnydd sylweddol yn nifer y dehonglwyr cymwysedig, o 12 i 64 erbyn 2009, a fydd yn peri ein bod yn cyrraedd y cyfartaledd yn Ewrop, a ninnau wedi bod gymaint ar ei hôl hi.

Fel cadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen a edrychodd ar y mater hwn gyntaf,

outset by the gross unfairness of deaf sign language users being made to wait weeks for an interpreter so that they can communicate with their child's teacher or do the things that we take for granted. The BSL Futures scheme, backed and run by key stakeholders, has already recruited 10 interpreters, with another two rounds of recruitment to come. This will go an awfully long way towards rectifying the injustice of an overstretched interpreter service that was previously unable to meet the needs of the deaf community, and thereby cruelly restricting the lives of so many deaf people. We can never know, as hearing people, just how awful that is.

gwnaethpwyd argraff arnaf ar y dechrau gan yr annhegwch mawr bod defnyddwyr iaith arwyddion i'r byddar yn gorfod aros am wythnosau am ddehonglydd er mwyn iddynt allu cyfathrebu ag athro eu plentyn neu wneud pethau yr ydym ni yn eu cymryd yn ganiataol. Mae cynllun BSL Futures, sy'n cael ei gefnogi a'i redeg gan randdeiliaid allweddol, eisoes wedi recriwtio 10 o ddehonglwyr, gyda dwy rownd arall o recriwtio i ddod. Bydd hyn yn gwneud llawer iawn i unioni anghyfiawnder y sefyllfa lle'r oedd gwasanaeth dehongli a oedd yn ei chael yn anodd dod i ben â'i waith yn methu ag ateb anghenion y gymuned fyddar, ac o'r herwydd yr oedd bywyd cynifer o bobl fyddar yn cael ei gyfyngu mewn modd creulon. Ni allwn ni, bobl sy'n clywed, byth ddeall pa mor ofnadwy yw hynny.

Minister, do you agree that the progress outlined, particularly the consultation on delivering our services in British Sign Language, ensures that we are extending opportunities to the deaf community and reinforcing the Labour Assembly Government's commitment to social justice in all our communities, and ensuring that nobody is disadvantaged or prevented from achieving his or her full potential?

Weinidog, a ydych yn cytuno bod y cynnydd y soniwyd amdano, yn enwedig yr ymgynghori ar ddarparu ein gwasanaethau yn iaith Arwyddion Prydain, yn sicrhau ein bod yn ehangu cyfleoedd i'r gymuned fyddar ac yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i gyfiawnder cymdeithasol yn ein holl gymunedau, gan sicrhau ar yr un pryd nad oes neb dan anfantais nac yn cael ei atal rhag cyflawni ei botensial yn llawn?

**Jane Hutt:** Tributes have been paid to you, and I know that you are continuing to monitor and take this issue forward in terms of BSL Futures. Thank you for your welcome and recognition—yes, going from 12 interpreters to 64 does take us up to the European average, and we have had an overstretched, restricted and unequal service. I draw attention again to the point about consultation: it is key that we reach out in terms of consultation to get our advice and guidance right, and we aim to consult with a wide cross-section of society. We want to capture a diverse range of views. We are particularly interested, of course, in the citizens who use BSL, but we must also reach out to the public sector and public service providers to which the Assembly Government provides funding, as well as organisations representing BSL user and their interests, and language service professionals who are working as BSL-to-spoken-language interpreters. That means that the consultation will reach out to an extended list for an

**Jane Hutt:** Talwyd teyrngedau ichi, a gwn eich bod yn parhau i fonitro ac i fwrw ymlaen â'r mater hwn drwy gynllun BSL Futures. Diolch ichi am eich croeso a'ch cydnabyddiaeth—ydyw, mae cynyddu nifer y dehonglwyr o 12 i 64 yn ein codi hyd at lefel gyfartalog Ewrop, ac mae'r gwasanaeth wedi bod dan bwysau, yn gyfyngedig ac yn anghyfartal. Tynnaf sylw eto at y pwynt ynghylch ymgynghori: mae'n hollbwysig inni estyn allan drwy ymgynghori i sicrhau bod ein cyngor a'n canllawiau yn gywir, a bwriadwn ymgynghori â thrawstoriad eang o'r gymdeithas. Yr ydym am gael ystod barn amrywiol. Mae gennym ddiddordeb arbennig, wrth gwrs, yn y dinasyddion sy'n defnyddio BSL, ond rhaid inni hefyd estyn allan at y sector cyhoeddus a'r darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a gyllidir gan Lywodraeth y Cynulliad, yn ogystal ag at gyrff sy'n cynrychioli defnyddwyr BSL a'u buddiannau, ac at weithwyr iaith proffesiynol sy'n gweithio fel dehonglwyr BSL i iaith lafar. Mae hynny'n golygu y bydd yr

extended time. In fact, we want to go over to 16 weeks, and the Minister for Social Justice and Regeneration will be pleased that we are going beyond 12 weeks, to 16 weeks, because we really want to get this right. It is unique in ensuring that this is published in Welsh, English and BSL, so it is a real opportunity, and the website and all the technological connections can be made.

ymgyngoriad yn estyn allan at restr estynedig am gyfnod estynedig. Yn wir, yr ydym am ei gynnal am 16 wythnos, a bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn falch ein bod am ei gynnal am fwy na 12 wythnos, hyd at 16 wythnos, am ein bod o ddifrif am sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn iawn. Y mae'n unigryw o ran sicrhau bod hyn yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn Iaith Arwyddion Prydain, felly mae'n gyfle gwirioneddol, ac mae modd gwneud y wefan a'r holl gysylltiadau technolegol.

3.30 p.m.

**David Lloyd:** Yr wyf yn croesawu datganiad y Gweinidog. Mae'n hirddisgwylidig ymysg y gymuned drwm ei chlyw. Fel y cyfeiriodd y Gweinidog ato, gwelwn fod capasiti yn y Cynulliad i gyfieithu i iaith arall, ac nid dim ond i'r Gymraeg gan y byddwn yn gallu cyfieithu i Iaith Arwyddion Prydain hefyd. Yr wyf yn falch o allu cefnogi'r datblygiad— yn bersonol ac fel aelod o'r grŵp ambleidiol ar faterion byddardod. I ychwanegu at y cefndir, nid dyma'r unig ffordd o gyfathrebu sydd gan bobl drwm eu clyw yng Nghymru, ac mae angen ehangu pob darpariaeth, ond rhaid dechrau yn rhywle. Ar ôl aros yn ddigon hir, dyma ddiwrnod hanesyddol i'w groesawu.

**David Lloyd:** I welcome the Minister's statement, which has been long awaited by the hard-of-hearing community. As the Minister mentioned, we see that the Assembly now has the capacity to interpret in another language, not just Welsh, because we will also interpret British Sign Language. Therefore, I am pleased to be able to support the development—both personally and as a member of the cross-party group on deaf issues. To add to the background, this is not the only way in which the hard of hearing can communicate and so we must expand all provision, but we must start somewhere. Having waited for a long time, this is an historic day to be welcomed.

Mae popeth yn dibynnu ar drefniant ac adnoddau yn y pen draw. Er mwyn i'r adnodd o gyfieithu i Iaith Arwyddion Prydain fod yn hawdd cael gafael arno, heb i'r sawl sy'n fyddar neu'n drwm ei glyw orfod gwneud ffordd i gael gafael arno, nid ydym am gael rhywbeth sy'n symbolaidd yn unig; yr ydym am gael darpariaeth sy'n hawdd ei chael ac yn eang. Bydd hyn yn golygu adnoddau, ac mae'r Gweinidog yn ei datganiad yn olrhain yr adnoddau y bydd arnom eu hangen, oherwydd, fel y crybwyllwyd eisoes, mae angen mwy o bobl sydd â'r gallu i gyfieithu Iaith Arwyddion Prydain, ond gwnaed dechreuad sylweddol. Atef y diolchiadau i Karen Sinclair, yn arbennig, ac i'r Gweinidog, sydd wedi galluogi'r gwaith i ddigwydd. Yn ogystal ag adnoddau, bydd hefyd angen newid sylweddol yn agwedd cymdeithas i wireddu'r dyhead o hybu argaeledd Iaith Arwyddion Prydain lawer yn ehangach nag ar hyn o

At the end of the day, it all comes down to organisation and resources. For this resource of interpreting British Sign Language to be accessible, without those who are deaf or hard of hearing having to make a fuss in order to access it, we do not want something that is merely tokenistic; we want accessible provision that is widely available. That will have resource implications, and the Minister outlined in her statement what the required resources would be, because, as has been noted, we need more people who are able to interpret British Sign Language. However, we have made a significant start. I echo the thanks given to Karen Sinclair, in particular, and to the Minister, who have enabled this work to take place. As well as resources, a substantial shift in social attitudes will also be needed if we are to realise the aspiration of promoting the availability of British Sign Language far more widely than is currently the case. In many ways, that means having



bryd. Mewn sawl ffordd, mae'n golygu'r gallu i gyfieithu iaith swyddogol newydd yn y Cynulliad.

the ability to interpret a new official language in the Assembly.

Yn dilyn y datganiad, sut y bydd y Gweinidog yn parhau i hyrwyddo datblygiad a defnydd eang o gyfieithu ar gyfer pobl drwm eu clyw drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain a datblygiadau tebyg yn yr hirdymor? Mae'r datganiad yn sôn am yr arian sydd ar gael ar hyn o bryd, ond bydd yn golygu newid a darpariaeth sylweddol dros rai blynyddoedd. Hoffwn glywed mwy am y ddarpariaeth a'r gefnogaeth hirdymor y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu darparu ar gyfer y trefniant hwn. Nid rhywbeth dros dro mohoni ac nid yw'n hanesyddol dim ond am heddiw; dylai fod yn ddarpariaeth hirdymor, ac yr ydym am weld ehangu arni, sy'n her sylweddol. Gwelsom hynny o ran cyfieithu o'r Gymraeg. Yr oedd hynny'n ddigon simsan ar y dechrau a bu raid gwneud ffwddan fawr i gael y ddarpariaeth honno hefyd ond, bellach, mae'n hollol naturiol yn y Cynulliad, a dyna hefyd yr hoffwn ei weld ar gyfer darpariaeth iaith Arwyddion Prydain. A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd yn hynny o beth?

On the back of her statement, how does the Minister intend to continue to promote the development and wider use of interpretation for the hard of hearing through the use of British Sign Language and similar developments in the long term? The statement mentioned the funding currently available, but this will mean substantial change and provision for some years. I would like to hear more about the long-term provision and support that the Minister intends to provide for this arrangement. It is not something temporary, or something that is historic for today only; there should be long-term provision, and we want to see that expanded upon, which is a considerable challenge. We saw as much with translating from Welsh. That was relatively shaky at the start, and a huge fuss had to be made to get that provision, but now, it feels totally natural in the Assembly, and that is what we also want to see for BSL provision. Will the Minister give an assurance in that regard?

**Jane Hutt:** Diolch am gefnogi'r datganiad heddiw.

**Jane Hutt:** Thank you for supporting the statement today.

We pay tribute to the all-party group, because it worked tirelessly with Karen Sinclair to take these recommendations forward. Your points about organisations and resources are key. I have drawn attention to the £1.6 million invested by the Welsh Assembly Government—and I paid tribute to my Cabinet colleagues for that, as it was a truly cross-cutting contribution, involving economic, social and educational investments in what we deliver for the outcomes—as well as the match funding of £1.1 million received from the European social fund.

Yr ydym yn talu teyrnged i'r grŵp ambleidiol, gan iddo weithio'n ddiflino gyda Karen Sinclair i gyflwyno'r argymhellion hyn. Mae eich pwyntiau ynghylch trefniadaethau ac adnoddau'n allweddol. Tynnais sylw at yr £1.6 miliwn a fuddsoddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru—a thelais deyrnged i'm cyd-Weinidogion yn y Cabinet am hynny, gan ei fod yn gyfraniad a oedd yn wir yn torri ar draws meysydd, a oedd yn cynnwys buddsoddiadau economaidd, cymdeithasol ac addysgiadol yn yr hyn yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer y canlyniadau—yn ogystal â'r cyllid cyfatebol o £1.1 miliwn a dderbyniwyd o gronfa gymdeithasol Ewrop.

Taking this forward, we recognise that it is about training more tutors and developing more course provision in colleges across Wales. I know that Barry College and Coleg Llandrillo Cymru have been taking the lead

I fwrw ymlaen â hyn, yr ydym yn cydnabod ei fod yn fater o hyfforddi rhagor o diwtoriaid a datblygu rhagor o ddarpariaeth o ran cyrsiau mewn colegau ledled Cymru. Gwn fod Coleg y Barri a Choleg Llandrillo Cymru

in this respect, and that can spread. There is a business incentive for colleges and for the private and public sector to get this right in terms of BSL Futures and we need to extend into postgraduate courses. We know that if we believe in improving our public services and in ensuring quality access to services—and, as you rightly say, accessibility, not tokenism, is key—that is the way to deliver the ‘Making the Connections’ agenda that we are pioneering in the Assembly. It is our responsibility to be an exemplar, and not just here in the Chamber. I hope that we will be able to see more of this interpretation here and that we will discuss that in the House Committee, as well as in the Assembly Government’s arrangements.

As I said in my statement, I am glad that all aspects of interaction with the Assembly Government should become accessible to BSL users. We have to be at the forefront and that means changing awareness. As you say, it requires a change of attitude to support a new official language.

**Ann Jones:** As chair of the all-party group on deaf issues, I welcome this statement, and the way in which Karen Sinclair chaired the task and finish group. I know that many members of the all-party group will echo that sentiment. I will press you a little further on the statement and on the report’s recommendations.

What guidance will we issue on the provision of BSL interpreters to promote good practices in our Assembly-sponsored public bodies, local government, the NHS and the voluntary sector, and how can we publish more guidance so that people who have to use BSL can feel that they can use that system in the same way as you and I would enter into any discussions with doctors, GPs, the police or other essential services? It is important that the good practice is put into the public sector and that we also move from the public sector into the private sector, so that our good example is shared across Wales for the benefit of all those who are hard of hearing.

wedi arwain yn hyn o beth, a gall hynny ledaenu. Mae cymhelliad busnes i golegau ac i’r sectorau preifat a chyhoeddus sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn iawn o ran BSL Futures a rhaid inni ehangu i gyrsiau ôl-raddedig. Gwyddom, os ydym yn credu mewn gwella ein gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau mynediad o safon at wasanaethau—ac, fel y dywedwch yn hollol gywir, yr hyn sy’n allweddol yw sicrhau bod hyn ar gael, nid gwneud rhywbeth symbolaidd—mai dyma’r ffordd i gyflwyno agenda ‘Creu’r Cysylltiadau’ yr ydym yn arloesi gydag hi yn y Cynulliad. Mae gennym gyfrifoldeb i osod esiampl, ac nid yma yn y Siambr yn unig. Gobeithio y bydd modd inni weld mwy o’r dehongliad hwn yma ac y byddwn yn trafod hynny ym Mhwyllgor y Tŷ, yn ogystal ag yn nhrefniadau Llywodraeth y Cynulliad.

Fel y dywedais yn fy natganiad, yr wyf yn falch bod pob agwedd ar ryngweithio â Llywodraeth y Cynulliad ar gael i ddefnyddwyr BSL. Rhaid inni fod ar flaen y gad ac mae hynny’n golygu newid ymwybyddiaeth. Fel y dywedwch, mae cefnogi iaith swyddogol newydd yn gofyn am newid agwedd.

**Ann Jones:** Fel cadeirydd y grŵp ambleidiol, croesawaf y datganiad hwn, a’r modd y cadeiriodd Karen Sinclair y grŵp gorchwyl a gorffen. Gwn y bydd llawer aelod o’r grŵp ambleidiol yn eilio hynny. Carwn eich holi ymhellach ynghylch y datganiad ac ynghylch argymhellion yr adroddiad.

Pa ganllawiau a gyhoeddir gennym ar ddarparu dehonglwyr BSL i hybu arferion da yn ein cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, llywodraeth leol, y GIG a’r sector gwirfoddol, a sut y gallwn gyhoeddi mwy o ganllawiau fel y gall pobl sydd yn gorfod defnyddio BSL deimlo y gallant ddefnyddio’r system honno yn yr un modd ag y byddech chi neu fi’n trafod gyda meddygon, meddygon teulu, yr heddlu neu unrhyw wasanaeth hanfodol arall? Mae’n bwysig i’r arferion da gael eu sefydlu yn y sector cyhoeddus ac inni symud hefyd o’r sector cyhoeddus i’r sector preifat, fel bod ein hesiampl dda’n cael ei rhannu ledled Cymru

er lles pawb sydd yn drwm eu clyw.

**Jane Hutt:** On taking this forward, all three key recommendations of the task and finish group—establishing that interpreter apprentice and employment scheme, issuing guidance to Assembly-funded public services, and ensuring that we are an exemplar—will contribute to ensuring that we take this forward in a comprehensive way. The consultation is about understanding how we can ensure that BSL users, citizens, can access public services. That means that we have to review all available guidance documents, for example. As you say, that goes across the board into the health service and local government. We have to take account of developments in communications technology, for example, so that we can ensure that it is possible to deliver services in BSL in the most effective way in all settings.

I have described how we will make the consultation document available, and we need more advice on ensuring that that reaches out to people, but we then need to develop those models of good practice that you describe. How can we follow models of good practice for accessible publications? All of us in the Chamber and in the Assembly Government recognise that we do not always get it right in that regard. The consultation document will also be available in Braille, audio and large print on request, and we need to ensure that that good practice guidance goes out, because we know that it is not about reinventing the wheel in Wales. We are small enough to learn from each other. We are a small, clever country, and we can then share the good practice across Wales. Therefore, we must recognise that this is innovation. It is about breaking down barriers.

On the private sector, we launched BSL Futures in a private sector insurance company, and it is taking this on board, because it saw this as a recruitment-and-retention issue. It was looking to recruit staff, but was having difficulties in doing so. The

**Jane Hutt:** O ran gweithredu hyn, bydd tri argymhelliad allweddol y grŵp gorchwyl a gorffen—sefydlu'r cynllun hwnnw i brentisio a chyflogi dehonglwyr, cyhoeddi canllawiau i wasanaethau cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, a gofalu ein bod yn gosod esiampl—yn cyfrannu at sicrhau y byddwn yn bwrw ymlaen â hyn mewn modd cynhwysfawr. Mae'r ymgynghori'n fater o ddeall sut y gallwn sicrhau bod defnyddwyr BSL, dinasyddion BSL, yn gallu defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Golyga hynny fod yn rhaid inni adolygu'r holl ddogfennau sy'n rhoi canllawiau sydd ar gael, er enghraifft. Fel y dywedwch, mae hynny'n wir am y gwasanaethau'n gyffredinol, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol. Rhaid inni ystyried datblygiadau mewn technoleg cyfathrebu, er enghraifft, er mwyn inni sicrhau bod modd cyflwyno gwasanaethau mewn BSL yn y dull mwyaf effeithiol ym mhob sefyllfa.

Yr wyf wedi disgrifio sut y byddwn yn peri bod y ddogfen ymgynghori ar gael, ac mae angen inni gael rhagor o gyngor ynghylch sicrhau y bydd yn cyrraedd pobl, ond yna rhaid inni ddatblygu'r modelau hynny o arferion da yr ydych yn eu disgrifio. Sut y gallwn ddilyn modelau o arferion da o ran cyhoeddiadau sydd ar gael yn hwylus? Yr ydym oll yn y Siambr ac yn Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod nad ydym yn wastad yn taro deuddeg yn hynny o beth. Bydd y ddogfen ymgynghori ar gael hefyd mewn Braille, ar sain ac mewn print bras, o wneud cais, a rhaid inni ofalu y bydd y canllawiau hynny ynghylch arferion da yn hysbys, gan y gwyddom nad mater o ailddyfeisio'r olwyn yw hyn yng Nghymru. Yr ydym yn ddigon bychan i ddysgu oddi wrth ein gilydd. Yr ydym yn wlad fach, glyfar a gallwn felly rannu'r arferion da ledled Cymru. Rhaid inni gydnabod felly fod hyn yn beth newydd. Mae'n fater o chwalu rhagfuriau.

O ran y sector preifat, lansiodd BSL Futures gennym mewn cwmni yswiriant yn y sector preifat, ac mae'n ymgymryd â hyn, gan ei fod yn gweld hyn yn fater sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff. Yr oedd ar y cwmni eisiau recriwtio staff, ond yr oedd yn cael

company then went to an RNID business breakfast and, as a result, moved to employing BSL citizens, and that has made a difference to its business edge.

3.40 p.m.

**Mark Isherwood:** Although not all deaf people can use British Sign Language and although all people who can communicate in British Sign Language are not deaf, those in the deaf community across Wales and the United Kingdom for whom British Sign Language is the first or preferred language see themselves as a distinct cultural group deserving and requiring recognition accordingly.

As another member of the Assembly's all-party group on deaf issues, I welcome the Minister's statement today and its recognition of the priorities highlighted by all members of that group. As the Welsh Conservative spokesman for equal opportunities, I acknowledge that recognition of British Sign Language by the Welsh Assembly Government in word and deed is necessary if its functions are to be exercised in accordance with the principle of equality of opportunity for all. To achieve this, the Welsh Assembly Government has detailed a number of options for action. What timescale does the Minister propose to turn these options into a realistic and deliverable action plan?

The Cabinet task and finish group looking at British Sign Language interpreters in the public services in Wales, to which the Minister referred, recommended an increase in the number of interpreters from 12 to 64. I understand that the Assembly Government plans to enable 45 people to train as interpreters, so how does the Minister propose to reach the figure of 64 and by when?

The Assembly Government intends to publish advice on the service delivery of British Sign Language. How, and in what form, will consultation on this be carried out so that the views of BSL users and their representatives can be fully expressed and represented in the published advice that

anhawster wrth wneud hynny. Yna aeth y cwmni i frecwast busnes gan RNID, ac o ganlyniad, dechreusant gyflogi dinasyddion BSL, ac mae hynny wedi gwneud gwahaniaeth i'w gallu yn y busnes.

**Mark Isherwood:** Er na all pob un sy'n fyddar ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac er nad yw pawb a all gyfathrebu drwy gyfrwng Iaith Arwyddion Prydain yn fyddar, gwêl y rhai yn y gymuned fyddar ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig sydd ag Iaith Arwyddion Prydain yn iaith gyntaf neu'n ddewis iaith eu hunain fel grŵp diwylliannol ar wahân, y mae angen ei gydnabod felly, ac sy'n haeddu cael ei gydnabod felly.

Fel aelod arall o grŵp ambleidiol y Cynulliad ar faterion yn ymwneud â phobl fyddar, croesawaf ddatganiad y Gweinidog heddiw a'r ffaith ei fod yn cydnabod y blaenoriaethau a bwysleisiwyd gan bob aelod o'r grŵp hwnnw. Fel llefarydd Ceidwadwyr Cymru ar gyfle cyfartal, yr wyf yn sylweddoli bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gydnabod Iaith Arwyddion Prydain mewn gair a gweithred os yw am arfer ei swyddogaethau yn unol â'r egwyddor bod pawb yn cael cyfle cyfartal. Er mwyn sicrhau hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi nifer o ddewisiadau ar gyfer gweithredu. Pa amserlen sydd gan y Gweinidog mewn golwg i droi'r dewisiadau hyn yn gynllun gweithredu realistig y bydd modd ei gyflwyno?

Mae grŵp gorchwyl a gorffen y Cabinet a edrychodd ar ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, y cyfeiriodd y Gweinidog ato, yn argymhell cynyddu nifer y dehonglwyr o 12 i 64. Deallaf fod Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu galluogi 45 o bobl i hyfforddi fel dehonglwyr, felly sut y bwriada'r Gweinidog gyrraedd y ffigur o 64 ac erbyn pryd?

Bwriada Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi cyngor ynghylch cyflwyno gwasanaeth Iaith Arwyddion Prydain. Sut, ac ar ba ffurf, y cynhelir yr ymgynghori ar hyn fel bod modd mynegi a chynrychioli'n llawn farn defnyddwyr BSL a'u cynrychiolwyr yn y cyngor cyhoeddedig a ddeillia ohono? Pa

results? What action will be taken to provide deaf-awareness training for public sector staff so that the barriers to understanding faced by BSL users when, for instance, communicating with health staff or reporting crime may be overcome? What action will be taken to attract increasing numbers of people to undertake foundation-level BSL training, so that they can make BSL users comfortable in a service-delivery environment? What consideration will be given to the professional and often self-employed status of BSL interpreters? How will initiatives involving information technology be used to promote digital inclusion within the Sign Wales initiative? Recognition of British Sign Language as a language in its own right was right and proper, but, working together, we must now plan for positive action to make this happen.

**Jane Hutt:** Thank you, Mark, and thank you for the role that you have played. I agree that it must be in word and deed. If you look at the timescales, you will see that BSL Futures will make available more than 30 full-time apprenticeships for people wishing to become interpreters. The scheme has already recruited its first cohort of 10 apprentice interpreters, some of whom have already gained their first qualifications under the scheme. It is now in the process of recruiting the next 10—the closing date for applications was last Wednesday. Sixteen applicants have been invited for skills assessments. There is no shortage of people coming forward for these schemes. Ten started in May, 10 will start in September, and 10 will start in 2007. Considerable investment has been made in Wales's capacity to teach BSL by supporting those course developments in colleges. We have to do that in order to ensure that we can teach and support the apprentice interpreters. In total, the scheme aims to support 45 people to register as interpreters. That gives you an idea of the momentum in taking this forward.

You asked about the timescale for the consultation. As I said in my statement, we will launch the consultation in August. We will have an extended consultation period of 16 weeks to ensure that we get this right. When that is published—as I said to Ann Jones—that will be the guidance that will

gamau a gymerir i ddarparu hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth ynghylch byddardod i staff y sector cyhoeddus fel y bydd modd goresgyn y rhwystrau rhag deall a wynebwr gan ddefnyddwyr BSL wrth gyfathrebu â staff iechyd, er enghraifft, neu wrth roi gwybod am drosedd? Pa gamau a gymerir i ddenu mwy o bobl i ddilyn hyfforddiant lefel sylfaenol mewn BSL fel y gallant wneud defnyddwyr BSL yn gartrefol mewn amgylchedd lle y cyflwynir gwasanaeth? Pa ystyriaeth a roddir i'r statws proffesiynol, a hunangyflogedig yn aml, sydd gan ddehonglwyr BSL? Sut y defnyddir mentrau sydd yn cynnwys technoleg gwybodaeth i hybu cynhwysedd digidol ym menter Arwydd Cymru? Yr oedd cydnabod Iaith Arwyddion Prydain yn iaith ynddi ei hun yn hollol gywir, ond, wrth weithio gyda'n gilydd, rhaid inni gynllunio camau pendant yn awr i beri i hyn ddigwydd.

**Jane Hutt:** Diolch, Mark, a diolch am y rôl a gyflawnwyd gennych. Cytunaf y dylai hyn fod ar air a gweithred. Os edrychwch ar yr amserlenni, fe welwch y bydd BSL Futures yn darparu dros 30 o brentisiaethau amserllawn i'r sawl sy'n dymuno bod yn ddehonglwyr. Mae'r cynllun eisoes wedi recriwtio'r garfan gyntaf o 10 o ddehonglwyr ar brentisiaeth, ac mae rhai eisoes wedi ennill eu cymwysterau cyntaf dan y cynllun. Erbyn hyn mae wrthi'n recriwtio'r 10 nesaf - dydd Mercher diwethaf oedd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Gwahoddwyd 16 o ymgeiswyr i asesiadau sgiliau. Nid oes prinder pobl sydd am gymryd rhan yn y cynlluniau hyn. Dechreuodd deg ym Mai, bydd 10 yn dechrau ym mis Medi, a bydd 10 yn dechrau yn 2007. Buddsoddwyd cryn dipyn yng nghapasiti Cymru i ddysgu BSL drwy gefnogi datblygu'r cyrsiau hynny yn y colegau. Rhaid inni wneud hynny er mwyn gofalu ein bod yn gallu dysgu a chynnal y prentisiaid o ddehonglwyr. Nod y cynllun yw cefnogi cyfanswm o 45 o bobl i gofrestru fel dehonglwyr. Fe rydd hynny syniad i chi o'r momentwm wrth fwrw ymlaen â hyn.

Gofynasoch am amserlen yr ymgynghori. Fel y dywedais yn fy natganiad, byddwn yn lansio'r ymgynghori ym mis Awst. Cawn gyfnod ymgynghori estynedig o 16 wythnos i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud hyn yn iawn. Pan gaiff ei gyhoeddi—fel y dywedais wrth Ann Jones—bydd yn ganllaw a fydd yn

have to go across the board in looking at all of our guidance to the public sector. Training and awareness raising has to come into this as it is taken forward. Therefore, we will be mainstreaming BSL as well as developing a new understanding of BSL users among our civil service, as well as the public and private sectors in Wales.

**Val Lloyd:** Like everyone else, I welcome your statement and the work done by Karen Sinclair and others on this. On your reply to Mark Isherwood on the apprentice scheme, I think that you will agree that it is crucial to encourage more people in Wales to learn BSL, and that cost could be a barrier for some. I am currently dealing with a case relating to fees charged for a BSL course. A constituent of mine who has been attending BSL classes for some time has recently been told that she will be charged quite a high fee for the course, whereas students in a similar situation who choose to learn a different language, can do so free of charge. Are there any initiatives in place or planned to allow BSL students at the lower levels of study, which is what I am talking about, to learn the language free of charge?

**Jane Hutt:** I would like to hear more about that case. As I said, considerable investment is going into supporting people through a system of individual grants and funded courses. We will need to take this back and look at it to ensure that we can reach out to those who are starting at that level and help them to overcome those barriers.

**Jenny Randerson:** I am grateful for your statement and, as a member of the cross-party group on deaf issues, I very much welcome its content. The lack of BSL interpreters in Wales has been a scandal for far too long. This action is to be applauded, and I hope that your ambition to lead in Europe in this regard will be fulfilled, because as an Assembly with a very specific obligation to equality, we should take the lead on such issues.

gorfod rhychwantu popeth wrth edrych ar ein holl ganllawiau i'r sector cyhoeddus. Mae'n rhaid i hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ddod yn rhan o hyn wrth iddo gael ei weithredu. Felly, byddwn yn prif ffrydio BSL yn ogystal â datblygu dealltwriaeth newydd o ddefnyddwyr BSL ymysg ein gwasanaeth sifil, yn ogystal â'r sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru.

**Val Lloyd:** Fel pawb arall, yr wyf yn croesawu eich datganiad a'r gwaith a wnaethpwyd gan Karen Sinclair ac eraill ar hyn. O ran eich ateb i Mark Isherwood ynglŷn â'r cynllun prentisiaeth, tybiaf y byddwch yn cytuno ei bod yn hanfodol annog rhagor o bobl yng Nghymru i ddysgu BSL, ac y gallai'r gost fod yn rhwystr i rai. Yr wyf yn delio ar hyn o bryd ag achos yn ymwneud â ffioedd a godir am gwrs BSL. Mae un o'm hetholwyr wedi bod yn mynychu dosbarthiadau BSL ers peth amser, a dywedwyd wrthi yn ddiweddar y bydd yn gorfod talu cryn dipyn am y cwrs, tra bo myfyrwyr mewn sefyllfa debyg sy'n dewis dysgu iaith wahanol, yn gallu gwneud hynny'n ddi-dâl. A oes unrhyw gynlluniau wedi eu gwneud, neu'n debygol o gael eu gwneud, er mwyn galluogi myfyrwyr BSL ar y lefelau astudio isaf, sef y lefelau yr wyf yn sôn amdanynt, i ddysgu'r iaith yn ddi-dâl?

**Jane Hutt:** Hoffwn glywed mwy am yr achos hwnnw. Fel y dywedais, mae llawer o arian yn cael ei fuddsoddi er mwyn cynorthwyo pobl, drwy system o grantiau unigol a chyrsiau sy'n cael eu hariannu. Bydd angen inni fynd at hyn yn ôl ac edrych arno, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gallu cyrraedd y rhai sy'n dechrau ar y lefel hon a'u helpu i oresgyn y rhwystrau hyn.

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi am eich datganiad ac, fel aelod o'r grŵp trawsbleidiol ar faterion pobl fyddar, yr wyf yn croesawu ei gynnwys yn fawr. Mae'r prinder dehonglwyr BSL yng Nghymru yn warthus, ac mae'r sefyllfa'n bodoli ers llawer gormod o amser. Mae'r camau hyn i'w cymeradwyo, a hyderaf y byddwch yn cyflawni eich uchelgais i ddangos y ffordd i Ewrop yn y cyswllt hwn, oherwydd fel Cynulliad sydd â chyfrifoldeb penodol iawn dros sicrhau cydraddoldeb, dylem fod yn dangos arweiniad ar faterion o'r fath.

I am pleased that you will disseminate information to the public sector and I particularly draw your attention to ensuring that higher and further education is made fully aware of the associated issues. However, I remind you that sign language is only one way in which deaf people communicate. It is very important that the Government, in parallel with sign language provision, provides people with the facilities and information that they need to use alternative methods of communication. We need to ensure, with regard to the draft advice for public services on delivering services in BSL, that it is not just used on its own, but as part of a whole package of measures to assist deaf people in their communication. In fact, I am rather concerned about the title and the idea that you are only dealing with BSL in this document. There is an opportunity here to raise awareness generally about the issues of dealing with people who are deaf and who have hearing problems, and to make public services aware of the high percentage of the population who suffer in that way. Very simple measures can often assist. Therefore, I would like to see this as a package of other measures, perhaps with an emphasis on the new work on BSL. You say in the final page of your statement that the

Yr wyf yn falch eich bod yn mynd i ddosbarthu gwybodaeth i'r sector cyhoeddus, a hoffwn dynnu eich sylw at yr angen i sicrhau bod addysg uwch ac addysg bellach yn gwbl ymwybodol o'r materion sy'n gysylltiedig â hyn. Fodd bynnag, rhaid imi eich atgoffa mai dim ond un o'r ffyrdd y mae pobl fyddar yn eu defnyddio i gyfathrebu yw iaith arwyddion. Mae'n bwysig iawn bod y Llywodraeth, ochr yn ochr â'r ddarpariaeth iaith arwyddion, yn rhoi i bobl y cyfleusterau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen er mwyn defnyddio ffyrdd eraill o gyfathrebu. Mae angen inni sicrhau, yng nghyswllt y cyngor drafft i wasanaethau cyhoeddus ar ddarparu gwasanaethau mewn BSL, ei bod yn cael ei defnyddio, nid ar ei phen ei hun, ond fel rhan o becyn cyfan o fesurau i gynorthwyo pobl fyddar i gyfathrebu. A dweud y gwir, yr wyf braidd yn bryderus ynglŷn â'r teitl a'r syniad mai dim ond â BSL yr ydych yn delio yn y ddogfen hon. Mae cyfle yma i godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol o faterion yn ymwneud â delio â phobl sy'n fyddar ac sydd â phroblemau o ran eu clyw, a gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn ymwybodol o'r ganran uchel o'r boblogaeth sy'n dioddef fel hyn. Yn aml iawn gall y camau symlaf fod o gymorth. Felly, hoffwn weld hyn fel rhan o becyn o fesurau, gyda phwyslais o bosibl ar y gwaith newydd ar BSL. Yr ydych yn dweud ar dudalen olaf eich datganiad y bydd y

'tendering process will enable staff to make all aspects of interaction with the Assembly Government accessible to BSL Users. Information on how to use the services associated has been made available through officials.'

broses dendro yn galluogi'r staff i sicrhau bod pob agwedd ar ryngweithio â Llywodraeth y Cynulliad ar gael i Ddefnyddwyr BSL. Mae gwybodaeth ynglŷn â sut i ddefnyddio'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â hyn wedi ei darparu drwy'r swyddogion.

Can you give us more details on how that will work and what people who wish to use BSL can expect, if, for example, they go into the Assembly office in north Wales, hoping to access a service using BSL? Will they have to give notification? Within what time will they be able to expect a response? It is the detail and the nitty-gritty of how it will work that matters to those who use BSL. How it works in detail relates to what extent it is satisfactory in providing equal opportunities for users.

A allwch roi rhagor o fanylion inni ynglŷn â sut y bydd hyn yn gweithio a beth y gall pobl sy'n dymuno defnyddio BSL ei ddisgwyl, os byddant yn mynd i swyddfa'r Cynulliad yn y gogledd, er enghraifft, gan obeithio cael gwasanaeth gan ddefnyddio BSL? A fydd rhaid iddynt hysbysu rhywun? Cyn pen faint o amser y gallant ddisgwyl cael ymateb? Y manylion a'r hanfodion ynghylch sut y bydd hyn yn gweithio sy'n bwysig i ddefnyddwyr BSL. Mae'r manylion o ran sut y bydd yn gweithio yn ymwneud ag i ba raddau y bydd

yn foddhaol o ran rhoi cyfle cyfartal i ddefnyddwyr.

3.50 p.m.

To make a final plea in terms of general awareness of deaf issues with regard to BSL and other methods of communication, the Assembly Government should look to every aspect of how it funds organisations so that it encourages not just the public sector, but other organisations that it funds, to make such services available, where appropriate. For example, the Assembly funds the Wales Millennium Centre, which should be encouraged to use sign language interpretation. I know that it has done so, but the funding stream should be used to encourage that kind of activity.

**Jane Hutt:** Your point about what we are doing for citizens who are deaf or hard of hearing who do not use BSL, is important. Deaf and hard-of-hearing issues have long been a priority for the Welsh Assembly Government. Perhaps I can reiterate some of the important initiatives that we have taken forward that are relevant to this: the newborn hearing screening programme, modernised audiology services and digital hearing aids, and support for those organisations that represent deaf and hard-of-hearing people in Wales.

In terms of communication opportunities, through the European social fund, we have supported a number of projects to increase the qualifications level of electronic note-takers, lip-speakers and sign language interpreters, which is key, as is improving the employment opportunities of those with hearing impairments. If we consider speech-to-text operators and lip-speakers, systems such as palantyping or stenography are important to take us forward—everything that is said is typed and appears on a computer screen. We need to take forward opportunities to use speech-to-text operators, who provide a suitable means of communication for deaf people who are comfortable reading English. This initiative

Os caf wneud un apêl olaf yng nghyswllt ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion pobl fyddar, o ran BSL a dulliau eraill o gyfathrebu, dylai Llywodraeth y Cynulliad edrych ar bob agwedd o ran sut y mae'n ariannu sefydliadau er mwyn sicrhau ei bod yn annog, nid yn unig y sector cyhoeddus, ond y sefydliadau eraill y mae'n eu hariannu, i sicrhau bod gwasanaethau o'r fath ar gael, lle y bo'n briodol. Er enghraifft, mae'r Cynulliad yn ariannu Canolfan Mileniwm Cymru, a dylid annog y ganolfan i ddefnyddio dehongli drwy iaith arwyddion. Gwn ei bod wedi gwneud hynny, ond dylid defnyddio'r ffrwd ariannu i annog y math hwnnw o weithgaredd.

**Jane Hutt:** Mae eich pwynt ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei wneud i helpu dinasyddion sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw ac nad ydynt yn defnyddio BSL, yn bwysig. Mae materion pobl fyddar a thrwm eu clyw wedi bod yn flaenoriaeth ers tro byd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Efallai y caf gyfeirio unwaith eto at rai o'r mentrau pwysig sy'n berthnasol i hyn a gyflwynwyd gennym: y rhaglen sgrinio clyw babanod newydd-anedig, gwasanaethau awdioleg wedi eu moderneiddio a chymhorthion clyw digidol, a chymorth i'r sefydliadau hynny sy'n cynrychioli pobl fyddar a thrwm eu clyw yng Nghymru.

O ran cyfleoedd i gyfathrebu, drwy gronfa gymdeithasol Ewrop, yr ydym wedi cefnogi nifer o brosiectau er mwyn gwella cymwysterau'r rhai sy'n cymryd nodiadau electronig, gwefuslefaryddion a dehonglwyr iaith arwyddion, sy'n bwysig iawn, ac mae hynny'n wir hefyd am wella cyfleoedd ar gyfer gwaith i'r rhai sydd â nam ar eu clyw. Os meddyliwn am weithredwyr troi llais yn destun a gwefuslefaryddion, mae systemau fel palandeipio neu stenograffeg yn bwysig er mwyn inni fwrw ymlaen—mae popeth sy'n cael ei ddweud yn cael ei deipio ac yn ymddangos ar sgrin cyfrifiadur. Mae angen inni fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio gweithredwyr troi llais yn destun, sy'n darparu ffordd addas o gyfathrebu i bobl



has to be done in the context of recognising those wider communication needs beyond BSL.

This is a recent tendering process, as you will appreciate, in terms of appointing an agency to supply interpreters to ensure that the Assembly Government can make all aspects of our work and service business accessible to BSL users. We will make that information available, particularly to BSL citizens, but also to the whole Assembly and to the public in Wales. I will take that back and report to you. Perhaps we can pick this up in the Committee on Equality of Opportunity meeting tomorrow, in which we will discuss this at great length.

The consultation is aimed at those public sector partners of the Welsh Assembly Government whom we fund. We want to encourage and enable them to do this, and ensure that they comply with the way forward in relation to being exemplar organisations, on which we are taking the lead.

**Lorraine Barrett:** I am proud to be part of the National Assembly for Wales. I think that is a world-beater today, being probably the only legislature in the world to provide BSL interpretation via the most modern technology. We are probably the first to have ever done this. Will the Minister give us a reassurance that she will be looking to ensure an even geographical spread of interpreters across Wales so that we have equity within every trust, local health board or local authority area and can ensure that every corner of Wales has access to this vital service?

**Jane Hutt:** The geographical spread is key. That is why we are recruiting across Wales—the next batch of apprentice interpreters will be in west Wales, and the whole of Wales will eventually be covered.

Finally, I acknowledge again that this is an important day in our new institution. We thank the BSL interpreters, and all those who have joined us today in the public gallery.

fyddar sy'n gallu darllen Saesneg yn rhwydd. Wrth gymryd y camau hyn mae'n bwysig cydnabod yr anghenion cyfathrebu ehangach hynny ar wahân i BSL.

Proses dendro ddiweddar yw hon, fel y gwyddoch, lle y penodir asiantaeth i gyflenwi dehonglwyr er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar waith a gwasanaeth Llywodraeth y Cynulliad yn agored i ddefnyddwyr BSL. Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael, yn enwedig i ddefnyddwyr BSL, ond hefyd i'r Cynulliad cyfan ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Yr wyf am fynd â'r mater hwn yn ôl a chyflwyno adroddiad ichi eto. Efallai y gallwn godi hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yfory, lle y cawn drafodaeth fanwl ar hyn.

Mae'r ymgynghoriad wedi ei anelu at bartneriaid sector cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cael eu hariannu gennym. Yr ydym am eu hannog a'u galluogi i wneud hyn, a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ffordd ymlaen, gan fod yn sefydliadau sy'n dangos esiampl, mewn maes yr ydym yn dangos arweiniad ynddo.

**Lorraine Barrett:** Yr wyf yn falch o fod yn rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Credaf ein bod yn dangos esiampl heddiw, yr unig ddeddfwrfa yn y byd mae'n debyg sy'n darparu dehongli drwy BSL drwy'r dechnoleg ddiweddaraf. Mae'n debyg mai ni yw'r rhai cyntaf erioed i wneud hyn. A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd inni y bydd yn ceisio sicrhau bod dehonglwyr ar gael ym mhob cwr o Gymru fel bod modd inni sicrhau cydraddoldeb ym mhob ymddiriedolaeth, bwrdd iechyd lleol neu ardal awdurdod lleol a sicrhau bod pobl ym mhob cwr o Gymru'n gallu defnyddio'r gwasanaeth pwysig hwn?

**Jane Hutt:** Mae'r dosbarthiad daearyddol yn allweddol. Dyna pam yr ydym yn recriwtio ym mhob rhan o Gymru—bydd y grŵp nesaf o ddehonglwyr sy'n brentisiaid yn y gorllewin, a bydd gennym ddehonglwyr ym mhob cwr o Gymru maes o law.

Yn olaf, yr wyf yn cydnabod unwaith eto fod hwn yn ddiwrnod pwysig yn ein sefydliad newydd. Yr ydym yn ddiolchgar i'r dehonglwyr BSL, a phob un sydd wedi ymuno â ni heddiw yn yr oriel gyhoeddus.

## Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders

**The Business Minister (Jane Hutt):** I **Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cynigiau fod  
propose that

*the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order No. 37.5:* *Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 37.5:*

*suspends Standing Order No. 37.1, Standing Order No. 6.13 and that part of Standing Order No. 5.4 that requires the weekly business statement to constitute the agreed timetable for Assembly business for the following week, to allow NNDM3094 tabled on 13 June 2006—for the revision of Standing Orders—to be considered in Plenary on Tuesday 13 June 2006. (NDM3093)*

*yn gohirio Rheol Sefydlog Rhif 37.1, Rheol Sefydlog Rhif 6.13 a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 5.4 sy'n ei gwneud yn ofynnol mai'r datganiad busnes wythnosol yw'r amserlen gytûn ar gyfer Busnes y Cynulliad yr wythnos ganlynol, a hynny i ganiatáu i'r cynnig heb ddyddiad trafod NNDM3094 a osodwyd ar 13 Mehefin 2006—i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog—gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Mehefin 2006. (NDM3093)*

*Cynnig (NDM3093): O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM3093): For 44, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Melding, David

Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Randerson, Jenny  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Brynle  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

### **Diwygio Rheolau Sefydlog Revision of Standing Orders**

**The Business Minister (Jane Hutt):** I **Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cynigiau fod propose that

*the National Assembly, acting under section 46(6) of the Government of Wales Act 1998 and Standing Order No. 37, approves the following amendment to Standing Orders:*

*y Cynulliad Cenedlaethol gan weithredu o dan adran 46(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog Rhif 37 yn cymeradwyo'r diwygiad a ganlyn i'r Rheolau Sefydlog:*

***New Standing Order 8.26C:***

***Rheol Sefydlog Newydd 8.26C***

*'A member of the Committee on Rail Infrastructure and Improved Passenger Services, who has given advance notice to the Chair may be represented at a meeting, or part of a meeting of this committee by another Member from the same political group who has been identified in advance. The nominated representative may participate in the meeting of the committee in all respects as if he or she were a member of it. No Member may represent more than one committee member at a meeting. This Standing Order will cease to exist on 30 June 2006.'* (NDM3094)

*'Caniateir i aelod o'r Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd a Gwella Gwasanaethau i Deithwyr, sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r Cadeirydd, gael ei gynrychioli mewn cyfarfod, neu ran o gyfarfod y pwyllgor hwn, gan Aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol sydd wedi'i enwi ymlaen llaw. Gall yr Aelod a enwebir gymryd rhan yn y cyfarfod ym mhob agwedd fel pe bai ef neu hi yn aelod o'r pwyllgor. Ni chaiff unrhyw Aelod gynrychioli mwy nag un aelod o'r pwyllgor mewn cyfarfod. Bydd y Rheol Sefydlog hon yn peidio â bod ar 30 Mehefin 2006.'* (NDM3094)

*Cynnig (NDM3094): O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
 Motion (NDM3094): For 44, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Butler, Rosemary  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Andrew

Davies, Janet  
 Dunwoody, Tamsin  
 Essex, Sue  
 Francis, Lisa  
 German, Michael  
 Gibbons, Brian  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Idris Jones, Denise  
 Isherwood, Mark  
 James, Irene  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, Val  
 Melding, David  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwendia  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Brynle  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

**Cymeradwyo Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog Rhif 24.25  
 Approval of Legislation under Standing Order No. 24.25**

**Y Llywydd:** O dan Reol Sefydlog Rhif 24.25, ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn.

**The Presiding Officer:** Under Standing Order No. 24.25, this motion is not subject to debate.

**The Business Minister (Jane Hutt):** I propose that

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cynigiaf fod

*the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 24.25:*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 24.25:*

*1.a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office on 23 May 2006 on the draft the Street Works (Inspection Fees) (Wales) Regulations 2006; and*

*1.a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Cymru) 2006; a*

- |  |  |
|--|--|
| <i>b) approves that the Street Works (Inspection Fees) (Wales) Regulations 2006 are made in accordance with:</i>   | <i>b) yn cymeradwyo bod Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:</i>  |
| <i>i) the draft Order laid in the Table Office on 9 May 2006;</i>  | <i>i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2006;</i>  |
| <i>ii) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 9 May 2006;</i>  | <i>ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2006;</i>  |
| <i>2.a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 6 June 2006 on the draft the Food Hygiene (Wales) (Amendment) Regulations 2006; and</i> | <i>2.a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Mehefin 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2006; a</i> |
| <i>b) approves that the Food Hygiene (Wales) (Amendment) Regulations 2006 are made in accordance with:</i>   | <i>b) yn cymeradwyo bod Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:</i>  |
| <i>i) the draft Order laid in the Table Office on 23 May 2006;</i>   | <i>i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006;</i>   |
| <i>ii) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 31 May 2006. (NDM3088)</i>   | <i>ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2006. (NDM3088)</i>   |

*Cynnig (NDM3088): O blaid 45, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM3088): For 45, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn

Jones, Elin  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Jones, Laura Anne  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Melding, David  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Randerson, Jenny  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Brynle  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

**Cymeradwyo Rheoliadau Salmonella mewn Heidiau o Frwyliaid (Pwerau  
 Arolygu) (Cymru) 2006  
 Approval of the Salmonella in Broiler Flocks (Survey Powers) (Wales)  
 Regulations 2006**

**The Minister for Environment, Planning  
 and Countryside (Carwyn Jones):** I  
 propose that

*the National Assembly for Wales*

*considers the principle of the Salmonella in  
 Broiler Flocks (Survey Powers) (Wales)  
 Regulations 2006, a copy of which was laid  
 in the Table Office on 16 May 2006.  
 (NDM3077)*

I propose that

*the National Assembly for Wales*

*1. considers the report of the Legislation  
 Committee laid in the Table Office and e-  
 mailed to Assembly Members on 6 June 2006  
 in relation to the draft the Salmonella in  
 Broiler Flocks (Survey Powers) (Wales)  
 Regulations 2006; and*

*2. approves that the draft the Salmonella in  
 Broiler Flocks (Survey Powers) (Wales)  
 Regulations 2006 is made in accordance  
 with:*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd,  
 Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):**  
 Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*yn ystyried egwyddor Rheoliadau Salmonella  
 mewn Heidiau Brwyliaid (Pwerau Arolygu)  
 (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y  
 Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2006.  
 (NDM3077)*

Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau  
 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-  
 bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6  
 Mehefin 2006 ynghylch y rheoliadau drafft,  
 Rheoliadau Salmonella mewn Heidiau  
 Brwyliaid (Pwerau Arolygu) (Cymru) 2006;  
 a*

*2. yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft,  
 Rheoliadau Salmonella mewn Heidiau  
 Brwyliaid (Pwerau Arolygu) (Cymru) 2006  
 yn cael eu gwneud yn unol ag:*

a) the draft laid in the Table Office on 16 May 2006; and

b) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 16 May 2006. (NDM3078)

These regulations provide inspectors with powers of entry to undertake sampling required by the European Commission decision 2005/226/EC in relation to domestic fowl. The inspectors will have powers to detect the levels of salmonella in broiler flocks through the sampling system. We need the legislation in place to ensure that a statutory framework governs the sampling that is required. There are no financial implications for the Assembly—the cost of sampling will be incurred by the Department for Environment, Food and Rural Affairs—and there is no cost to the producer.

**Lorraine Barrett:** I will vote for these regulations, because I would not want people to contract salmonella from these poor, wretched creatures that are herded in their thousands in totally inappropriate surroundings. I wish that those of you who eat chickens would buy free-range chickens. I would hope that, one day, we could move away from this inhumane way of rearing animals for consumption.

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** I echo those sentiments, Llywydd.

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2006; a

b) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2006. (NDM3078)

Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi pwerau i archwilwyr gael mynediad er mwyn gwneud gwaith samplu sy'n ofynnol dan benderfyniad 2005/226/EC y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â dofednod domestig. Bydd gan yr archwilwyr bwerau i ganfod lefelau salmonela mewn heidiau brwyliad drwy'r system samplu. Mae arnom angen y ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod fframwaith statudol yn rheoli'r gwaith samplu sy'n ofynnol. Nid oes goblygiadau ariannol i'r Cynulliad—bydd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn gyfrifol am gostau'r gwaith samplu—ac nid oes costau i'r cynhyrchwr.

**Lorraine Barrett:** Pleidleisïaf o blaid y rheoliadau hyn, oherwydd ni fyddwn am i bobl gael salmonela oddi wrth y creaduriaid truenus, anffodus hyn sy'n cael eu cadw yn eu miloedd mewn amgylchiadau cwbl amhriodol. Hoffwn pe bai'r rhai ohonoch sy'n bwyta cywion ieir yn prynu cywion ieir buarth. Yr wyf yn gobeithio, ryw ddiwrnod, y gallwn gefnu ar y ffordd greulon hon o fagu anifeiliaid ar gyfer eu bwyta.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Yr wyf o'r un farn yn union, Lywydd.

*Cynnig (NDM3077): O blaid 46, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM3077): For 46, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa

German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle  
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

*Cynnig (NDM3078): O blaid 45, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM3078): For 45, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
Isherwood, Mark  
James, Irene



Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Jones, Laura Anne  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Melding, David  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

**Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau  
 Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006  
 Approval of the Housing Act 2004 (Commencement No. 3 and Transitional  
 Provisions and Savings) (Wales) Order 2006**

Motion (NDM3079): to propose that  
*the National Assembly for Wales:*

Cynnig (NDM3079): cynnig bod  
*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*considers the principle of the Housing Act 2004 (Commencement No. 3 and Transitional Provisions and Savings) (Wales) Order 2006, a copy of which was laid in the Table Office on 9 May 2006.*

*yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2006.*

Amendment 1 in the name of Lisa Francis.  
 Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 1 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*expresses concern that the financial implications of this legislation have not been properly costed.*

*yn mynegi pryder nad yw goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth hon wedi'u costio'n gywir.*

Motion (NDM3080): to propose that  
 the National Assembly for Wales

Cynnig (NDM3080): cynnig bod  
 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*1. considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office on 23 May 2006 in relation to the draft the Housing Act 2004 (Commencement No. 3 and Transitional Provisions and Savings) (Wales) Order 2006; and*

*1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006; a*

2. approves that the draft the Housing Act 2004 (Commencement No. 3 and Transitional Provisions and Savings) (Wales) Order 2006 is made in accordance with:

a) the draft laid in the Table Office on 9 May 2006; and

b) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 9 May 2006; and

c) the memorandum of corrections laid in the Table Office on 23 May 2006.

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 i NDM3079 yn enw Lisa Francis.

**The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart):** I propose that

*the National Assembly for Wales*

*considers the principle of the Housing Act 2004 (Commencement No. 3 and Transitional Provisions and Savings) (Wales) Order 2006, a copy of which was laid in the Table Office on 9 May 2006. (NDM3079)*

I propose that

*the National Assembly for Wales*

1. considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office on 23 May 2006 in relation to the draft the Housing Act 2004 (Commencement No. 3 and Transitional Provisions and Savings) (Wales) Order 2006; and

2. approves that the draft the Housing Act 2004 (Commencement No. 3 and Transitional Provisions and Savings) (Wales) Order 2006 is made in accordance with:

a) the draft laid in the Table Office on 9 May 2006; and

b) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 9 May 2006; and

c) the memorandum of corrections laid in the Table Office on 23 May 2006. (NDM3080)

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2006; a

b) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2006; ac

c) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006.

**The Presiding Officer:** I have selected amendment 1 to NDM3079 in the name of Lisa Francis.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2006. (NDM3079)*

Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006; a

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2006; a

b) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2006; ac

c) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006. (NDM3080)

**Mark Isherwood:** I propose amendment 1 to NDM3079 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:

*expresses concern that the financial implications of this legislation have not been properly costed.*

On too many occasions, we are asked to approve Assembly Government motions on the assurance that there will be no additional cost imposed on local government or the other agencies involved. However, on too many occasions, we are then told by the local authorities in our constituencies or regions that this is not the case.

On this occasion, we are told that £1 million for the start-up costs associated with houses in multiple occupation licensing has been added to the revenue support grant settlement for 2006-07. This equates to an average of just £45,000 for each Welsh local authority, and, in reality, the postcode lottery in local government funding across Wales means that many counties will receive far less even than this.

4.00 p.m.

We already know that many local authorities are having to impose service cuts after pay, prices, pensions, unfunded burdens and so-called efficiency savings have been accounted for, and that their prioritisation of spending in these circumstances means that these tiny extra pots of non-ring-fenced money are rarely used for their intended purposes. We also know that the postcode lottery in funding means that the actual cost of delivering local services is too often ignored, and that, without target measures, inefficiency is often rewarded. In this instance, we are also told that it is not possible to quantify any other costs for local authorities in relation to this Order, and that it is envisaged that licensing will eventually be self-financing out of the licensing fees themselves. However, we are not given any evidence of research or a business plan to support this. We do not know whether any consideration has been given to the number

**Mark Isherwood:** Cynigiaf welliant 1 i NDM3079 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn mynegi pryder nad yw goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth hon wedi'u costio'n gywir.*

Yn rhy aml o'r hanner, gofynnir inni gymeradwyo cynigion Llywodraeth y Cynulliad â'r sicrwydd na fydd cost ychwanegol i lywodraeth leol nac i'r asiantaethau eraill y mae'r cynigion yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, yn rhy aml o'r hanner, dywedir wrthym wedyn gan yr awdurdodau lleol yn ein hetholaethau neu ein rhanbarthau nad yw hynny'n wir.

Y tro hwn, dywedir wrthym fod £1 miliwn ar gyfer y costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â thrwyddedu tai amlfeddiannaeth wedi ei ychwanegu at setliad y grant cynnal refeniw ar gyfer 2006-07. Mae hyn yn golygu nad oes ond £45,000 ar gyfartaledd ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru, ac, mewn gwirionedd, mae'r loteri cod post gydag arian i lywodraeth leol drwy Gymru'n golygu y bydd llawer o siroedd yn cael llawer llai na hyn hyd yn oed.

Gwyddom yn barod fod llawer o awdurdodau lleol yn gorfod gwneud toriadau mewn gwasanaethau ar ôl darparu ar gyfer cyflogau, prisiau, pensiynau, beichiau heb eu hariannu ac arbedion effeithlonrwydd honedig, a bod y modd y maent yn blaenoriaethu gwariant yn yr amgylchiadau hyn yn golygu mai anaml iawn y defnyddir y potiau ychwanegol bach iawn hyn o arian sydd heb ei neilltuo ar gyfer yr amcanion y'u bwriedir ar eu cyfer. Gwyddom hefyd fod y loteri cod post o ran ariannu yn golygu y caiff cost wirioneddol darparu gwasanaethau lleol ei anwybyddu'n rhy aml, a, heb fesurau targed, y caiff aneffeithlonrwydd ei wobrwyo'n aml. Yn yr achos hwn, dywedir wrthym hefyd nad oes modd mesur unrhyw gostau eraill i awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn, ac y rhagwelir y bydd trwyddedu'n talu amdano'i hun yn y pen draw allan o'r ffioedd trwyddedu eu hunain. Fodd bynnag, ni roddir dim tystiolaeth inni o

or type of houses in multiple occupation in each county, or to the number of tenants in such properties.

**Leighton Andrews:** Understanding everything that you said, are you actually in favour of this legislation?

**Mark Isherwood:** If I can conclude the speech, the answer will follow. Yes, we are certainly in favour of the principle of the legislation. [*Interruption.*]

**The Presiding Officer:** Order. We are anticipating Mark Isherwood's answer now. [*Laughter.*]

**Mark Isherwood:** I am talking to the amendment that relates to the costs of the motion before us. We do not know what consideration has been given to demand for such properties, generated by general homelessness and waiting lists, and by the increasing numbers of migrant workers in hotspots such as Wrexham. We do know that small, uncosted and non-ring-fenced provision has been made for 2006–07, but we do not know what research has been undertaken to establish when licensing will become self-funding.

**Ann Jones:** I wish to pressure you a little. Do you agree with the conditions in which a certain Rachman left many houses in multiple occupation? Are you saying that we should be looking to continue with that?

**Mark Isherwood:** I am saying precisely the opposite. Rachman was a reprehensible individual; there have been similar individuals in north Wales recently, as you are well aware. One high-profile individual has recently been imprisoned, and quite rightly so. We must take action to ensure that people have housing of the highest quality, whether they are in the rented sector or the owned sector. I am actually talking here about the financing required to make that possible.

For all these reasons, it would be impossible for any rational and numerate Assembly Member to oppose an amendment expressing

ymchwil na chynllun busnes i ategu hyn. Ni wyddom a oes unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i'r math o dai amlfeddiannaeth a nifer y tai hynny ym mhob sir, nac i nifer y tenantiaid mewn tai o'r fath.

**Leighton Andrews:** O ddeall popeth a ddywedaso, a ydych yn y bôn o blaid y ddeddfwriaeth hon?

**Mark Isherwood:** Os caf gloi'r araith, fe ddaw'r ateb. Ydym, yn sicr yr ydym o blaid egwyddor y ddeddfwriaeth. [*Torri ar draws.*]

**Y Llywydd:** Trefn. Yr ydym yn disgwyl ateb Mark Isherwood yn awr. [*Chwerthin.*]

**Mark Isherwood:** Yr wyf yn siarad am y gwelliant sydd yn ymwneud â chostau'r cynnig sydd ger ein bron. Ni wyddom pa ystyriaeth a roddwyd i'r galw am eiddo o'r fath, sy'n cael ei greu gan ddigartrefedd cyffredinol a rhestri aros, a chan y niferoedd cynyddol o weithwyr mudol mewn ardaloedd problemus fel Wrecsam. Yr ydym yn gwybod bod darpariaeth fach, heb ei chostio a heb ei neilltuo, wedi'i gwneud ar gyfer 2006-07, ond ni wyddom pa ymchwil sydd wedi'i gwneud er mwyn gweld pa bryd y bydd y trwyddedu'n dechrau talu amdano'i hun.

**Ann Jones:** Hoffwn holi ychydig arnoch. A ydych yn cytuno â'r cyflwr y gadawyd llawer o dai amlfeddiannaeth ynddo gan ryw Rachman? A ydych yn dweud y dylai fod yn fwriad gennym barhau â hynny?

**Mark Isherwood:** Yr wyf yn dweud i'r gwrthwyneb yn llwyr. Unigolyn gresynus oedd Rachman; bu unigolion tebyg yn y gogledd yn ddiweddar, fel y gwyddoch yn dda. Cafodd un unigolyn sydd wedi cael cryn sylw ei garcharu'n ddiweddar, a da hynny. Rhaid inni weithredu i sicrhau y caiff pobl dai o'r ansawdd gorau, boed y rheini yn y sector rhentu neu'r sector perchenogaeth. Sôn yr ydwyf yma am y cyllid y mae ei angen er mwyn gwneud hynny'n bosibl.

Am yr holl resymau hyn, byddai'n amhosibl i ddim un Aelod Cynulliad rhesymol a rhifog wrthwynebu gwelliant sydd yn mynegi

concern that the financial implications of this legislation have not been properly costed. Although we have not tabled any other amendments, recent casework and research have raised concerns that the proposed licensing of houses in multiple occupation will significantly add to regulation and costs across the private rental sector rather than just target and tackle the small minority of bad landlords who need to be jumped heavily upon.

For example, in the case of a landlord in Flintshire, a tenant acted in breach of his or her tenancy agreement by alleging to the local authority that the landlord had failed to make necessary repairs, rather than advising the landlord himself. In this case, the landlord was able to show that he had attended to all the requests previously made by the tenant, but the landlord states that the council still seemed to think that it should investigate the tenant's complaint and carry out an inspection before first referring the matter to the landlord. This matter has now been referred to the National Landlords Association.

In a second example, a landlord in Denbighshire, who represented Wales on the executive board of the National Federation of Residential Landlords, states that he was subjected to false allegations after a local councillor stated that she did not want to live next door to bedsits. In this case, vital accommodation and support was provided for care leavers and young offenders, but, as a result of the allegations of alleged political bias against private landlords, the landlord was driven out of business. He also believes that this was also due in part to opposition by the National Federation of Landlords to registration schemes, where improvement to accommodation standards through the alternative of voluntary accreditation schemes was supported by research, and where registration schemes implemented by other local authorities had failed to succeed in improving standards.

The management of houses in multiple occupation must be of an acceptable standard. However, for the reasons stated today, we have grave concerns about the

pryder nad yw goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth hon wedi'u costio'n iawn. Er nad ydym wedi cyflwyno gwelliannau eraill, mae gwaith achosion ac ymchwil yn ddiweddar wedi codi pryderon y bydd y cynllun i drwyddedu tai amlfeddiannaeth yn ychwanegu'n sylweddol at reoleiddio a chostau ar draws y sector rhentu preifat yn hytrach na thargedu a mynd i'r afael â'r lleiafrif bach o landlordiaid drwg y mae angen eu trin yn llym.

Er enghraifft, yn achos landlord yn sir y Fflint, torrodd tenant ei gytundeb neu ei chytundeb tenantiaeth drwy honni wrth yr awdurdod lleol fod y landlord heb wneud gwaith atgyweirio angenrheidiol, yn hytrach na dweud wrth y landlord ei hun. Yn yr achos hwn, yr oedd y landlord yn gallu dangos ei fod wedi ateb pob cais a wnaethpwyd yn flaenorol gan y tenant, ond dywed y landlord fod y cyngor fel pe bai'n dal i feddwl y dylai ymchwilio i gŵyn y tenant a chynnal archwiliad cyn cyfeirio'r mater yn gyntaf at y landlord. Mae'r mater hwn bellach wedi'i gyfeirio at Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid.

Mewn enghraifft arall, dywed landlord yn sir Ddinbych, a oedd yn cynrychioli Cymru ar fwrdd gweithredol Ffederasiwn Cenedlaethol y Landlordiaid Preswyl, iddo fod yn destun honiadau ffug wedi i gynghorydd lleol ddatgan nad oedd arni eisiau byw y drws nesaf i fflatiau un ystafell. Yn yr achos hwn, darperid llety a chymorth hanfodol i rai a oedd yn gadael gofal a throeddwy'r ifanc, ond, o ganlyniad i'r honiadau am ragfarn wleidyddol honedig yn erbyn landlordiaid preifat, parodd hynny i'r landlord golli'i fusnes. Cred yn ogystal fod hyn wedi digwydd yn rhannol hefyd oherwydd gwrthwynebiad gan Ffederasiwn Cenedlaethol y Landlordiaid i gynlluniau cofrestru, lle'r oedd ymchwil yn cefnogi gwella safonau llety drwy gynlluniau achredu gwirfoddol yn hytrach na chynlluniau cofrestru, a lle'r oedd cynlluniau cofrestru a weithredwyd gan awdurdodau lleol eraill wedi methu â gwella'r safonau.

Rhaid i reolaeth tai amlfeddiannaeth fod o safon dderbyniol. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodwyd heddiw, mae gennym bryderon difrifol ynghylch gallu'r cynnig

ability of the motion before us to actually deliver on that.

**The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart):** When I go out and about, people say to me that all politicians are the same. However, it is quite clear that we are not the same, because, as a member of a Labour socialist party, I welcome what I am introducing in terms of this legislation. I can tell you one thing; it will also be warmly welcomed across Wales by local authorities, because the Order paves the way for regulations that will improve standards of management and property conditions in the private rental sector through the introduction of HMO licensing.

What you said today, Mark, contrasts totally to the points that Lisa Francis raised with me during questions last week about the whole issue of HMOs and people and families going from bed-and-breakfast accommodation and so on, and the points that I agreed to take up. This will benefit private tenants and residents, and good landlords, who have nothing to fear from the proposals if they are managing their properties properly. That is the key issue with regard to this. Regulations covering the housing health-and-safety rating system will also be produced following the introduction of this Order, which will be particularly important for Wales as a new rating system will emphasise the health and safety of the occupants of those dwellings, which is a key issue in this particular area.

The Order is also important for safeguarding the needs of students living in rented accommodation in Wales through the mandatory and additional HMO licensing. The private rented sector has grown in importance and provides key housing for vulnerable people, students and those who cannot afford to own homes, and the Order and regulations that will follow have significant consequences for people who reside in private housing. The improved standards of management, property conditions and health and safety will help to protect the most vulnerable groups, and that is what this legislation is all about.

sydd ger ein bron i sicrhau hynny mewn gwirionedd.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Pan fyddaf yn mynd hyd y wlad, dywed pobl wrthyf fod gwleidyddion i gyd yr un fath. Fodd bynnag, mae'n hollol amlwg nad ydym yr un fath, oherwydd, fel aelod o blaid Lafur sosialaidd, yr wyf yn croesawu'r hyn yr wyf yn ei gyflwyno drwy'r ddeddfwriaeth hon. Gallaf ddweud un peth wrthyf; fe'i croesewir yn wresog hefyd ledled Cymru gan awdurdodau lleol, oherwydd y mae'r Gorchymyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer rheoliadau a fydd yn gwella safonau rheoli a chyflwr eiddo yn y sector rhentu preifat drwy gyflwyno trwyddedu i dai amlfeddiannaeth.

Mae'r hyn a ddywedasoeh heddiw, Mark, yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r pwyntiau a gododd Lisa Francis gyda mi yn ystod cwestiynau'r wythnos diwethaf am holl gwestiwn tai amlfeddiannaeth a phobl a theuluoedd yn mynd o lety gwely a brecwast ac yn y blaen, a'r pwyntiau y cytunais innau i ymdrin â hwy. Bydd hyn yn fanteisiol i denantiaid a phreswylwyr preifat, ac i landlordiaid da, nad oes dim yn y cynigion i beri iddynt boeni os ydynt yn rheoli eu heiddo'n iawn. Hynny yw'r pwynt allweddol ynglŷn â hyn. Llunnir rheoliadau'n ymwneud â system graddio iechyd a diogelwch y tai hefyd ar ôl cyflwyno'r Gorchymyn hwn, a fydd yn arbennig o bwysig i Gymru gan y bydd system raddio newydd yn pwysleisio iechyd a diogelwch meddianwyr y tai hynny, sydd yn broblem allweddol yn y maes arbennig hwn.

Mae'r Gorchymyn yn bwysig hefyd er mwyn gofalu am anghenion myfyrwyr sydd yn byw mewn llety ar rent yng Nghymru drwy'r trwyddedu gorfodol ac ychwanegol ar dai amlfeddiannaeth. Mae'r sector rhentu preifat wedi tyfu o ran pwysigrwydd ac yn darparu tai allweddol i bobl fregus, myfyrwyr a rhai na allant fforddio bod yn berchen ar dai, ac yn sgîl y Gorchymyn a'r rheoliadau a fydd yn ei ddilyn bydd canlyniadau arwyddocaol i bobl sydd yn preswyllo mewn tai preifat. Bydd gwella safonau rheoli, cyflwr eiddo ac iechyd a diogelwch yn helpu i warchod y grwpiau mwyaf bregus, sef holl ddiben y ddeddfwriaeth hon.

On the amendment, I normally try to be charitable on certain occasions with regard to some amendments, but this amendment is totally unnecessary. The financial implications will be principally for local housing authorities. These costs will include the initial training and running costs of the licensing schemes for homes of multiple occupation, and the administration and enforcement costs. The costs can be met by the additional £1 million that the Welsh Assembly Government has provided to local authorities in revenue support grant, and the Assembly Government has also provided a further £200,000 specifically to help with the costs of training local authority practitioners. Local government in Wales has not raised any points on this issue with me or my colleague, Sue Essex.

Once established, the licensing scheme should be largely self-financing through the fees paid by the person who has applied for a licence. Local authorities will set their own individual licence fees, which should reflect the costs of HMO licensing to the individual local authority. Where the housing health-and-safety rating system is concerned, local authorities already incur costs associated with current fitness standards, and these costs will be used in the future to deal with the housing health-and-safety rating system, as it replaces the current fitness standard.

On the residential property tribunal, the tribunal will be able to charge fees for appeals made to it and for other decisions it makes under the Housing Act 2004. Any other costs incurred will be met out of the existing Assembly administration costs budget. There is no issue in terms of your amendment. What we are doing today has been welcomed across the piece. We are protecting the most vulnerable in society and we must really get on with these issues. I know that I enjoy majority support in the Chamber on this resolution.

*Gwelliant 1: O blaid 7, Ymatal 0, Yn erbyn 41.  
Amendment 1: For 7, Abstain 0, Against 41.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

Ynglŷn â'r gwelliant, fel rheol byddaf yn ceisio bod yn garedig ambell waith yng nghyswllt rhai gwelliannau, ond mae'r gwelliant hwn yn gwbl ddiangen. Awdurdodau tai lleol yn bennaf a fydd yn wynebu'r goblygiadau ariannol. Bydd y costau hyn yn cynnwys y costau dechreuol am hyfforddi a rhedeg y cynlluniau trwyddedu ar gyfer tai amlfeddiannaeth, a'r costau gweinyddu a gorfodi. Gellir talu'r costau gyda'r £1 filiwn ychwanegol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i roi i awdurdodau lleol yn y grant cynnal refeniw, ac mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi rhoi £200,000 ar ben hynny yn benodol i helpu gyda chost hyfforddi ymarferwyr awdurdodau lleol. Nid yw llywodraeth leol yng Nghymru wedi codi dim pwyntiau ar y mater hwn gyda mi na'm cyd-Weinidog, Sue Essex.

Wedi iddo gael ei sefydlu, dylai'r cynllun trwyddedu dalu amdano'i hun i raddau helaeth drwy'r ffioedd a delir gan y sawl a wna gais am drwydded. Bydd awdurdodau lleol yn pennu eu ffioedd trwyddedu eu hunain, a ddylai adlewyrchu cost trwyddedu tai amlfeddiannaeth i'r awdurdod lleol unigol. O ran system graddio iechyd a diogelwch tai, mae'r awdurdodau lleol eisoes yn wynebu costau sy'n gysylltiedig â'r safonau addasrwydd cyfredol, a defnyddir y costau hyn yn y dyfodol i ddelio â'r system i raddio iechyd a diogelwch tai, gan fod honno'n disodli'r safon addasrwydd cyfredol.

Ynglŷn â'r tribiwnlys eiddo preswyl, bydd y tribiwnlys yn gallu codi ffioedd am apeliadau a wneir iddo ac am benderfyniadau eraill a wna dan Ddeddf Tai 2004. Telir unrhyw gostau eraill a wynebir allan o gyllideb bresennol y Cynulliad ar gyfer costau gweinyddu. Nid oes dim problem o ran eich gwelliant. Mae'r hyn yr ydym yn ei wneud heddiw wedi cael croeso ym mhobman. Yr ydym yn gwarchod y mwyaf bregus yn ein cymdeithas a rhaid inni fwrw ymlaen â'r pethau hyn. Gwn fod gennyf gefnogaeth y mwyafrif yn y Siambr ar y cynnig hwn.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:

The following Members voted for:

Francis, Lisa  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Jones, Laura Anne  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Williams, Brynle

The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment defeated.*

*Cynnig (NDM3079): O blaid 41, Ymatal 6, Yn erbyn 0.*

*Motion (NDM3079): For 41, Abstain 6, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:



German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Randerson, Jenny  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle  
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Francis, Lisa  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Jones, Laura Anne  
Melding, David  
Morgan, Jonathan

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

*Cynnig (NDM3080): O blaid 45, Ymatal 2, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM3080): For 45, Abstain 2, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Idris Jones, Denise  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Jones, Laura Anne  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Melding, David  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Brynle  
 Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
 The following Members abstained:

Graham, William  
 Morgan, Jonathan

*Derbyniwyd y cynnig.*  
*Motion carried.*

**Cymeradwyo Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog Rhif 24.27(iv)**  
**Approval of the Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales) Regulations 2006 under Standing Order No. 24.27(iv)**

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** I propose that

*the National Assembly for Wales*

*considers the principle of the Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales) Regulations 2006, a copy of which was laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 6 June 2006. (NDM3085)*

I propose that

*the National Assembly for Wales*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*yn ystyried egwyddor Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Mehefin 2006. (NDM3085)*

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*approves that the Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales) Regulations 2006 is made in accordance with the draft laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 6 June 2006. (NDM3086)*

These are largely technical regulations that revoke and remake the 2005 regulations. The practical effect of the regulations will be to provide for the arrangements for the quarantine of captive birds imported from third countries, for specific requirements for the running of bird quarantine centres, and for the Veterinary Laboratories Agency to act as the official laboratory and make changes for testing carried out in connection with commission decision 2000/666.

4.10 p.m.

**Mick Bates:** I seek a point of clarification on this legislation. Previously, there was some concern over the delay at these centres when some imported birds died with respect to testing for avian flu. First, I would like your assurance that, since that time, the facilities are now all informed of a better and more robust protocol.

The second issue is on the importation of game birds. What controls are in place to test them to ensure that they are not bringing in avian flu, because, as you may be aware, in that industry, a great number of game birds are now imported from the continent?

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** I can give the assurance that the veterinary officers are happy with the facilities that are available in terms of quarantine. There is also a continuing risk assessment in relation to game birds in terms of their importation. That assessment, at present, is robust. The regulations before us, if you remember, deal with captive wild birds in particular. It is important that, as the threat of avian flu appears to recede, there are regulations in place to enable us to import birds of this sort once again, but also that there are robust quarantine facilities available.

*yn cymeradwyo bod Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Mehefin 2006. (NDM3086)*

Rheoliadau technegol yw'r rhain i raddau helaeth sydd yn dirymu ac yn ail-wneud rheoliadau 2005. Effaith ymarferol y rheoliadau fydd darparu ar gyfer y trefniadau i roi adar caeth a fewnforir o drydedd wlad mewn cwarantín, ar gyfer gofynion penodol ynglŷn â rhedeg canolfannau cwarantín adar, ac fel bod yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol yn gweithredu fel y labordy swyddogol a gwneud newidiadau i brofion a wneir yng nghyswllt penderfyniad y comisiwn 2000/666.

**Mick Bates:** Yr wyf yn gofyn am bwynt o eglurhad ar y ddeddfwriaeth hon. Gynt, yr oedd cryn bryder ynghylch yr oedi yn y canolfannau hyn pan fu farw rhai adar a fewnforiwyd yng nghyswllt profion am fflw adar. Yn gyntaf, hoffwn gael sicrwydd gennych fod y cyfleusterau, ers hynny, i gyd bellach wedi cael gwybod am brotocol gwell a chadarnach.

Mae a wnelo'r ail gwestiwn â mewnforio adar hela. Pa fesurau rheoli sydd gennym i'w profi i sicrhau nad ydynt yn dod â fflw adar i mewn, oherwydd, fel y gwyddoch efallai, yn y diwydiant hwnnw, caiff llawer iawn o adar hela eu mewnforio bellach o'r cyfandir?

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Gallaf roi'r sicrwydd bod y swyddogion milfeddygol yn fodlon ar y cyfleusterau sydd ar gael o ran cwarantín. Ceir asesiad risg parhaus hefyd ynghylch adar hela o ran eu mewnforio. Mae'r asesiad hwnnw, ar hyn o bryd, yn gadarn. Mae'r rheoliadau sydd ger ein bron, os cofiwch, yn delio ag adar gwyllt caeth yn arbennig. Mae'n bwysig, wrth i'r bygythiad y daw fflw adar ymddangos fel pe bai'n cilio, fod rheoliadau wedi'u sefydlu i'n galluogi i fewnforio adar o'r math hwn unwaith eto, ond bod cyfleusterau cwarantín cadarn ar gael hefyd.

*Cynnig (NDM3085): O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM3085): For 49, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Jones, Laura Anne  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Morgan, Jonathan  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle  
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

*Cynnig (NDM3086): O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM3086): For 49, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Jones, Laura Anne  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Morgan, Jonathan  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle  
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

**Cymeradwyo Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE)  
(Cymru) 2006 a Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf  
Trosoglwyddadwy (TSE) Defaid a Geifr (Cymru) 2006  
Approval of the Bovine Spongiform Encephalopathies (BSE) Compensation  
(Wales) Regulations 2006 and the Sheep and Goats Transmissible Spongiform  
Encephalopathies (TSE) Compensation (Wales) Regulations 2006**

**Y Llywydd:** Cynigir trafod y ddwy eitem nesaf gyda'i gilydd, oni bai fod Aelod yn gwrthwynebu. **Gwelaf** nad oes **The Presiding Officer:** It is proposed that the next two items be debated together, unless any Member objects. I see that there

gwrthwynebiad.

are no objections.

Cynnig (NDM3081): cynnig bod

Motion (NDM3081): to propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*the National Assembly for Wales:*

*yn ystyried egwyddor Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006.*

*considers the principle of the Bovine Spongiform Encephalopathy (BSE) Compensation (Wales) Regulations 2006, a copy of which was laid in the Table Office on 23 May 2006.*

Gwelliant 1 yn enwau Jocelyn Davies, Lisa Francis a Kirsty Williams. Ychwanegu fel pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Amendment 1 in the name of Jocelyn Davies, Lisa Francis a Kirsty Williams. Add new points at the end of the motion:

*yn credu na fydd y tabl prisio arfaethedig, sy'n seiliedig ar brisiau cyfartalog yn ôl oedran yn unig, yn cynnig iawndal teg, yn enwedig am anifeiliaid pedigri, gan y bydd yn gorbriso anifeiliaid o gyflwr ac ansawdd is ac yn tanbriso anifeiliaid o gyflwr ac ansawdd gwell;*

*believes that the proposed valuation table based on age-related average prices alone will not provide fair compensation, especially for pedigree animals, as it will only serve to overvalue animals of poorer condition and quality and undervalue animals of higher condition and quality;*

*yn credu y dylid cyflwyno system apelio i ddatrys prisiadau dadleuol; ac*

*believes that an appeal system should be available to resolve disputed valuations; and*

*yn disgwyl i'r Gweinidog gyflwyno mesurau iawndal wedi'u diwygio erbyn 30 Mehefin 2006.*

*expects the Minister to bring forward revised compensation measures by 30 June 2006.*

Cynnig (NDM3082): cynnig bod

Motion (NDM3082) to propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*the National Assembly for Wales*

*1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Mehefin 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006; a*

*1. considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 6 June 2006 in relation to the draft the Bovine Spongiform Encephalopathy (BSE) Compensation (Wales) Regulations 2006; and*

*2. yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:*

*2. approves that the draft the Bovine Spongiform Encephalopathy (BSE) Compensation (Wales) Regulations 2006 is made in accordance with:*

*a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006;*

*a) the draft laid in the Table Office on 23 May 2006;*

*b) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2006; ac*

*b) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 31 May 2006; and*

*c) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at*

*c) the memorandum of corrections laid in the Table Office and e-mailed to Assembly*

*Aelodau'r Cynulliad ar 6 Mehefin 2006.*

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 i NDM3081 yn enw Jocelyn Davies, Lisa Francis and Kirsty Williams.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Cynigiad fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*yn ystyried egwyddor Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006. (NDM3081)*

Cynigiad fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Mehefin 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006; a*

*2. yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:*

*a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006;*

*b) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2006; ac*

*c) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Mehefin 2006. (NDM3082)*

Cynigiad fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*yn ystyried egwyddor Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) Defaid a Geifr (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006. (NDM3083)*

*Members on 6 June 2006.*

**The Presiding Officer:** I have selected amendment 1 to NDM3081 in the name of Jocelyn Davies, Lisa Francis a Kirsty Williams.

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*considers the principle of the Bovine Spongiform Encephalopathy (BSE) Compensation (Wales) Regulations 2006, a copy of which was laid in the Table Office on 23 May 2006. (NDM3081)*

I propose that

*the National Assembly for Wales*

*1. considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 6 June 2006 in relation to the draft the Bovine Spongiform Encephalopathy (BSE) Compensation (Wales) Regulations 2006; and*

*2. approves that the draft the Bovine Spongiform Encephalopathy (BSE) Compensation (Wales) Regulations 2006 is made in accordance with:*

*a) the draft laid in the Table Office on 23 May 2006;*

*b) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 31 May 2006; and*

*c) the memorandum of corrections laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 6 June 2006. (NDM3082)*

I propose that

*the National Assembly for Wales*

*considers the principle of the Sheep and Goats Transmissible Spongiform Encephalopathies (TSE) Compensation (Wales) Regulations 2006 a copy of which was laid in Table Office on 23 May 2006.*

(NDM3083)

Cynigiad fod

I propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru**the National Assembly for Wales*

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Mehefin 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) Defaid a Geifr (Cymru) 2006; a

1. considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 6 June 2006 in relation to the draft the Sheep and Goats Transmissible Spongiform Encephalopathies (TSE) Compensation (Wales) Regulations 2006; and

2. yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) Defaid a Geifr (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

2. approves that the draft the Sheep and Goats Transmissible Spongiform Encephalopathies (TSE) Compensation (Wales) Regulations 2006 is made in accordance with:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006;

a) the draft laid in the Table Office on 23 May 2006;

b) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2006; ac

b) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 31 May 2006; and

c) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Mehefin 2006. (NDM3084)

c) the memorandum of corrections laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 6 June 2006. (NDM3084)

Hoffwn siarad am y cynnig cyntaf.

I will speak on the first motion.

On the Bovine Spongiform Encephalopathy (BSE) Compensation (Wales) Regulations 2006, I am introducing these regulations to rationalise the system for compensating cattle slaughtered as a result of BSE. At present, BSE compensation is paid on the basis of market price, or indicative market price. It is a complicated system, and it varies according to whether the animal being compensated for is a confirmed BSE case, a suspected BSE case that subsequently tested negative for BSE, an offspring of a confirmed BSE case, or part of a cohort of a BSE case. There is some evidence, because of the complications of these calculation methods, that the owners of some animals killed under the offspring cull were under-compensated. That is unfair, and we will be introducing table evaluations in order to remedy this historic under-compensation of farmers. There are no costs involved as far as the Assembly Government is concerned, as all the compensation is paid

Ynghylch Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006, yr wyf yn cyflwyno'r rheoliadau hyn i resymoli'r system ar gyfer talu iawndal am wartheg a leddir o ganlyniad i BSE. Ar hyn o bryd, telir iawndal BSE ar sail pris y farchnad, neu bris dangosol y farchnad. Mae'n system gymhleth, ac mae'n amrywio gan ddibynnu ar a yw'r anifail y telir iawndal amdano'n anifail y mae wedi'i gadarnhau bod BSE arno, yn un yr amheuwyd bod BSE arno ond a brofodd yn negyddol o ran BSE wedyn, yn epil anifail y cadarnhawyd bod BSE arno, neu wedi bod mewn cysylltiad ag anifail y cadarnhawyd bod BSE arno. Mae peth tystiolaeth, oherwydd cymhlethdodau'r dulliau cyfrifo hyn, na thalwyd iawndal digonol i berchenogion rhai anifeiliaid a laddwyd yn y broses difa epil. Mae hynny'n annheg, a byddwn yn cyflwyno tablau prisio er mwyn unioni'r sefyllfa hon sydd wedi peri bod ffermwyr wedi bod yn cael rhy ychydig o



for by DEFRA.

In terms of the Transmissible Spongiform Encephalopathies (TSE) Compensation (Wales) Regulations 2006, the legislation lowers the rate of compensation for ewes and lambs in the compulsory scrapie flock scheme, and allows the Welsh Assembly Government to obtain the valuation of a flock, when it is suspected that the value of a flock is low. The State Veterinary Service has expressed concerns that the rates of compensation for the CSFS are significantly higher than the value of the animals concerned. There have also been concerns from some quarters of the industry that the rates were attracting some participants for financial gain. There has been full consultation with regard to these regulations.

**Elin Jones:** Cynigiaf welliant 1 i NDM3081 yn enwau Jocelyn Davies, Lisa Francis a Kirsty Williams. Ychwanegu fel pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn credu na fydd y tabl prisio arfaethedig, sy'n seiliedig ar brisiau cyfartalog yn ôl oedran yn unig, yn cynnig iawndal teg, yn enwedig am anifeiliaid pedigri, gan y bydd yn gorbrisio anifeiliaid o gyflwr ac ansawdd is ac yn tanbrisio anifeiliaid o gyflwr ac ansawdd gwell;*

*yn credu y dylid cyflwyno system apelio i ddatrys prisiadau dadleuol; ac*

*yn disgwyl i'r Gweinidog gyflwyno mesurau iawndal wedi'u diwygio erbyn 30 Mehefin 2006.*

Byddaf hefyd yn siarad am y Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) Defaid a Geifr (Cymru) 2006.

Yr ydym yn cynnig yr un gwelliant i'r rheoliadau heddiw ar BSE ag y bu inni ei gynnis ar y rheoliadau TB ychydig wythnosau yn ôl, gan ein bod yn gwrthwynebu egwyddor y rheoliadau hyn ar BSE fel y bu inni wrthod egwyddor y rheoliadau TB. Mae un gwahaniaeth sylweddol ac ymarferol rhwng rheoliadau

iawndal. Nid oes dim costau yn hyn o beth i Lywodraeth y Cynulliad, gan mai DEFRA fydd yn talu pob iawndal.

O ran Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) (Cymru) 2006, mae'r ddeddfwriaeth yn gostwng cyfradd yr iawndal am ddefaid ac ŵyn yn y cynllun gorfodol ar gyfer diadelloedd clefyd y crafu, ac yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru gael prisiad o werth diadell, pan amheuir bod gwerth diadell yn isel. Mae'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol wedi mynegi pryderon fod cyfraddau iawndal y cynllun gorfodol ar gyfer diadelloedd clefyd y crafu gryn dipyn yn uwch na gwerth yr anifeiliaid dan sylw. Mynegwyd pryderon gan rannau o'r diwydiant hefyd fod y cyfraddau'n denu rhai i gyfranogi er mwyn elw ariannol. Cafwyd ymgynghori llawn ynglŷn â'r rheoliadau hyn.

**Elin Jones:** I propose amendment 1 to NDM3081 in the name of Jocelyn Davies, Lisa Francis a Kirsty Williams. Add new points at the end of the motion:

*believes that the proposed valuation table based on age-related average prices alone will not provide fair compensation, especially for pedigree animals, as it will only serve to overvalue animals of poorer condition and quality and undervalue animals of higher condition and quality;*

*believes that an appeal system should be available to resolve disputed valuations; and*

*expects the Minister to bring forward revised compensation measures by 30 June 2006.*

I will also speak on the Transmissible Spongiform Encephalopathies (TSE) Compensation (Wales) Regulations 2006.

We have tabled the same amendment to today's BSE regulations as that which we tabled on the TB regulations, because we object to the principle of these BSE regulations as we objected to the principle of the TB regulations. There is one significant and practical difference between today's regulations and those tabled a few weeks ago,

heddiw a'r rheoliadau a gynigiwyd ychydig wythnosau yn ôl, sy'n ymwneud â statws y clefyd ei hun, gan fod TB yn rhemp yn ein cymdeithas, er nad yw'r un peth yn wir am BSE erbyn hyn, diolch byth. Mae'n edrych yn debyg y bydd rheoliadau BSE y Gweinidog yn cael eu derbyn heddiw, a fydd yn golygu bod gennym gyfundrefn lle mae rheoliadau iawndal BSE yn wahanol i rai TB—yn y tymor byr, beth bynnag. Wrth ymateb i'r ddaol y prynhawn yma, efallai y gallai'r Gweinidog gymryd y cyfle i gadarnhau a yw'n bwriadu diwygio'r rheoliadau TB yn y dyfodol i ddelio â rhywfaint o'r pryderon a glywsom yn y Senedd ychydig wythnosau yn ôl, neu efallai ei fod yn cymryd yn ganiataol y bydd yn gallu ailgyflwyno'r rheoliadau TB hyn yn llwyddiannus ar ôl 29 Mehefin. Nid yw wedi gwneud unrhyw ymdrech i drafod unrhyw ddiwygiadau i'r rheoliadau TB a wrthodwyd yn y Senedd ychydig wythnosau yn ôl.

Byddwn yn cefnogi'r Rheoliadau Iawndal Encephalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) Defaid a Geifr (Cymru) 2006, ond hoffwn wneud dau bwynt yn eu cylch, gan eu bod yn go wahanol i'r rheoliadau ar BSE. Mae system apêl yn y rheoliadau hyn—yr union beth y mae'r Gweinidog wedi bod yn ei wrthod o ran y rheoliadau TB a BSE. Yn ail, gosodwyd pris ar gyfer y categorïau gwahanol o ddefaid a geifr yn y rheoliadau TSE ac, i nifer o ffermwyr, mae'r pris hwnnw yn parhau i fod yn ffafriol mewn sawl categori—mae dipyn yn fwy na'r pris cyfartalog. Mae'n gwbl anghyson i'r Gweinidog gyflwyno system apêl a gwerthuso unigol ar gyfer defaid â TSE ond gan wrthwynebu'r egwyddor honno o ran talu iawndal ar gyfer gwartheg â TB a BSE. Fodd bynnag, mae un peth y mae'r Gweinidog yn gwbl gyson yn ei gylch o ran y rheoliadau BSE, TSE a TB, a hynny yw'r ffaith mai'r cyfan oll y mae wedi ei wneud yw copio rheoliadau Lloegr air am air, heb fachu ar y cyfle i greu cyfundrefnau a rheoliadau Cymreig i weithio yn fwy teg ar gyfer ffermwyr Cymru.

**Brynle Williams:** Thank you for the opportunity to speak once again on this important issue. As Elin pointed out, a few weeks ago, we discussed the tabular

